Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Recriwtio a chadw athrawon

Ionawr 2026




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPlant@senedd.cymru**
X: **@SeneddPlant**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Recriwtio a chadw athrawon

Ionawr 2026

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Cefin Campbell AS**
Plaid Cymru



**Russell George AS**
Aelod Annibynnol



**Vaughan Gething AS**
Llafur Cymru



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Joel James AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **6**

**1. Cyflwyniad** .......... **9**

Ein dull ni .......... 11

**2. Rhwystrau i recriwtio** .......... **14**

Derbyniadau AGA .......... 16

Ffactorau sy'n effeithio ar apêl AGA ac addysgu fel proffesiwn .......... 17

Penderfynu ar nifer y lleoedd AGA a sut y cânt eu dyrannu .......... 28

Y broses ymgeisio .......... 34

Canfyddiadau o addysgu fel gyrfa .......... 35

Llwybrau amgen i addysgu .......... 41

Cymhellion .......... 48

Effaith cyd-destun ariannol heriol ar gyfer darparwyr .......... 55

Heriau penodol i addysg cyfrwng Cymraeg .......... 59

Recriwtio i'r swydd .......... 66

Ein barn ni .......... 72

**3. Cadw** .......... **78**

Cymorth gyrfa gynnar .......... 80

Dysgu proffesiynol .......... 87

Llwyth gwaith .......... 90

Gweithio hyblyg .......... 104

Cyflog .......... 109

Ymddygiad heriol .......... 112

Ein barn ni ....................................................................................................... 119

**4. Arweinwyr ysgolion ....................................................................... 124**

Llwybrau dilyniant i rolau arweinyddiaeth ........................................................ 125

Y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) 127

Llesiant a llwyth gwaith ..................................................................................... 129

Amrywiaeth mewn rolau arweinyddiaeth .......................................................... 137

Ein barn ni ....................................................................................................... 138

**5. Amrywiaeth y gweithlu ..................................................................... 141**

Amrywiaeth ethnig ym maes addysgu .............................................................. 144

Anabledd .......................................................................................................... 147

Ein barn ni ....................................................................................................... 148

**6. Effaith ar ddysgwyr ......................................................................... 150**

Ein barn ni ....................................................................................................... 155

**7. Effaith ar gyflawni diwygiadau addysgol ........................................... 156**

Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ....................................................... 159

Ein barn ni ....................................................................................................... 162

**8. Y gweithlu addysg ehangach ............................................................ 164**

Ein barn ni ....................................................................................................... 166

**Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ...................................... 168**

**Atodiad 2 : Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ...................................... 170**

Gwybodaeth ychwanegol ................................................................................. 171

# Rhagair y Cadeirydd

Cyn ymuno â'r Senedd, treuliais amser hir yn gweithio mewn ysgolion. Rwy'n gwybod y gall gweithio ym myd addysg fod yn hwyl, yn ysgogol ac yn heriol.

Mae athrawon yn newid bywydau, bob dydd. Mae'r effaith y gall athro, a staff addysg eraill, ei chael yn para ymhell ar ôl i blentyn adael yr ystafell ddosbarth. Un o uchafbwyntiau'r ymchwiliad hwn oedd clywed am yr agwedd hon ar addysgu, pam y daeth pobl i'r maes addysgu, a pham y gwnaethant aros. Ond ochr yn ochr â hyn, clywsom hefyd am y pwysau cynyddol sy'n ei gwneud hi'n anoddach i athrawon wneud y gwaith maen nhw'n ei garu.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r hyn a glywsom yn glir: mae heriau recriwtio a chadw yn rhoi straen ar ysgolion. Mae ysgolion uwchradd yn wynebu prinder parhaus, ac mae gormod o ysgolion yn ei chael hi'n anodd denu ymgeiswyr. Mae llwyth gwaith yn parhau i fod yn un o'r ffactorau mwyaf sy'n gyrru athrawon i ffwrdd. Mae heriau ymddygiadol cynyddol, blinder diwygio, a disgwyliadau ar ysgolion i ysgwyddo cyfrifoldebau sydd ymhell y tu hwnt i addysgu a dysgu, yn gwneud y sefyllfa hon yn waeth.

Er gwaethaf y pwysau hyn, yr hyn a wnaeth sefyll allan yn ystod ein hymchwiliad oedd ymrwymiad eithriadol y gweithlu. Mae athrawon ac arweinwyr yn parhau i wneud mwy na'r disgwyl dros eu dysgwyr. Mae angen i ni sicrhau bod yr ymroddiad hwn yn cael ei ategu â system gefnogol sy'n galluogi athrawon i wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud orau: addysgu.

Nid oes atebion hawdd i rai o'r problemau a wynebir. Ond mae cyfle, wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu ei Chynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, i ddechrau newid pethau. Rydym yn gobeithio y bydd ein hadroddiad, ein casgliadau a'n hargymhellion yn ddefnyddiol wrth ddatblygu'r Cynllun hwn.

Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud yn iawn oherwydd mae pob plentyn yng Nghymru yn haeddu'r addysg orau bosibl, wedi'i darparu gan weithwyr proffesiynol sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi ac yn gallu ffynnu. Rwy'n gobeithio y bydd ein hadroddiad yn chwarae rhan fach wrth ein helpu i gyrraedd y sefyllfa honno.

**Buffy Williams AS**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am effeithiolrwydd y rhaglenni Teach First ac Athrawon Graddedig a ddarparwyd yn flaenorol yng Nghymru, gan gynnwys pa mor effeithiol oeddent wrth helpu amrywiaeth ehangach o bobl i ymuno â'r proffesiwn addysgu, a pham y penderfynwyd dod â'r gefnogaeth a roddwyd i'r rhaglenni hyn i ben. ....... Tudalen 74

**Argymhelliad 2.** Fel rhan o'i Chynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, bod Llywodraeth Cymru naill ai'n ymgymryd â gwaith neu'n comisiynu gwaith i weld a yw costau AGA yn rhwystro myfyrwyr rhag cael mynediad iddi a'i chwblhau'n llwyddiannus; p'un a yw'r rhwystrau hyn yn uwch ar gyfer grwpiau penodol o ddarpar fyfyrwyr; a pha opsiynau y gallai fod ar gael i ddileu'r rhwystrau ariannol hyn. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud o fewn cyd-destun yr hinsawdd ariannol sydd ohoni i sicrhau bod unrhyw argymhellion ar gyfer newid yn ddichonadwy ac yn fforddiadwy ac y byddant yn gwella recriwtio a chadw. .................................. Tudalen 75

**Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb i'r adroddiad hwn, yn darparu amserlen ar gyfer y gwaith o archwilio'r gofyniad i sicrhau bod 50 y cant o radd yn berthnasol er mwyn ymuno ag AGA. ................................................................ Tudalen 75

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ffactorau sy'n atal athrawon â sgiliau Cymraeg rhag eu defnyddio'n broffesiynol. Unwaith y byddant wedi nodi'r ffactorau hyn, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r cymorth a roddir i'r athrawon hyn ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion ac yn cael ei ddefnyddio yn y ffyrdd mwyaf effeithiol. ................................................................ Tudalen 77

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw waith sy'n hyrwyddo addysgu yng Nghymru yn nodi'n glir nad yw pobl sydd wedi cael eu hyfforddi i fod yn athrawon yn Lloegr yn wynebu rhwystrau i symud i Gymru i addysgu. ................................................................ Tudalen 77

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'u Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, gynnwys gwaith ar y defnydd a wneir o gyfnodau sabothol mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd, a sut y gall ysgolion a staff ysgol gael eu cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd sabothol. ................................................................ Tudalen 120

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae'n helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i nodi arferion da ac yna sut mae'n helpu i ledaenu'r arferion da hyn ar draws y sector addysg yng Nghymru. ................................................................ Tudalen 120

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r effeithiau y mae'r Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol wedi'u cael o ran lleihau llwyth gwaith a nodi ym mha feysydd o weithrediadau ysgolion y mae'r buddiannau hyn wedi'u gweld a'r effeithiau ar y gweithlu. ........ Tudalen 120

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod lleihau llwythi gwaith athrawon dosbarth yn flaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Strategol y Gweithlu Addysg. Dylai Cynllun y Gweithlu gynnwys camau gweithredu clir a mesuradwy sydd â'r nod o leihau llwythi gwaith athrawon cyn gynted â phosibl mewn ffordd ystyrlon ac amlwg. Dylai hefyd gynnwys ffyrdd o fesur llwyth gwaith. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag athrawon. Dylai hefyd edrych ar arferion gorau o'r gwledydd eraill, yn y DU ac yn rhyngwladol, a cheisio cymhwyso unrhyw rai o'r arferion hyn a fyddai'n gweithio yng Nghymru. ........ Tudalen 121

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru osod disgwyliad i ysgolion ac awdurdodau lleol y gall gweithgareddau nad oes angen iddynt gael eu gwneud yn yr ysgol, fel cynllunio, paratoi ac asesu (CPA), gael eu gwneud oddi ar y safle. Wrth osod y disgwyliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn glir y dylid llunio amserlenni mewn ffordd a fyddai'n cefnogi gweithio oddi ar y safle ar gyfer CPA. Fel isafswm, lle mae'n rhaid i athrawon aros ar y safle, rhaid i amser CPA gael ei warchod fel nad oes modd tarfu arnynt na gofyn iddynt fynd i'r afael â materion eraill yn yr ysgol. ........ Tudalen 122

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir, cydlynol a chyffredinol ar reoli ymddygiad sy'n fanwl ac yn agor i gyn lleied o gamddehongli â phosibl ar gyfer pob math o leoliad ysgol yng Nghymru, fel mater o frys. Dylai'r canllawiau hyn sicrhau bod dull cyson o fynd i'r afael ag ymddygiad yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru, yn enwedig o ran achosion difrifol o dorri rheolau ymddygiad. ........ Tudalen 123

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cynnig digon o gyfleoedd cysgodi a mentora i athrawon dosbarth er mwyn iddynt ddeall yn well a ydynt am gamu i rolau arweinyddiaeth ysgolion. ........ Tudalen 139

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn gwerthuso newidiadau i'r CPCP. Dylai unrhyw werthusiad o'r fath sicrhau ei fod yn ystyried a yw'r cwrs yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i fod yn bennaeth effeithiol; ac a yw'r cwrs yn darparu gwerth da. ........ Tudalen 139

**Argymhelliad 14.** Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i nodi'r ffactorau sy'n achos anghyfartaledd rhwng y rhywiau mewn rolau arweinyddiaeth ysgolion ac yna'n llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ffactorau sydd o fewn cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru.......................................................... Tudalen 140

**Argymhelliad 15.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cynllun Strategol y Gweithlu Addysg yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn sicrhau bod y proffesiwn addysgu yn adlewyrchu poblogaeth Cymru a'r cymunedau y mae ysgolion yn eu gwasanaethu yn well....................................................................................Tudalen 149

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff cenedlaethol i bennu cyflog, telerau ac amodau ar gyfer staff cymorth. .....................................................Tudalen 167

# 1. Cyflwyniad

Mae recriwtio a chadw athrawon yn fater sydd wedi bod ar ein radar ers tro. Mae wedi codi mewn llawer o'r gwaith rydym wedi'i wneud, felly gwnaethom benderfynu edrych arno'n fanylach. Gwnaethom gymryd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, ac aethom ati hefyd i ymgysylltu'n uniongyrchol ag athrawon, arweinwyr ysgolion a chyn-athrawon.

**1.** Yn 2024, gwnaethom benderfynu edrych ar recriwtio a chadw athrawon yn fanylach. Roedd hwn yn fater a oedd yn cael ei godi dro ar ôl tro yn ein gwaith craffu arall.

**2.** Codwyd pryderon hefyd gan gyrff gwyddonol fel y Sefydliad Ffiseg, y Gymdeithas Gemeg Frenhinol a'r Gymdeithas Fioleg Frenhinol. Clywsom rai ystadegau syfrdanol am nifer y myfyrwyr sy'n cymhwyso i fod yn athrawon gwyddoniaeth. Er enghraifft, yn 2022/23, dangosodd data Cyngor y Gweithlu Addysg ("CGA") mai dim ond tri myfyriwr gymhwysodd fel athrawon ffiseg gyda pherson arall yn gohirio, o gymharu â tharged o 58.[1]

**3.** Yn adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2023/24, dywedodd y Prif Arolygydd fod recriwtio, yn enwedig mewn rhai meysydd fel gwyddoniaeth, mathemateg a'r Gymraeg, wedi bod yn "her sylweddol, gan effeithio ar ansawdd addysg." Roedd hyn yn broblem benodol mewn ysgolion uwchradd. Dywedodd fod y "methiant i ddenu ymgeiswyr newydd" i'r proffesiwn addysgu yn effeithio ar "ansawdd addysgu a dysgu"[2].

**4.** Cyn mynd ati i wneud gwaith cwmpasu manwl, gwnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ("yr Ysgrifennydd Cabinet") yn amlinellu ein pryderon ac yn gofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion allweddol.[3]

[1] Cyngor y Gweithlu Addysg, Canlyniadau myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon, 2022-23, tabl 5.
[2] Estyn, Adroddiad Blynyddol 2023-2024, Rhagair
[3] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Recriwtio a chadw athrawon, 24 Mehefin 2024

Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet ym mis Medi 2024 gyda gwybodaeth a oedd yn ddefnyddiol wrth lunio ein ffordd o feddwl am ffocws y gwaith hwn.[4]

**5.** Yna gwnaethom gychwyn ar y gwaith o graffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), fel yr oedd bryd hynny. Mae gweithredu'r Ddeddf, fel ag y mae erbyn hyn, yn llwyddiannus yn gwbl ddibynnol ar gael y gweithlu addysg i'w chyflawni. Gwnaethom amlinellu hyn yn ein hadroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Gwnaethom ymrwymo i edrych ar y materion hyn yn y cyd-destun ehangach fel rhan o ymchwiliad ar wahân.[5]

**6.** Wrth i ni fynd ati i ystyried y Bil, cyflwynodd llawer o randdeiliaid yr achos dros gynllun gweithlu statudol â thargedau. Roeddem yn teimlo bod materion recriwtio a chadw yn mynd ymhell y tu hwnt i sicrhau bod yna nifer digonol o athrawon a allai naill ai addysgu yn Gymraeg neu addysgu Cymraeg. Gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r "dull deddfwriaethol mwyaf priodol i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cynllun gweithlu addysg statudol sy'n cynnwys targedau, ac amserlen, ar gyfer recriwtio a chadw". Gwnaethom alw ar i'r cynllun hwn gynnwys "pob agwedd ar y gweithlu addysg" a chanolbwyntio ar feysydd lle mae prinder ac angen yn y dyfodol.[6]

**7.** Gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan ddatgan bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu "datblygu cynllun strategol y gweithlu addysg ar gyfer y sector addysg gyfan i wella lefelau recriwtio a chadw, llesiant ac addysgu a dysgu o ansawdd uchel". Fodd bynnag, oherwydd bod angen iddo fod yn hyblyg a diogelu at y dyfodol, byddai cynllun y gweithlu yn un anstatudol.[7]

**8.** Ar yr un pryd, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ysgrifenedig ar ddatblygiad Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg ("Cynllun y Gweithlu") ar gyfer ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar yn y lle cyntaf. Byddai'r cynllun hwn yn ystyried materion fel llwyth gwaith, yr argyfwng costau byw, anghenion

---

[4] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Medi 2024
[5] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1, Pennod 3, Materion o ran y gweithlu a chapasiti, 13 Rhagfyr 2024
[6] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1, Pennod 3, Materion o ran y gweithlu a chapasiti, 13 Rhagfyr 2024
[7] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 13 Ionawr 2025

newidiol dysgwyr a "newidiadau yn nisgwyliadau cymdeithas o'r hyn y dylai ysgolion ei wneud", y mae pob un ohonynt yn effeithio ar apêl addysgu.[8]

**9.** Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, gwnaethom ofyn am ragor o wybodaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet am ddatblygiad Cynllun y Gweithlu.[9] Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gwaith yn mynd rhagddo, gyda'r bwriad o gyhoeddi Cynllun y Gweithlu yn 2026.[10]

## Ein dull ni

**10.** Ar 5 Mawrth 2025, gwnaethom ystyried ein cwmpas a'n dull o ymdrin â'r ymchwiliad hwn. Gwnaethom gytuno ar y cylch gorchwyl canlynol:

**Cylch gorchwyl**

Rhwystrau i recriwtio: Y nifer a dderbynnir i AGA a'r ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio i'r swydd (gan gynnwys ffocws ar bynciau â blaenoriaeth, cyfrwng Cymraeg, ysgolion uwchradd a'r effaith y mae diwygiadau addysgol yng Nghymru wedi'i chael ar recriwtio athrawon).

Ffactorau sy'n effeithio ar gadw: (gan gynnwys ffocws ar bynciau â blaenoriaeth, cyfrwng Cymraeg, ysgolion uwchradd ac effeithiolrwydd y cymorth a roddir yn gynnar mewn gyrfa).

Arweinwyr ysgolion: ffactorau penodol sy'n effeithio ar recriwtio a chadw arweinwyr ysgolion.

Amrywiaeth y gweithlu: a yw'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru gan gynnwys rhywedd, hil ac ethnigrwydd ac anabledd.

Effaith ar ddysgwyr: effaith y safbwynt presennol ar addysg a'r ffordd y'i darperir a'r effaith ar gymorth ehangach i ddysgwyr.

[8] Llywodraeth Cymru, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg, 13 Ionawr 2025
[9] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, 18 Chwefror 2025
[10] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Mawrth 2025

**Effaith ar gyflawni diwygiadau addysgol:** gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

**Effaith ar athrawon a'r gweithlu ehangach:** gan gynnwys yr effaith ar y modd y defnyddir gynorthwywyr addysgu a staff cymorth, a'r effaith ar y modd y defnyddir athrawon cyflenwi.

**Mynd i'r afael â recriwtio a chadw:** Pa gamau y dylid eu cymryd, a chan bwy, i sicrhau bod y gweithlu addysg yn gynaliadwy a sut y dylid blaenoriaethu camau o'r fath.

**11.** Gwnaethom lansio ymgynghoriad ysgrifenedig ar 18 Mawrth 2025 a daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 6 Mehefin 2025. Cafwyd 31 o ymatebion. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 2.

**12.** Cynhaliodd ein tîm Ymgysylltu â Dinasyddion nifer o grwpiau ffocws, cyfweliadau un-i-un gydag athrawon, cyn-athrawon a oedd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar ac arweinwyr ysgolion. Cynhaliwyd arolwg ar-lein hefyd. Roedd y rhai a gymerodd ran yn dod o bob cwr o Gymru ac o leoliadau cynradd, uwchradd ac ADY.[11]

**13.** Clywsom dystiolaeth lafar gan amrywiaeth o randdeiliaid ar draws 10 o baneli tystiolaeth, gan orffen gyda sesiwn gyda'r Ysgrifennydd Cabinet. Mae manylion y sesiynau hyn ar gael yn Atodiad 1.

**14.** Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith ym mha bynnag ffordd, ond yn benodol i'r athrawon, y cyn-athrawon a'r arweinwyr ysgolion hynny a roddodd o'u hamser i rannu eu profiadau a'u barn ynghylch sut y gellir mynd i'r afael â materion.

**15.** Nid yw'r atebion i'r materion y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn yn hawdd. Nid oes un ateb all ddatrys yr heriau sydd ynghlwm wrth recriwtio a chadw athrawon. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod sawl ffactor yn gysylltiedig, y mae rhai ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â phenderfyniadau unigol a wneir gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol neu ysgolion. Ond mae eraill yn llawer ehangach, yn enwedig newidiadau i gymdeithas a'r hyn y mae pobl yn ei

[11] Senedd Cymru, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Medi 2025

flaenoriaethu yn eu bywyd gwaith. Nid yw'n hawdd newid neu ddylanwadu ar yr holl ffactorau hyn.

**16.** Rydym wedi gwneud 16 o argymhellion. Mae'r agenda hon yn un hollbwysig i sicrhau'r gwelliannau i safonau ysgolion ac i ddeilliannau addysgol plant a phobl ifanc yr ydym oll eisiau eu gweld.

# 2. Rhwystrau i recriwtio

Mae pryderon sylweddol ynghylch recriwtio i hyfforddiant athrawon uwchradd ac yna i swyddi. Mae'n haws recriwtio i'r sector cynradd. Mae rhai pynciau ac addysg cyfrwng Cymraeg yn wynebu heriau penodol. Mae nifer o ffactorau sy'n effeithio ar apêl addysgu.

**17.** Mae dau brif lwybr i addysgu yng Nghymru:

- Trwy'r Partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) sy'n cael eu hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg. Gall hyn naill ai fod drwy gwrs hyfforddi athrawon israddedig, neu i'r rhai sydd eisoes â gradd berthnasol, trwy Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg ("TAR"). Cyngor y Gweithlu Addysg sy'n pennu'r dyraniadau derbyn. Mae'r dyraniadau hyn yn cael eu pennu ar gyfer pob partneriaeth fel cyfanswm ar gyfer cynradd, a'u dadansoddi yn ôl pwnc ar gyfer uwchradd. Y partneriaethau AGA yw:
    - CaBan (Prifysgol Bangor);
    - Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant);
    - Caerdydd (Prifysgol Metropolitan Caerdydd);
    - Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe;
    - Partneriaeth AGA Prifysgol De Cymru.
- Trwy'r Brifysgol Agored yng Nghymru, sydd naill ai'n cynnig TAR rhan-amser neu TAR cyflogedig. Mae'r ddau gwrs yn cymryd dwy flynedd, ond mae'r TAR cyflogedig yn llwybr yn seiliedig ar gyflogaeth. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r dyraniadau derbyn.

**18.** Ar ôl iddynt gwblhau AGA yn llwyddiannus trwy'r naill lwybr neu'r llall, bydd myfyrwyr yn ennill Statws Athro Cymwysedig ("SAC") ac yn dod yn Athrawon

Newydd Gymhwyso ("ANG"), y mae'n rhaid iddynt gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg os ydynt am weithio mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru.

**19.** Clywsom gan amrywiaeth o randdeiliaid nad yw problemau recriwtio yn unigryw i Gymru, gyda rhannau eraill o'r DU a'r byd yn wynebu heriau.[12] Tynnodd Cyngor y Gweithlu Addysg sylw at adroddiad diweddar gan UNESCO a nododd y byddai angen 40 miliwn o athrawon cynradd ac uwchradd ychwanegol ledled y byd erbyn 2030 i fodloni'r galw.[13] Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y materion hyn yn rhan o sgyrsiau diweddar yn yr Atlantic Rim Collaboration.[14]

**20.** Tynnodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd sylw at y ffaith bod penderfyniad "Llywodraeth Lafur newydd y DU, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2024" i wneud "recriwtio athrawon uwchradd ychwanegol [yn] un o'i phum cenhadaeth ddiffiniol" yn adlewyrchu difrifoldeb y sefyllfa yn Lloegr.[15]

**21.** Er bod yna heriau ledled y byd, mae'r sefyllfa'n eithaf gwahanol mewn gwirionedd yng Nghymru. Fel y dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wrthym yn ystod y gwaith o graffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)[16], rhagwelir y bydd cyfanswm nifer y disgyblion yn gostwng yn y blynyddoedd i ddod[17] oherwydd cyfraddau geni is[18]. Fodd bynnag, bydd yn cymryd peth amser cyn i hyn gael effaith sylweddol ar y niferoedd mewn ysgolion uwchradd. Mae yna brinder penodol mewn pynciau penodol ac mewn sectorau penodol hefyd, heb sôn am ffactorau rhanbarthol a demograffig eraill.

**22.** Clywsom fod rhai ffactorau sy'n benodol i Gymru gan gynnwys:

- Yr angen am weithlu dwyieithog[19];
- Bwrsariaethau llai hael nag yn Lloegr[20];

---

[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 28, Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg

[14] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 3.1

[16] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 46

[17] Llywodraeth Cymru (StatsCymru), Amcanestyniadau disgyblion

[18] Llywodraeth Cymru (StatsCymru), Cofnodion cynenedigol, genedigaethau byw a genedigaethau marw yn ôl bwrdd iechyd sy'n darparu'r gwasanaeth

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 6; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 177 (y Gymdeithas Fioleg Frenhinol); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 286 (y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd); Y

- Diffyg cystadleuaeth rhwng byrddau arholi yng Nghymru[21];
- Yn Lloegr, mae cadwyni academi yn gallu cynnig "cyflogau ar unwaith" ar gyfer pynciau lle mae prinder[22].

**23.** Tynnodd y penaethiaid y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu sylw hefyd at bryderon am ddarpar athrawon yn symud o Gymru i Loegr:

> *"Mae gennym ni gymydog mawr iawn, sydd wedi'i ariannu'n dda ar garreg ein drws sy'n cymryd llawer o'n staff gorau. Mae'r bobl hynny'n mynd i ffwrdd i hyfforddi mewn prifysgolion da, ac mae ganddyn nhw systemau effeithlon iawn i geisio dal y staff hynny, yna eu cadw – gan gynnwys staff sy'n siarad Cymraeg. Yna rydych chi wedi eu colli nhw yn y bôn a dydyn nhw byth yn mynd i ddod yn ôl i Gymru."*[23]

**24.** Ar y llaw arall, clywsom fod canfyddiadau cadarnhaol ynghylch y system yng Nghymru yn gwneud i rai myfyrwyr ddewis AGA yng Nghymru.[24] Roedd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn teimlo bod hyn yn gyfle i edrych ymhellach a hysbysebu manteision y system addysg yng Nghymru i ddenu pobl i hyfforddi i addysgu yng Nghymru.[25] Roedd Prifysgol De Cymru hefyd o'r farn bod cyfle i hyrwyddo Cymru fel llwybr gwell i athrawon.[26]

## Derbyniadau AGA

**25.** Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod cyfanswm o 2,040 o unigolion wedi cofrestru ar gyfer AGA gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn 2023/24. O'r rhain, roedd 895 yn hyfforddi i addysgu mewn lleoliad cynradd. Roedd hyn 18 y cant yn uwch na'r dyraniadau.

---

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 255 (Coleg Cymraeg Cenedlaethol)
[21] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol;
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 414
[23] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 22, Medi 2025
[24] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 28 Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
[25] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 89
[26] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 155

Roedd 505 yn hyfforddi i addysgu mewn lleoliad uwchradd, ac roedd hyn 56 y cant yn is na'r dyraniadau.[27]

**26.** Roedd 6 y cant o newydd-ddyfodiaid AGA, a oedd â chyfeiriad parhaol yn y DU ac yr oedd eu hethnigrwydd yn hysbys, yn dod o Grŵp Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol. Mae hyn yn gynnydd o 3 y cant yn 2022/23.[28]

**27.** O ran deilliannau, mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos, yn 2024/25, fod 80 y cant o fyfyrwyr wedi pasio eu hyfforddiant, 11 y cant wedi gohirio, 1.7 y cant wedi methu a 7.3 y cant wedi tynnu'n ôl. Llwyddodd 576 o fyfyrwyr i basio eu hyfforddiant cynradd a llwyddodd 332 i basio eu hyfforddiant uwchradd.[29]

**28.** Yn 2024/25, y deilliannau o lwybrau'r Brifysgol Agored oedd: 75.8 y cant wedi pasio, 1.9 y cant wedi gohirio, 5.6 y cant wedi methu, a 16.8 y cant wedi tynnu'n ôl. Llwyddodd 79 o fyfyrwyr i basio eu hyfforddiant cynradd, a llwyddodd 43 i basio eu hyfforddiant uwchradd.[30]

**29.** Mewn gohebiaeth ar ôl i ni orffen casglu tystiolaeth, nododd Llywodraeth Cymru "y nifer o athrawon a ddymunir yn genedlaethol" ar gyfer rhaglenni AGA llawn amser, sef 563 o athrawon cynradd newydd a 1,009 o athrawon uwchradd newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.[31]

## Ffactorau sy'n effeithio ar apêl AGA ac addysgu fel proffesiwn

**30.** Gwnaethom archwilio'r materion amlochrog sy'n effeithio ar apêl addysgu fel proffesiwn ac AGA ei hun.

| Ffactor | Tynnwyd sylw ato gan: |
|---|---|
| **Llwyth gwaith uchel** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[32] |

[27] Llywodraeth Cymru, Addysg gychwynnol i athrawon: Awst 2022 i Orffennaf 2024 (canlyniadau pennawd), 8 Gorffennaf 2025
[28] Llywodraeth Cymru, Addysg gychwynnol i athrawon: Awst 2022 i Orffennaf 2024 (canlyniadau pennawd), 8 Gorffennaf 2025
[29] Cyngor y Gweithlu Addysg, canlyniadau myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) 2024-25 tabl 1.1
[30] Cyngor y Gweithlu Addysg, canlyniadau myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) 2024-25, Y Brifysgol Agored rhan amser neu lwybr â chyflog, tabl 1.1
[31] Llythyr gan Bennaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Llywodraeth Cymru at Brif Weithredwr Cyngor y Gweithlu Addysg, Dyfarniadau ar lefel genedlaethol o ran niferoedd myfyrwyr ar gyfer rhaglenni addysg gychwynnol athrawon sy'n dyfarnu statws athro cymwysedig: blwyddyn academaidd 2026/27, 20 Tachwedd 2025
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

| Ffactor | Tynnwyd sylw ato gan: |
|---|---|
| | Prifysgol Metropolitan Caerdydd[33]<br>Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig[34]<br>Coleg Cymraeg Cenedlaethol[35]<br>Yr Undeb Addysg Cenedlaethol[36]<br>Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru[37] |
| **Diffyg gweithio hyblyg** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[38]<br>Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant[39]<br>Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig[40]<br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd[41]<br>Coleg Cymraeg Cenedlaethol[42]<br>Estyn[43]<br>Y Sefydliad Ffiseg[44]<br>Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau[45]<br>Yr Undeb Addysg Cenedlaethol[46]<br>Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd[47]<br>Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[48]<br>Athrawon y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein gweithgarwch ymgysylltu[49] |

[33] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 3.14
[34] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[36] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 270
[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 28, Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 3.11
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[45] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 239
[46] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 272
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 27, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
[48] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 11
[49] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 38, Medi 2025

| Ffactor | Tynnwyd sylw ato gan: |
|---|---|
| | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru[50]<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[51] |
| **Canfyddiad negyddol o addysgu** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[52]<br>Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant[53]<br>Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig[54]<br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd[55]<br>Cyngor y Gweithlu Addysg[56]<br>Estyn[57]<br>Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol[58]<br>Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd[59]<br>Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[60]<br>Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru[61]<br>Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon[62]<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[63] |
| **Ymddygiad disgyblion yn gwaethygu** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[64]<br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd[65] |

[50] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[51] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 28, Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
[54] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[55] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 3.8
[56] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 56
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[58] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 165
[59] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 27, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
[60] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[61] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 243
[62] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[63] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[65] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 3.8

| Ffactor | Tynnwyd sylw ato gan: |
| --- | --- |
| | Estyn[66]<br>Y Sefydliad Ffiseg[67]<br>Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg[68]<br>Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd[69]<br>Athrawon y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein gweithgarwch ymgysylltu[70]<br>Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru[71]<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[72] |
| **Llai o gefnogaeth gan rieni a chymdeithas ac agweddau yn dirywio** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[73]<br>Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru[74] |
| **Cyflog anghystadleuol yn enwedig ar gyfer pynciau lle mae prinder** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[75]<br>Y Sefydliad Ffiseg[76]<br>Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru[77]<br>Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol[78]<br>Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru[79]<br>Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon[80] |
| **Marchnad swyddi gystadleuol i** | Prifysgol Metropolitan Caerdydd[81]<br>Y Sefydliad Polisi Addysg[82] |

[66] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[67] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[68] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 134
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 27, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
[70] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraffau 66-67, Medi 2025
[71] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[72] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[78] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 5
[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[81] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 312
[82] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 145

| Ffactor | Tynnwyd sylw ato gan: |
|---|---|
| **raddedigion mewn rhai sectorau** | Estyn[83]<br>Y Sefydliad Ffiseg[84]<br>Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru[85]<br>Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau[86]<br>Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg[87]<br>Athrawon y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein gweithgarwch ymgysylltu[88]<br>Y Brifysgol Agored yng Nghymru[89]<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[90] |
| **Llai o fyfyrwyr yn dilyn cyrsiau TGAU / Safon Uwch / israddedig perthnasol** | Y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd[91]<br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd[92]<br>Coleg Cymraeg Cenedlaethol[93]<br>Y Sefydliad Ffiseg[94]<br>Y Brifysgol Agored yng Nghymru[95]<br>Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol[96]<br>Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[97]<br>Athrawon y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein gweithgarwch ymgysylltu[98]<br>Comisiynydd y Gymraeg[99] |

[83] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[85] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 26 Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru
[86] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 237
[87] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 133
[88] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 44, Medi 2025
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[91] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 288
[92] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 3.14
[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[95] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[96] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 5
[97] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[98] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraffau 49-50, Medi 2025
[99] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 15 Comisiynydd y Gymraeg

**31.** Clywsom am y gwahanol ffyrdd y mae gyrfaoedd addysgu yn cael eu hyrwyddo. Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod y gwaith hwnnw'n cael ei wneud ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, partneriaethau AGA, awdurdodau lleol, y Cyngor ei hun, ac asiantaethau cyflenwi. Datblygodd Cyngor y Gweithlu Addysg frand "Addysgwyr Cymru", a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r wefan yn cynnwys porth swyddi cenedlaethol. Maent hefyd yn gwneud gwaith hyrwyddo ac eirioli. Yn 2024/25, llwyddodd Addysgwyr Cymru i ymgysylltu â miloedd o bobl mewn dros 230 o ddigwyddiadau.[100]

**32.** Clywsom am sut y gellid gwella gweithgarwch hyrwyddo. Rhannodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe gymhellion eu myfyrwyr, yr oeddent o'r farn y gallent fod yn ffocws ar gyfer ymgyrchoedd cenedlaethol penodol. Yn eu plith roedd ymdeimlad o fod yn rhan o yrfa werth chweil, rhywbeth sy'n fwy na chi eich hun, ymgysylltiad â'u disgyblaethau a chyfleoedd gwaith. Gwnaethant hefyd awgrymu y gallai rhai o'r mythau ynghylch addysgu fod yn ffocws ymgyrch chwalu mythau.[101]

**33.** Galwodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd am ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo addysgu fel "proffesiwn statws uchel gyda phroffil gyrfa deniadol". Dylai hyrwyddo addysgu "yn realistig fel proffesiwn heriol ond un sy'n gallu rhoi boddhad personol … [a] boddhad … ariannol". Gwnaethant nodi enghreifftiau rhyngwladol llwyddiannus gan gynnwys o'r Ffindir a Gwlad yr Iâ.[102] Dylai ymgyrch o'r fath gael ei "harwain gan Lywodraeth Cymru (gwleidyddion a swyddogion) a chynnwys awdurdodau lleol, Estyn, y Cyngor Gweithlu Addysg, prifysgolion, y cymdeithasau addysgu, penaethiaid a'u hysgolion"[103].

**34.** Gwnaeth Cyngor y Gweithlu Addysg, serch hynny, annog pwyll o ran y galwadau am ymgyrch hyrwyddo grand, ddisglair, ardderchog, gan nodi os nad yw'r hyn rydych chi'n ceisio ei hyrwyddo yn dda, fydd e' ddim yn gweithio.[104]

**35.** Gwnaeth Prifysgol Metropolitan Caerdydd awgrymu y dylai ysgolion chwarae rôl fwy gweithredol wrth hyrwyddo addysgu fel dewis gyrfa. Fel rhan o hyn, dylent roi cyfleoedd i'r rhai sydd â diddordeb mewn addysgu "gael mewnwelediadau a

[100] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[101] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[102] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraffau 8.1-8.3
[103] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 8.6
[104] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 53

phrofiadau realistig ac ymarferol” o addysgu. Gwnaethant hefyd alw ar i ysgolion gael eu “cymell” i wneud hyn.[105]

**36.** Galwodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ar Lywodraeth Cymru i “ddatblygu strategaethau arloesol” i fynd i’r afael â’r prinder o ran y niferoedd sy’n cael eu recriwtio.[106]

**37.** Dywedodd Estyn wrthym fod ffyrdd o fynd i’r afael â heriau recriwtio wedi bod yn rhy gul ac wedi canolbwyntio’n bennaf ar ddod o hyd i fwy o recriwtiaid, yn hytrach nag ar werthusiad mwy cynhwysfawr o’r system gyfan. Gwnaethant ddweud bod angen i strategaethau recriwtio a chadw fod yn gyfrannol ac y dylent gael eu rhoi ar waith ar draws y system, gan sicrhau bod yr ymgeiswyr gorau yn ymuno â’r proffesiwn ac yna’n aros.[107]

**38.** Rhannodd Llywodraeth Cymru y dulliau a ddefnyddir i hyrwyddo addysgu. Mae Addysgu Cymru, sef y prif ymgyrch hyrwyddo, yn cynnwys athrawon go iawn yng Nghymru. Mae’r ymgyrch yn cynnwys cyfnodau o weithgarwch drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys dros yr haf, ac yna ym mis Hydref, ac yn y Flwyddyn Newydd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026.

**39.** Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith nad ydynt yn hysbysebu ar y cyfryngau torfol, gan “nad dyma’r ffordd fwyaf effeithiol o gysylltu â’n cynulleidfaoedd targed”. Yn hytrach, maent yn defnyddio “sianeli digidol wedi’u targedu”. Mae’r dulliau hyn yn “darparu gwell ymgysylltiad a gwerth” wrth geisio cyrraedd cynulleidfaoedd sydd “yn bennaf o dan 40 oed”. Mae’r dulliau a ddefnyddir yn cynnwys “cyfryngau cymdeithasol wedi’u targedu (Facebook, TikTok, LinkedIn, X), hysbysebu ar-lein, radio, teledu dal i fyny, cysylltiadau cyhoeddus, hysbysebu awyr agored, cylchlythyron UCAS a phresenoldeb mewn digwyddiadau allweddol”.[108] Gweler paragraff 195 am ragor o wybodaeth am ymgyrchoedd Cymraeg.

**40.** Dywedodd Llywodraeth Cymru eu bod yn “gweithio’n agos” gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i sicrhau bod yr ymgyrch genedlaethol yn integreiddio â gwasanaeth eiriolaeth y Cyngor. Ym mis Ionawr 2024, roedd “dros 27,000 o unigolion” wedi ymgysylltu â’r gwasanaeth eiriolaeth hwn, sy’n cynnig amrywiaeth o gymorth.

[105] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.19
[106] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[107] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[108] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru

> *"Mae'r gwasanaeth eiriolaeth yn cynnig un pwynt gwybodaeth i unigolion ar bob agwedd ar addysgu fel gyrfa yn ogystal â gwasanaeth recriwtio a gwybodaeth am ddim i unigolion sy'n chwilio am gyfleoedd dilyniant fel addysgwyr. Mae hyn yn cynnwys cymorth cynhwysfawr gan gynnwys ysgrifennu cais a CV, a gweithdai sgiliau cyfweliad. Yn ogystal â gweithio'n agos gydag Addysgu Cymru, mae'r gwasanaeth yn chwilio am gyfleoedd a gweithio mewn partneriaeth, megis cefnogi Partneriaethau AGA gyda syniadau arloesol i weithredu gweithgarwch yn eu strategaethau a'u cynlluniau recriwtio eu hunain, megis hyrwyddo AGA ar y campws."*[109]

**41.** Ochr yn ochr â'r gwaith hwn a reolir yn ganolog, dywedodd Llywodraeth Cymru fod yn rhaid i bartneriaethau AGA, fel rhan o'u canllawiau achredu, feddu ar strategaethau recriwtio. Er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian, negeseuon cyson a synergedd, mae yna gydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg a phartneriaethau AGA.[110]

**42.** Clywsom hefyd am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys recriwtio "llysgenhadon Addysgu Yfory Heddiw". Bydd yr "athrawon ysbrydoledig…eu straeon, eu hwynebau a'u [h]eiriolaeth wrth wraidd ein hymgyrch wrth adrodd straeon ar draws sawl pwynt cyffwrdd". Gwnaeth hefyd dderbyn bod gan ysgolion rôl i'w chwarae, a'u bod wrthi'n datblygu "cynnwys i ysgolion ei rannu gyda'u cyn-fyfyrwyr". Maent hefyd yn archwilio gweithio'n agosach gydag awdurdodau lleol i "helpu gyda thueddiadau'r farchnad lafur leol, eu cynnwys yn ein gwaith ymgyrchu a theilwra ein gweithgarwch ymgyrchu i weithio ar sail leol"[111].

**43.** Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet ag eraill, gan nodi mai athrawon yw'r eiriolwyr mwyaf dros ddod yn athro.[112]

**44.** Wrth dynnu sylw at y ffactorau sy'n effeithio ar apêl addysgu, roedd pawb yn cydnabod bod nifer o ffactorau yn berthnasol. Bydd pwysoliad ffactorau penodol hefyd yn dibynnu ar gyd-destun penodol pob darpar athro newydd, lle mae'n byw, a pha bwnc y mae eisiau ei addysgu. Er i rai sefydliadau dynnu sylw at

---

[109] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[110] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[111] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[112] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 77

ffactorau penodol fel llwyth gwaith fel rhai amlwg iawn, ni ddaeth yr un ffactor i'r amlwg fel y prif achos.

**45.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai cyfuniad o ffactorau sy'n effeithio ar y penderfyniad i fynd i'r maes addysgu. Cydnabu lawer o'r materion y tynnodd rhanddeiliaid sylw atynt (fel y nodir uchod).[113] Derbyniodd fod y canfyddiad o addysgu yn ffactor allweddol wrth recriwtio a chadw.[114]

**46.** Clywsom hefyd am rai ffactorau posibl yn ymwneud ag apêl AGA ei hun, yn hytrach na'r proffesiwn addysgu ehangach.

**47.** Gall dwyster y cwrs TAR blwyddyn o hyd fod yn broblem. Gall y cyfuniad o raglen lawn, lle mae llawer o sgiliau gwahanol i'w datblygu, ynghyd ag amser cyfyngedig, olygu ei fod yn heriol. Cafodd hyn ei godi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[115], Prifysgol Metropolitan Caerdydd[116] a'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol[117].

**48.** Gall y canfyddiad o ddwyster cwrs TAR fod yn ddigon ynddo'i hun i atal pobl rhag gwneud cais, fel y nododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[118], y Gymdeithas Gemeg Frenhinol[119] a Phartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[120].

**49.** Teimlai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei bod hi'n amserol "edrych ar gynnwys, pwyslais a strwythur y cwrs TAR, a sicrhau ei fod yn gosod sylfaen gadarn sy'n cynnwys y prif feysydd blaenoriaeth". Yn lle "gorlwytho'r" flwyddyn TAR, gwnaethant awgrymu y dylid pennu gofynion datblygiad pellach yn ystod blynyddoedd cynnar gyrfa. Fodd bynnag, byddai angen digon o amser a chefnogaeth i ymgymryd â'r datblygiad proffesiynol hwn.[121]

**50.** Galwodd y Sefydliad Ffiseg am welliannau i AGA, gan gynnwys gwell cefnogaeth i fyfyrwyr, gan nodi nad yw hyn yn dechrau ac yn gorffen mewn un flwyddyn o AGA.[122]

---

[113] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 11
[114] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 73
[115] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[116] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 8.26
[117] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 17
[118] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[119] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 17
[120] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[121] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[122] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg

**51.** Tynnodd rhanddeiliaid, gan gynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd[123]; y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[124]; Estyn[125]; a'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol[126] sylw at gost AGA ôl-raddedig. Gall hyn fod yn anghymhelliad i fyfyrwyr sydd â dyledion mawr yn barod pan fyddant yn graddio[127] neu'r rhai sydd am newid gyrfaoedd.[128] Gall hefyd effeithio ar y rhai a allai fod yn ansicr ynghylch a ydynt am addysgu, neu'r rhai na allant fod yn sicr y byddant yn dod o hyd i waith ar ôl cymhwyso.[129] Mae dwyster y cwrs hefyd yn ei gwneud hi'n anodd i fyfyrwyr gael gwaith rhan-amser er mwyn helpu gyda chostau. Mae'r cyfuniad hwn o gostau a diffyg incwm yn golygu ei fod yn "opsiwn afrealistig i rai carfannau o ymgeiswyr posib"[130].

**52.** Galwodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am system ariannu amgen a fyddai'n gwneud cyrsiau TAR yn "opsiwn mwy atyniadol a realistig"[131]. Ymhlith y rhai eraill a oedd yn cefnogi gwahanol ddulliau o ymdrin â chostau AGA roedd:

- Prifysgol Metropolitan Caerdydd[132];
- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig[133];
- Estyn[134];
- Y Sefydliad Ffiseg[135];
- Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[136].

**53.** Roedd y syniadau a awgrymwyd yn cynnwys talu costau TAR mewn rhyw ffordd[137] neu leihau dyled myfyrwyr[138], er i Estyn nodi y gallai fod goblygiadau ariannol sylweddol pe bai ffioedd yn cael eu hepgor.[139] Dywedodd Prifysgol

[123] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 8.7
[124] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[125] Tystiolaeth ysgrifenedig TRR 24 Estyn
[126] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 6
[127] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[128] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 6
[129] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 39, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 8.7
[130] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[131] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[132] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 8.1
[133] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[134] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[135] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[136] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[137] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[138] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[139] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn

Metropolitan Caerdydd y dylai'r cynnig cyllid gydnabod "y ddyled myfyrwyr y byddant eisoes wedi'i hysgwyddo a'r gwerth posibl y gallant ei ddarparu drwy wasanaeth cyhoeddus fel athro"[140].

**54.** Galwodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ddadansoddiad cost a budd i ystyried a fyddai dileu neu leihau ffioedd cyrsiau AGA yn gynaliadwy ac yn gwella recriwtio. Gallai'r dadansoddiad hwn ymchwilio i weld a ddylai cyllid o'r fath gael ei dargedu at feysydd blaenoriaeth penodol. Dylai dadansoddiad o'r fath hefyd edrych ar y modelau a ddefnyddir ym maes gofal iechyd lle mae'r cymorth a roddir o ran ffioedd yn cynnwys amodau ynghylch gweithio yng Nghymru am gyfnod.[141] Galwodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd hefyd ar i ddadansoddiad tebyg gael ei wneud a fyddai'n arwain at "opsiynau ac argymhellion modelu ariannol".[142]

**55.** Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru fod eu myfyrwyr yn dweud wrthynt na allent fod wedi cwblhau cwrs TAR traddodiadol, oherwydd na fyddent wedi gallu talu'r costau ariannol.[143]

**56.** Tynnodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig sylw at y ffaith bod diffyg darpariaeth AGA benodol ar gyfer Catholigion yn broblem sylweddol. Gwnaethant ddweud ei fod yn golygu bod yn rhaid i'r rhai sy'n dymuno astudio mewn prifysgol Gatholig astudio yn Lloegr gyda nifer sylweddol wedyn yn cael eu cyflogi mewn ysgolion yn Lloegr. I'r rhai sydd yn ymgymryd ag AGA yng Nghymru, nid ydynt yn cael eu paru ag ysgolion Catholig bob amser. Gwnaethant ddweud y dylai fod opsiwn mewn darpariaeth AGA i gael rhywfaint, os nad y cyfan, o'u profiad ymarferol mewn ysgol Gatholig. Mae'r ffaith nad yw'r opsiwn hwn ar gael iddynt yn golygu nad yw myfyrwyr Catholig yn cael yr wybodaeth a'r profiad o addysgu Addysg Grefyddol ac mae'r athrawon newydd gymhwyso yn cael eu colli i'r system yn y man cychwyn.[144]

**57.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn deall nad problemau'n ymwneud â'r cyrsiau AGA eu hunain ydynt ond rhai sy'n ymwneud â'r canfyddiad ehangach o ba mor ddeniadol yw addysgu mewn ysgol uwchradd.[145]

---

[140] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 8.1
[141] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[142] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 8.11
[143] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 14
[144] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[145] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

## Penderfynu ar nifer y lleoedd AGA a sut y cânt eu dyrannu

**58.** Mae yna gysylltiad agos rhwng apêl AGA a lleoliad daearyddol y ddarpariaeth AGA. Mae hyn yn cysylltu â'r system o ddyrannu AGA, ac argaeledd data i gefnogi lleoli darpariaeth AGA.

**59.** Llywodraeth Cymru sy'n gosod y meini prawf achredu ar gyfer cyrsiau AGA. Yna caiff cyrsiau AGA unigol eu hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg os ydynt yn bodloni'r meini prawf. Yna caniateir i gyrsiau redeg am gyfnod penodol fel yr amlinellir yn yr achrediad.

**60.** Llywodraeth Cymru sy'n gosod y targed cyffredinol ar gyfer derbyn athrawon yng Nghymru. Mae'n dweud wrth Gyngor y Gweithlu Addysg faint o athrawon a ddymunir ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd, yn seiliedig ar y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon ("y TPSM"). Mae'r TPSM yn amcangyfrif nifer yr athrawon y mae angen eu hyfforddi i ddiwallu galw yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, mae'r model yn ystyried data hanesyddol ac amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys demograffeg dysgwyr ac athrawon ochr yn ochr â chymarebau disgybl athro.

**61.** Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn darparu dyraniadau i bob partneriaeth AGA, gan ddefnyddio'r derbyniadau cenedlaethol cyffredinol a ddymunir ar gyfer rhaglenni AGA cynradd ac uwchradd. Fel y nodwyd ym mharagraff 21, rhagwelir y bydd nifer cyffredinol y disgyblion yn gostwng yn y blynyddoedd sydd i ddod er bod angen gwneud mwy o recriwtio a gwella cyfraddau cadw o hyd, yn enwedig mewn rhai pynciau. Er enghraifft, fel y nodir ym mharagraffau 206-228, mae yna nifer o bynciau â blaenoriaeth yn y sector uwchradd nad ydynt wedi cyrraedd eu targedau ers blynyddoedd.

**62.** Awgrymodd rhai y gall y meini prawf achredu gyfyngu ar ddarparwyr AGA a'u hatal rhag gallu ymateb i anghenion.[146] Er enghraifft, dywedodd Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon y gall y gofynion staffio presennol o ran cymarebau athro myfyriwr, a gofynion cymhwyso ar gyfer staff lesteirio'r disgresiwn sydd gan ddarparwyr a rhwystro'r posibilrwydd y gallai rhaglenni gael eu hehangu neu y gallai rhaglenni newydd gael eu datblygu.[147]

[146] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[147] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon

**63.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod y meini prawf presennol yn golygu bod "llawer o'r ysgolion mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol yng Nghymru … wedi'u heithrio o bartneriaethau AGA"[148].

**64.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y model achredu yn galluogi ysgolion a sefydliadau addysg uwch i chwarae "r[h]an gyfartal" wrth sicrhau cydbwysedd rhwng theori a hyfforddiant ymarferol. Mae ysgolion yn chwarae rôl wrth ddatblygu a sicrhau ansawdd AGA. Gwnaethant ddweud bod adroddiad *Flying Start* y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi "[t]ynnu sylw at ein dull o gydnabod ysgolion fel partner pwysig wrth ddylunio a chyflwyno rhaglenni addysg gychwynnol athrawon a chreu a defnyddio ymchwil fel cryfder"[149].

**65.** Clywsom fod natur y model achredu yn ffactor o ran mannau lle mae diffyg AGA ledled Cymru. Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod y model achredu presennol, "a arweinir i bob pwrpas gan brifysgolion", yn arwain at batrwm o gyrsiau ledled Cymru "a all fod yn fympwyol, yn anstrategol ac yn aneffeithlon o safbwynt cyllid a recriwtio". O ganlyniad, nid oes unrhyw gyrsiau TAR (ar wahân i gyrsiau'r Brifysgol Agored) yn cael eu cynnig "yn yr ardal ddaearyddol anferth rhwng Bangor … yn y gogledd ac Abertawe … yn y de".[150] Maent o'r farn y gallai hyn effeithio'n arbennig ar y rhai nad ydynt mewn sefyllfa i astudio i ffwrdd o gartref, fel y rhai sy'n newid gyrfa neu'r rhai o gefndiroedd difreintiedig.[151]

**66.** Cytunodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fod angen bod yn fwy strategol,[152] Coleg Cymraeg Cenedlaethol "mae gyda ni 12 pwnc y cyrsiau TAR yn cael eu dysgu o fewn yr un ddinas gan ddwy brifysgol ar wahân. Felly, rydyn ni'n dyblygu cyrsiau heb eisiau"[153].

**67.** Galwodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar i'r ddarpariaeth gael ei chomisiynu ar ôl i anghenion y gweithlu gael eu nodi. Gallai hyn greu "gwell ffit … rhwng anghenion y gweithlu a'r ddarpariaeth sy'n dod ag athrawon mewn i'r proffesiwn"[154]. Gwnaethant awgrymu y gallai symud tuag at system gomisiynu fel

[148] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.19
[149] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[150] Rhoddodd Prifysgol Aberystwyth y gorau i'w darpariaeth TAR o 2024/25 ymlaen ar ôl iddi golli ei hachrediad gan Gyngor y Gweithlu Addysg. Roedd adroddiad Estyn yn 2023 wedi nodi diffygion yn narpariaeth y brifysgol.
[151] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[152] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 188
[153] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 243
[154] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 179

sy'n bodoli, yn y sector iechyd, "rhoi … mwy o sefydlogrwydd hefyd i'r prifysgolion".[155]

**68.** Gwnaeth Cyngor y Gweithlu Addysg gymharu'r model economi agored presennol â'r model blaenorol gyda thair partneriaeth ranbarthol a phrifysgolion yn cydweithio. Roeddent o'r farn bod y dull presennol yn fwy cadarn. Fodd bynnag, mae angen sicrhau nad oes unrhyw fannau lle mae diffyg darpariaeth o ran meysydd pwnc.[156] Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru:

> *"… given the strategic importance to our nation of the role of teacher recruitment, it would seem precarious to leave it to the vagaries of the market, in that sense. That's one point where I don't think the market model works particularly well for us."*[157]

**69.** Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, mae diffyg darpariaeth AGA yng Nghanolbarth Cymru yn "bryder".[158] Hefyd, mae'r ffaith bod y ddarpariaeth AGA yn Aberystwyth wedi dod i ben yn golygu bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn wynebu heriau ychwanegol.[159] Tynnodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sylw hefyd at ddiffyg darpariaeth yng nghanolbarth Cymru[160] a nododd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru fod y ffaith bod y ddarpariaeth wedi dod i ben wedi effeithio ar nifer y bobl sy'n dewis gwneud AGA.[161]

**70.** Roedd rhai, fel Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru,[162] yn galw am ddarpariaeth AGA ym mhob prifysgol yng Nghymru. Dywedodd Prifysgol De Cymru y dylai fod ym mhobman am fod llawer iawn o fyfyrwyr yn byw gartref.[163]

**71.** Tynnodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol sylw at bryderon am ddod â chyrsiau israddedig i ben mewn rhai prifysgolion yng Nghymru. Gwnaethant ddweud y gallai'r diffyg darpariaeth sy'n deillio o hynny, lle mai dim ond yng Nghaerdydd ac Abertawe y mae cemeg ar gael, olygu y bydd llai o athrawon cemeg dan hyfforddiant yng Ngogledd Cymru. Gwnaethant gyfeirio at ymchwil o Loegr a oedd yn dangos bod myfyrwyr sy'n byw gartref yn ystod eu hastudiaethau

---

[155] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 185
[156] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 61-62
[157] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 78
[158] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[159] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 168
[160] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 176
[161] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[162] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[163] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 87

israddedig yn fwy tebygol o ddod yn athrawon o gymharu â'r rhai sy'n astudio i ffwrdd o gartref. Maent hefyd yn llai tebygol o adael y proffesiwn addysgu o fewn y pedair blynedd cyntaf. Nodwyd nad oedd gan Brifysgol Bangor unrhyw raddedigion cemeg ar eu rhaglen TAR eleni, ac awgrymwyd y gallai hyn fod o ganlyniad i'r ffaith bod y cyrsiau cemeg israddedig wedi dod i ben.[164] Cododd y Sefydliad Ffiseg bryderon mai dim ond tair adran ffiseg sydd mewn prifysgolion yng Nghymru.[165]

**72.** Rhannodd Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon bryderon am dorri'r llinell gyflenwi rhwng rhaglenni israddedig a chyrsiau TAR yn yr un sefydliad a sut y gallai hyn effeithio ar recriwtio yn y dyfodol.[166] Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru y gallai fod cysylltiad rhwng prinder athrawon technoleg a mathemateg yng Ngogledd Cymru a gostyngiad yn nifer y cyrsiau sy'n cael eu cynnig ym Mhrifysgol Bangor.[167]

**73.** Clywsom fod y system bresennol ar gyfer dyrannu lleoedd yn anaddas. Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe fod nifer y dyraniadau, yn enwedig ar gyfer rhaglenni llai, yn golygu ei bod hi'n anodd cynllunio'n strategol ar gyfer y tymor hwy. Nodwyd y dylai dyraniadau gael eu rhesymoli i ganiatáu ar gyfer twf darpariaeth lwyddiannus,[168] er i Bartneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ddweud nad y broses ddyrannu sy'n achosi problemau, ond y systemau recriwtio sy'n sail i fynediad i AGA ôl-raddedig.[169] (Gweler paragraffau 82-86.)

**74.** Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei bod hi'n bwysig cynllunio "ar gyfer anghenion y system" ac, os nodir bod angen mwy o athrawon ffiseg sy'n siarad Cymraeg mewn ardal benodol, "wel, dewch i ni wneud yn siŵr bod gyda ni gyrsiau sydd yn cynnig yr hyfforddiant yna i niferoedd digonol o bobl, ac yn recriwtio yn benodol ac yn briodol i'r cyrsiau hynny"[170]. Gwnaethant alw TPSM yn "amrwd", gan nodi bod angen "dull llawer [m]wy [m]anwl a strategol". Ar hyn o bryd, nid yw'r TPSM yn ystyried "gwahaniaethau lleol a rhanbarthol, anghenion mewn perthynas â phynciau penodol, nac ychwaith anghenion ieithyddol mewn

[164] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraffau 10-12
[165] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 168
[166] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[167] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[168] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[169] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 66
[170] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 238

perthynas â'r gallu i addysgu yn Gymraeg". Cyfeiriwyd at argymhelliad 49 y Comisiwn ar gyfer Cymunedau Cymraeg eu Hiaith a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i "gynllunio i gwrdd ag anghenion y gweithlu addysg" mewn ardaloedd lle mae dwysedd uwch o ran y Gymraeg. Gwnaethant ddweud ei bod yn bryderus na fyddai'r system bresennol yn gallu cyflawni'r argymhelliad hwn. Gwnaethant alw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Uned Strategol i gefnogi cynllunio gweithluoedd dwyieithog.[171]

**75.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y model presennol lle mae dyraniadau'n seiliedig ar y TPSM yn comisiynu lleoedd yn seiliedig ar dystiolaeth a data i bob pwrpas.[172]

**76.** Un thema gyffredin sydd wedi'i gweld drwy'r holl waith rydym wedi'i wneud yn y Senedd hon yw diffyg data amserol i helpu i lywio'r gwaith o lunio polisïau neu gynnal gwerthusiadau. Nid yw'r ymchwiliad hwn wedi bod yn wahanol.

**77.** Roedd y bylchau data a nodwyd yn cynnwys:

| Bwlch data: | Codwyd gan: |
|---|---|
| **Data lefel cymhwysiad** | Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol[173] |
| **Effeithiolrwydd bwrsariaethau / effaith hirdymor** | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru[174] |
| **Athrawon gwyddoniaeth yn camu ymlaen i fod yn arweinwyr** | Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol[175] |
| **Manylion cyfyngedig o ran hyfforddiant gwyddoniaeth lefel gynradd** | Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol[176] |
| **Cyfran y rhai sy'n dechrau addysgu yng nghanol eu gyrfa** | Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol[177] |
| **Rhesymau pam mae athrawon yn gadael y proffesiwn** | Estyn[178] |

[171] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[172] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 23
[173] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[174] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 371
[175] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[176] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[177] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[178] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn

| Bwlch data: | Codwyd gan: |
|---|---|
| **Data cadarn ar y pwnc uwchradd y mae athro wedi hyfforddi ynddo (caiff arbenigedd ei hunanadrodd ar hyn o bryd)** | Y Sefydliad Ffiseg[179]<br>Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol[180] |
| **Data systematig ar gyrchfannau graddedigion AGA** | Y Brifysgol Agored yng Nghymru[181] |
| **Symudedd athrawon rhwng Cymru a Lloegr** | Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol[182] |
| **Olrhain cynnydd myfyrwyr TAR** | Prifysgol Metropolitan Caerdydd[183] |

**78.** Yn ogystal â data annigonol, mae yna hefyd ddiffyg data amserol. Tynnodd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg[184]; Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru[185]; a'r Gymdeithas Fioleg Frenhinol[186] sylw at hyn. Y data AGA diweddaraf yn ôl pynciau a chyfnod yw'r data ar gyfer 2021/22, nad yw'n ddata diweddar iawn fel y nododd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg.[187]

**79.** Gwnaeth y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg gymharu'r data hwn â data o Loegr. Ym mis Mehefin 2025, roeddent eisoes yn gallu gweld data ar nifer yr hyfforddeion a oedd wedi dechrau ym mis Medi 2024. Mae Adran Addysg Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data misol ar geisiadau AGA. Dywedodd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg fod diffyg data amserol yng Nghymru yn llesteirio ymchwil i dueddiadau diweddar ym maes hyfforddi athrawon.[188]

**80.** Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er bod setiau data lefel genedlaethol yn nodi prinder cenedlaethol o ran pynciau, y gall fod problemau gwahanol naill ai ar lefel awdurdod lleol neu ysgol unigol.[189] Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oes digon o wybodaeth leol dda iawn. Fel rhan o ddatblygiad Cynllun y Gweithlu, dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i gael data lleol gwell. Byddai hyn, yn ei dro, yn

[179] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[180] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[181] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[182] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[183] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.2
[184] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 147
[185] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 20 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, paragraff 3.5
[186] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[187] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 147
[188] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 147-148
[189] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru

sicrhau bod modd defnyddio dull mwy penodol o ymdrin â bylchau o ran capasiti.[190]

**81.** Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, mae'r rhaglen bartneriaeth gwella ysgolion[191] yn gyfrwng perffaith i gael y manylder sydd ei angen arnom ar gyfer Cynllun y Gweithlu.[192]

## Y broses ymgeisio

**82.** Gall mater sy'n ymddangos yn eithaf technegol hefyd greu heriau i ddarpar fyfyrwyr AGA a darparwyr cyrsiau AGA. Mae pobl sy'n dymuno gwneud cais am gyrsiau TAR mewn prifysgol yng Nghymru yn gwneud cais drwy UCAS. Cododd yr holl ddarparwyr AGA bryderon am hyn. Clywsom y gall defnyddio system sydd wedi'i chynllunio ar gyfer cyrsiau israddedig ar gyfer TAR greu rhwystrau ychwanegol.[193] Mae risg hefyd y gallai darpar fyfyrwyr AGA gael eu colli oherwydd ei bod yn anodd cael gafael ar yr wybodaeth.[194] Dywedodd Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon nad oedd yn addas at y diben.[195] Galwodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol naill ai am welliannau i'r rhyngwyneb neu system wahanol.[196]

**83.** Her benodol yw peidio â gwybod faint o gynigion sydd wedi'u derbyn tan yn hwyr yn y cylch recriwtio. Roedd Prifysgol De Cymru yn ei disgrifio fel problem fawr.[197] Gwnaeth Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gymharu UCAS â'r system flaenorol a ddefnyddiwyd yn benodol ar gyfer TAR lle'r oedd ymgeiswyr yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau'n gyflymach, gan alluogi sefydliadau i reoli eu derbyniadau yn fwy effeithiol.[198] Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe y gall system UCAS gael effaith negyddol ar gynllunio ariannol a recriwtio.[199] Gwnaethant alw

---

[190] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 23
[191] Mae'r Rhaglen Partneriaeth Gwella Ysgolion yn cyfeirio at y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gydag awdurdodau lleol i ddylunio a gweithredu trefniadau gwella ysgolion newydd i ddisodli'r consortia rhanbarthol, yn dilyn 'adolygiad haen ganol' yr Athro Dylan Jones.
[192] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 55
[193] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
[194] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 174
[195] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[196] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[197] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 73
[198] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 66
[199] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe

am lawer llai o amser rhwng yr adeg y gwneir cynnig a'r dyddiad cau ar gyfer penderfyniad gan ymgeisydd.[200]

**84.** Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd fod gan sefydliadau derfynau amser gwahanol a all achosi dryswch i ymgeiswyr.[201]

**85.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn ymwybodol o'r problemau hyn, er iddi bwysleisio'r ffaith mai nifer cyfyngedig o ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Tynnodd sylw at y ffaith bod defnyddio UCAS yn ddewisol ac nad yw rhai partneriaethau AGA yn ei ddefnyddio.

**86.** Mae'r problemau'n deillio o'r ffaith bod Lloegr wedi sefydlu eu system ymgeisio eu hunain, gydag UCAS wedyn yn rhoi terfyn ar y broses ymgeisio bwrpasol ar gyfer addysgu. Esboniodd fod Llywodraeth Cymru wedi archwilio datblygu system sy'n benodol i Gymru, ond nad oedd yn ymarferol oherwydd arbedion maint. Mae gwaith wedi mynd rhagddo gyda phartneriaethau AGA ac UCAS i geisio datrys y problemau. Yng ngoleuni'r problemau parhaus, ymrwymodd i "edrych eto ar atebion posibl ar gyfer ein system AGA yng Nghymru".[202]

## Canfyddiadau o addysgu fel gyrfa

**87.** Fel y nodwyd yn flaenorol, un o'r themâu clir a ddaeth i'r amlwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad oedd y ffaith bod y canfyddiad negyddol yn cael effaith sylweddol ar apêl addysgu. Cafodd hyn ei amlygu gan bron pawb y gwnaethom siarad â nhw, gan gynnwys athrawon, arweinwyr ysgolion a chyn-athrawon.[203]

**88.** Dywedodd un tyst mai'r ysgol yw un o'r ychydig amgylcheddau y mae gan bron pawb brofiad personol ohono, ond mae'n rôl sy'n edrych yn wahanol iawn o ochr arall y ddesg.[204] Ac eto, a yw ysgolion eu hunain yn hyrwyddo addysgu fel dewis gyrfa gwerth chweil i'w disgyblion? Clywsom y gall y gwrthwyneb fod yn wir. Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod eu myfyrwyr israddedig yn sôn

[200] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 68
[201] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[193] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025
[203] Er enghraifft, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 14, Medi 2025; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[204] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 163

bod eu hathrawon, neu rieni sy'n athrawon, yn eu cynghori i beidio â dod yn athrawon.[205]

**89.** Dywedodd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant fod cyngor negyddol gan athrawon i fyfyrwyr yn lladd y proffesiwn yn llwyr a bod angen mynd i'r afael ag ef.[206] Gwnaethant nodi bod pennaeth yn eu clwstwr wedi dweud bod athrawon, weithiau, yn gallu bod yn elyn pennaf iddyn nhw eu hunain. Er iddynt gydnabod yr heriau a wynebir, gwnaethant ddweud bod angen rhannu'r agweddau cadarnhaol ar addysgu yn fwy eang.[207]

**90.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd nad oedd addysgu yn cael ei hyrwyddo, ddim hyd yn oed mewn digwyddiadau gyrfaoedd yn yr ysgol. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at y ffaith "er bod ysgolion yn dathlu llwyddiant cyn-fyfyrwyr mewn llawer o feysydd galwedigaethol, mai anaml, os o gwbl, y byddant yn gwneud hynny mewn perthynas â chyn-ddisgyblion sy'n dechrau addysgu"[208]. Gwnaethant alw ar i ysgolion gael eu "[h]annog, fel rhan o'u gweithgareddau gwella ysgol craidd" i hyrwyddo addysgu fel gyrfa.[209]

**91.** Gwnaethant hefyd ddweud:

> *"Roedd disgyblion o bob oed, yn yr ysgolion uwchradd lle cynhaliwyd ymchwil astudiaethau achos, gan gynnwys ysgolion mewn ardaloedd cyfoethog iawn, yn cynnig yr un canfyddiadau ynghylch pam nad oeddent yn ystyried dilyn gyrfa ym maes addysg. Mewn rhai ysgolion, nid oedd gan yr un o'r disgyblion ddiddordeb mewn addysgu fel gyrfa, gan nodi diffyg bodlonrwydd yn y swydd, ymddygiad gwael ymysg disgyblion, portreadau negyddol yn y cyfryngau o athrawon, a chyflogau nad ydynt yn gymesur â'r cyfrifoldebau a'r llwyth gwaith dan sylw, fel y rhesymau dros eu diffyg diddordeb."*[210]

**92.** Er i Brifysgol Metropolitan Caerdydd hefyd ddweud bod ymchwil yn dangos bod disgyblion ysgolion cynradd yng Nghymru yn nodi mai addysgu yw eu "dewis gyrfa ail uchaf", maent yn dweud ei bod yn "debyg bod y dyheadau hyn yn

[205] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 130
[206] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 151
[207] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 106
[208] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 8.16
[209] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.19
[210] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 3.10

gostwng" wrth fynd drwy ysgol uwchradd, ond bod "gan lawer o israddedigion/graddedigion agweddau cadarnhaol cynhenid tuag at addysgu".[211]

**93.** Roedd yr undebau addysgu yn dadlau bod y gweithlu eisoes yn hyrwyddo manteision gyrfa mewn addysg. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod penaethiaid eisoes yn gyfrifol am farchnata gyrfa mewn addysg.[212] Dywedodd Undeb Cenedlaethol y Prifathrawon Cymru mai athrawon ac arweinwyr ysgolion yw'r eiriolwyr gorau dros y proffesiwn, a'u bod eisoes yn hyrwyddo'r pleser y mae addysgu yn ei roi bob dydd. Gwnaethant ddweud bod llawer iawn o waith i bawb ei wneud o hyd i sicrhau bod y proffesiwn yn cael ei hyrwyddo.[213]

**94.** Cynigiodd Cyngor y Gweithlu Addysg y dylid syllu ar addysgu trwy lygaid plentyn mewn gwers:

> *"… you can see the teacher struggling to get behaviour into check and trying to teach the subject, and you've got attendance issues, you're going to say, 'Why would I want to do that?' So, you're in the thick of it and you wouldn't necessarily see that as an option in terms of a career for yourself."*[214]

**95.** Tynnodd amrywiaeth o randdeiliaid sylw at y diffyg parch proffesiynol at addysgu. Clywsom nad yw'n cael ei ystyried yn broffesiwn yn yr un ffordd â phroffesiynau eraill.[215] Gall hyn wedyn fod yn rhwystr i ddarpar athrawon.[216] Dywedodd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg fod statws a delwedd y proffesiwn yn effeithio ar recriwtio.[217] Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod pob athro yn unigolyn graddedig â chymhwyster uwch ond nad yw bob amser yn teimlo felly,[218] a dywedodd y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd ei fod yn ymwneud â'r gwerth y mae cymdeithas yn ei roi ar addysgu.[219]

---

[211] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 8.14
[212] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 12
[213] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 14-15
[214] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 45
[215] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 56
[216] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 60, Medi 2025
[217] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 126
[218] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 119
[219] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 287

**96.** Soniodd nifer o sefydliadau am yr angen i addysgu gael ei farchnata fel gyrfa fawreddog. Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe y dylai'r proffesiwn gael ei hyrwyddo:

> *"… as a job that is for people who are special, people who've got a particular skill set, that it's something that's highly valued. Because that's where you see success in countries like Finland, where teaching is a highly regarded, high-status profession."*[220]

**97.** Un o'r materion a nodwyd oedd sut mae addysgu'n cael ei bortreadu yn y cyfryngau.[221] Clywsom bryderon rheolaidd ynghylch y ffaith bod sylw yn y cyfryngau yn aml yn canolbwyntio ar y pethau negyddol. Roedd athrawon a chyn-athrawon yn pryderu bod achosion o gamymddwyn gan athrawon yn cael sylw anghymesur yn y wasg ar draul straeon am yr effaith gadarnhaol maent yn ei chael. Dywedodd pennaeth ysgol uwchradd wrthym:

> *"Mae pobl yn gweld y pethau negyddol yn y cyfryngau ac mae hynny'n broblem go iawn…y cyfan rydych chi'n ei ddarllen yw negyddoldeb ynghylch y maes addysg a pham fyddech chi'n cael eich denu ato fel person ifanc sy'n gadael y brifysgol pan mai'r unig beth rydych chi'n ei weld yw'r problemau gydag ymddygiad, rydych chi'n gweld achosion o staff yn destun ymosodiadau, rydych chi'n darllen y pethau negyddol sy'n dod o Estyn. Dydych chi byth yn gweld y pethau cadarnhaol ynghylch y swydd."*[222]

**98.** Dywedodd un arall:

> *"Os ydym ni wir eisiau gwerthfawrogiad cadarnhaol o'r rôl addysgu, a'r gwaith da sy'n mynd ymlaen, yna stopiwch y pethau hyn rhag ymddangos yn y wasg. Mae'r cyfryngau wrth*

[220] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 162
[221] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 244 [UCAC]; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 9 [Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru]
[222] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 61, Medi 2025

> *eu boddau, ond maen nhw'n cael effaith ddiferu ar y proffesiwn. Yr hyn rydyn ni'n ei weld heddiw yw effaith hynny."*[223]

**99.** Mae hyn yn effeithio ar recriwtio, ond gall hefyd effeithio ar forâl staff presennol, a gall effeithio ar gadw staff o bosibl.[224]

**100.** Mae'n bwysig iawn tynnu sylw at yr agweddau cadarnhaol iawn ar addysgu a chydnabod y pwysau go iawn y mae athrawon yn eu hwynebu hefyd. Roedd hyn yn rhywbeth y gwnaethom ei archwilio'n benodol gyda'r rhai a roddodd dystiolaeth lafar, ac roedd yn wych gweld wynebau'n goleuo wrth iddynt sôn am y rhesymau pam y gwnaethant ymuno ac yna aros ym maes addysgu.

**101.** Gwnaeth y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg ein hatgoffa o natur alwedigaethol addysgu. Gwnaethant ddweud bod yr ymchwil yn dangos bod hyn yn ffactor pwysig iawn wrth i bobl ddewis dod yn athrawon.[225] Yn gadarnhaol, dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe fod profiad yn yr ystafell ddosbarth yn aml yn gwrthbwyso canfyddiadau negyddol. Gwnaethant ddweud bod myfyrwyr yn gweld cyfoeth a gwerth addysgu wedyn, a'r effaith y mae'n ei chael.[226]

**102.** Gwnaeth Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru ein hatgoffa o eiriau pwerus Nelson Mandela "mai addysg yw'r 'Arf mwyaf effeithiol i newid y byd'"[227]. Soniodd y Sefydliad Ffiseg am ba mor hanfodol yw addysgu i gymdeithas, gan ei alw'n yrfa sy'n:

> *"… underpins every we want to achieve … because without teachers inspiring, encouraging and guiding the next generation, we don't have any teachers for the future, but we don't have anyone going into business, we don't have any doctors, nurses. We don't have anything if we don't have a teaching profession that's alive and passionate about what they do. So, that's the level of emotional, as well as financial, investment we need to be putting into a profession that really transforms lives for us."*[228]

---

[223] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 62, Medi 2025
[224] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[225] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 124
[226] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 12
[227] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[228] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 230

**103.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod addysgu yn broffesiwn gwych y mae pobl yn ymuno ag ef i wneud gwahaniaeth i fywydau plant.[229] Disgrifiodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau hi fel y swydd orau yn y byd a dywedodd cynrychiolydd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau:

> *"I was a classroom teacher for 30 years, a classroom teacher in terms of being a head of humanities, which was a classroom teacher role. That was the highest I ascended to in terms of school, because it was the highest I ever wanted to ascend to, because of the love of it. And I think you'll find this uniformly across teachers, by the way: the love of the job comes from the interaction with the children and the learners. I would have to say, in all those 30 years, I did not have one day that I would say was boring. You never have a dull moment. Every day is different. It can be a very exciting job. It can be a very rewarding job. And it is a fantastic feeling when you've got a group of children, or even individuals, small groups, in the palm of your hand, and they're following you through that educational journey. That's where the love of it comes in. But the trouble is—and you will have heard this many, many times before—there is so much around it that just makes it untenable, really, to continue in the way that it is. But the actual love of the job itself, that interaction with children, I think is the same, and always will be the same."*[230]

**104.** Gwnaeth cynrychiolydd y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd fyfyrio ar ei amser ei hun yn yr ystafell ddosbarth gan ddweud:

> *"You feel it; you don't necessarily see it. I was lucky enough to be an educator for over 30 years and, when you walk in, they give you energy, they give you life, they make you laugh. It is a joyous experience to be in a classroom with children. Even if they don't want to be there, you feel like you're doing something right, you feel like you're making a difference. And I completely agree with what you're saying—we need to show people what the reality is. Because the workload is enormous, if you don't love it, you can't do it. But, once they've experienced once, we've got*

[229] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 42
[230] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 294

*them, they're hooked—the right people are hooked—and they stay."*[231]

## Llwybrau amgen i addysgu

**105.** Rhannodd y Brifysgol Agored yng Nghymru eu profiadau o gynnal y cyrsiau TAR rhan-amser a chyflogedig. Mae'r cwrs rhan-amser yn galluogi myfyrwyr i gyfuno astudiaethau â chyflogaeth â thâl neu gyfrifoldebau eraill, tra bod y llwybr cyflogedig wedi'i anelu at y rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sector addysg mewn rolau fel cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr addysgu lefel uwch, a thechnegwyr. Mae'r llwybr hwn yn caniatáu iddynt gyfuno eu hastudiaethau â hyfforddiant ymarferol yn eu hysgolion eu hunain ochr yn ochr â'u gwaith presennol"[232].

**106.** Gwnaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru ddisgrifio eu myfyrwyr fel rhai hollol newydd i'r proffesiwn na fyddent wedi mynd i'r maes addysgu drwy unrhyw lwybr arall. Gwnaethant ddweud bod eu carfanau yn ychwanegu "rhyw 10 y cant i 15 y cant" at ffigurau'r gweithlu yn flynyddol.[233]

**107.** Datblygwyd y llwybrau amgen mewn ymateb uniongyrchol i'r problemau wrth recriwtio athrawon. Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru fod y llwybrau hyn yn agor addysgu i amrywiaeth ehangach o bobl, a'u bod yn arbennig o effeithiol wrth alluogi pobl i astudio i ddod yn athrawon yn eu cymunedau eu hunain.[234]

**108.** Cytunodd Llywodraeth Cymru â'r Brifysgol Agored yng Nghymru, gan ddweud bod y carfanau ar y cyrsiau hyn yn "unigryw … gan gynrychioli athrawon dan hyfforddiant ychwanegol" na fyddent wedi gallu hyfforddi fel arall. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod y pynciau y gellir eu dilyn drwy'r llwybrau hyn wedi cael eu "hehangu sawl gwaith" ac yn cynnwys yr holl byncia â blaenoriaeth, Saesneg, Saesneg gydag Astudiaethau'r Cyfryngau a Chynradd.[235]

**109.** Fodd bynnag, nododd y Brifysgol Agored yng Nghymru y gall cyfyngiadau o ran cyllido ysgolion gyfyngu ar y nifer sy'n ymgymryd â chwrs TAR cyflogedig. Gwnaethant ddweud nad oes gan ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd, yr arian na'r capasiti i gefnogi staff i ddilyn y llwybr hwn. Maent yn pryderu y gallai hyn

[231] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 13
[232] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[233] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 34
[234] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[235] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru

arwain at fwy o heriau o ran recriwtio.[236] Dywedodd Llywodraeth Cymru eu bod wedi ymestyn y cymorth ariannol ar gyfer y TAR Cyflogedig am dair blynedd academaidd arall. Mae hyn yn cwmpasu cost y TAR i'r myfyriwr a chyfraniad cyflog i'r ysgol.[237]

**110.** Dywedodd Estyn fod rhaglenni'r Brifysgol Agored yn ddefnyddiol ond nad oeddent yn mynd yn ddigon pell i helpu gyda'r heriau recriwtio ar gyfer pynciau uwchradd lle mae prinder.[238]

**111.** Adroddodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe fod arweinwyr ysgolion yn rhwystredig ynghylch y diffyg llwybrau cyflym neu hyblyg sydd ar gael i staff sy'n gweithio fel goruchwylwyr llanw, technegwyr labordy neu gynorthwywyr addysgu mewn ysgolion ar hyn o bryd ac sydd â chymwysterau lefel gradd. Roeddent eisiau llwybrau mwy hyblyg sy'n gynaliadwy yn ariannol. Gwnaethant alw ar i fwy o waith gael ei wneud gyda darparwyr a Chyngor y Gweithlu Addysg i ystyried llwybrau gwahanol a sut y gellid sicrhau eu bod o ansawdd da.[239] Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith bod rhaglen AGA yn cael ei threialu gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar hyn o bryd ar gyfer gweithwyr mewn ysgolion, gan gynnig llwybr i athrawon heb gymhwyso sydd eisoes yn gweithio mewn ysgolion.[240]

**112.** Clywsom fod llwybrau amgen a ddarparwyd yn flaenorol, gan gynnwys Teach First, wedi dod i ben. Mae'r cynllun hwn yn dal i fynd rhagddo yn Lloegr.[241] Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod Teach First:

> *"... particularly for schools in challenging situations, ... was a wonderful route into teaching; you got the best graduates coming in, with the right energy to do that job ..."*[242]

**113.** Soniodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru hefyd am y ffaith bod y Rhaglen Athrawon Graddedig wedi dod i ben. Soniodd un pennaeth am y gwerth yr oedd wedi'i ychwanegu i'w hysgol:

---

[236] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[237] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[238] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[239] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[240] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[241] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[242] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 23

> *"... we used the GTP programme, over several years, to develop our own teachers within the school. They still remain in Prestatyn High to this day. Removing that ability for a headteacher to select some members of staff and train them over two years to become QTS is something that we miss. I would like to see, for one, that scheme brought back. It helped me fulfil my curriculum with specialist teachers."*[243]

**114.** Nododd Estyn[244] a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol[245] nad oes unrhyw ddarpariaeth AGA uwchradd i israddedigion yng Nghymru, a dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y dylid ystyried sefydlu cyrsiau o'r fath mewn meysydd pwnc â blaenoriaeth.[246]

**115.** Clywsom gan amrywiaeth o randdeiliaid fod angen ystod ehangach o lwybrau mynediad i addysgu, gan gynnwys:

- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[247];
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd (a dynnodd sylw at y ffaith mai dyma oedd barn "unfrydol" yr holl awdurdodau lleol a'r ysgolion a gymerodd ran yn eu gwaith ymchwil, ac "fe'i cefnogwyd yn gryf" hefyd gan fyfyrwyr TAR israddedig blaenorol a phresennol)[248];
- Estyn[249];
- Y Gymdeithas Fioleg Genedlaethol[250];
- Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[251];
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[252].

[243] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 26
[244] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[245] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 181
[246] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[247] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[248] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 8.24
[249] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[250] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[251] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[252] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

**116.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod angen ystod o lwybrau o ansawdd da ond eu bod hefyd yn ymwneud â:

> *"... reaching out in an access-type way to encourage people perhaps who don't see themselves as being teachers to actually think of the possibility that through baby steps initially they can, through access routes, progress into teaching."*[253]

**117.** Gwnaeth Prifysgol Metropolitan Caerdydd alw ar i Lywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg weithio gyda phrifysgolion, awdurdodau lleol ac ysgolion i archwilio llwybrau newydd i addysgu.[254] Roedd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol o'r farn y dylai prentisiaethau gradd gael eu hystyried, gan nodi bod hyn yn dechrau yn Lloegr.[255]

**118.** Galwodd ACT am newidiadau i'r fframweithiau prentisiaeth ar gyfer Cefnogi Addysg a Dysgu mewn Ysgolion a dywedodd y gall creu cyfleoedd prentisiaeth lefel uwch helpu i ddatblygu gweithlu cynaliadwy. Gwnaethant alw ar i Lywodraeth Cymru, Medr a sefydliadau dyfarnu gydweithio i greu'r rhain. Byddai hyn hefyd yn creu llwybrau cliriach i unigolion gamu i rolau addysgu. Gwnaethant hefyd alw am lwybr dilyniant gyrfa clir a strwythuredig sy'n caniatáu i unigolion symud o rolau cymorth lefel mynediad i swyddi addysgu cymwysedig. Dylai'r llwybr hwn gynnwys camau pendant sy'n amlinellu'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen ar bob cam, gan ddarparu llwybr deniadol i'r proffesiwn addysgu i staff cymorth presennol. Roeddent o'r farn nad yw'r sector addysg wedi manteisio ar botensial cyllid prentisiaethau yn llawn hyd yn hyn.[256]

**119.** Er hynny, rhybuddiodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe na fydd sicrhau bod yna lwybrau mwy hyblyg i addysgu, o reidrwydd, yn datrys problemau recriwtio.

> *"... Over the border, there is a great deal of flexibility and, I think, considerable confusion and lots of different routes, and there still seems to be a recruitment and retention crisis. So, I don't think that flexibility in and of itself is necessarily going to solve this. ..."*

**120.** Gwnaethant alw am lwybrau achredu amgen a fyddai'n galluogi pobl sydd â'r profiad a'r sgiliau cywir, ond nad oes ganddynt radd sy'n bodloni'r meini prawf

[253] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 131
[254] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.19
[255] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 265
[256] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 07 ACT Ltd

gwybodaeth am bwnc, i gael achrediad. Gwnaethant awgrymu y gallai fod yna ddarpar athrawon mathemateg sydd heb radd mewn mathemateg ond sydd wedi bod yn ymdrin â rhifau yn broffesiynol fel rhan o'u gwaith. (Gweler paragraffau 122-125).[257]

**121.** Nododd y Brifysgol Agored yng Nghymru nad yw rhai pobl sydd â diddordeb yn y cyrsiau yn gymwys oherwydd nad oes ganddyn nhw radd, neu nad oes ganddyn nhw radd berthnasol. Er bod y meini prawf achredu wedi'u diwygio fel bod perthnasedd y radd yn 50 y cant, mae hyn yn parhau i fod yn her, yn enwedig i ddarpar athrawon uwchradd.[258]

**122.** Cafodd y gofyniad mynediad, sef bod o leiaf 50 y cant o radd israddedig yn berthnasol, ei grybwyll fel rhwystr posibl gan Gyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon. Yn ôl y Cyngor, er y gallai anelu at roi sicrwydd ynghylch gwybodaeth athro am y pwnc, efallai na fydd fawr o gysylltiad rhwng cynnwys gradd â'r ffordd y mae'r pwnc hwnnw'n cael ei addysgu mewn ysgolion"[259]. Ymhlith y rhai eraill a soniodd am yr heriau ynghylch y gofyniad mynediad hwn roedd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant[260]; a Phartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[261].

**123.** Roedd y Brifysgol Agored yng Nghymru yn pryderu nad oedd y dull presennol o ymdrin ag AGA wedi'i ddiogelu at y dyfodol i ystyried llwybrau amgen i radd israddedig, fel prentisiaethau gradd. Roedd angen ystyried hyn nawr fel bod cymhwysedd yn y dyfodol yn ystyried ystod ehangach o gymwysterau o bosibl.[262] Mae newidiadau eraill, fel y cynnydd mewn gyrfaoedd portffolio, yn golygu bod angen cael mathau mwy arloesol a gwahanol o gymwysterau.[263]

**124.** Tynnwyd sylw at botensial cyrsiau i wella gwybodaeth am bynciau gan:

- Y Sefydliad Ffiseg[264];

[257] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 23-24
[258] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[259] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[260] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 28, Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
[261] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 24
[262] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[263] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 131
[264] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg

- Y Brifysgol Agored yng Nghymru[265];
- Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol[266];
- Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon[267];
- Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.[268]

Mae'r rhain eisoes ar gael yn Lloegr lle cynigir cwrs cyn-AGA a ariennir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU mewn pum pwnc: cemeg, cyfrifiadura, ieithoedd, mathemateg a ffiseg. Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe y byddai dull o'r fath yn ehangu mynediad i'r proffesiwn.[269]

**125.** Roedd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant[270]; y Brifysgol Agored yng Nghymru[271]; a Phartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[272] i gyd o'r farn y dylid gwneud gwaith gwella pwnc o'r fath cyn y TAR. Roedd hyn oherwydd dwyster presennol y flwyddyn TAR. Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe y byddai'n ddefnyddiol pe bai unrhyw waith cyn y cwrs yn cael ei gydnabod yn genedlaethol.[273]

**126.** Mae pryderon hefyd y gall gofynion mynediad TGAU fod yn rhwystr. Dywedodd Prifysgol De Cymru y gallai hyn atal pobl sydd eisoes yn gweithio ym maes addysg fel cynorthwywyr addysgu.[274] Dywedodd Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon y dylid rhoi ystyriaeth bellach i ganiatáu i ddarparwyr AGA osod profion cywerthedd.[275]

**127.** Mae yna heriau hefyd yn wynebu'r rhai sydd am symud o addysgu mewn addysg ôl-16 i addysg cyn-16.[276] Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe fod cydweithwyr yn teimlo bod yna fwlch i bobl sydd â chymhwyster

---

[265] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[266] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 263
[267] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[268] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 117
[269] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 121
[270] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 117
[271] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 120
[272] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 129-130
[273] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[274] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[275] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[276] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 25 (Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 123 (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)

addysgu ôl-16 ennill SAC trwy lwybr hyblyg drwy raglen sydd wedi'i hachredu gan brifysgol. Gallai hyn, medden nhw, fod yn llwybr posibl hefyd i'r rhai sydd â chymhwyster addysgu rhyngwladol.[277] Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru ei bod yn chwerthinllyd bod trefniadau pontio yn golygu na all athro addysg bellach cymwys addysgu pan fo prinder mewn ysgolion uwchradd.[278]

**128.** Clywsom y gellid gwneud mwy i gefnogi athrawon cynradd i symud i leoliadau uwchradd, yn enwedig gan nad yw'r sector cynradd yn wynebu'r un problemau recriwtio a chadw â'r sector uwchradd.[279]

**129.** Roedd safbwyntiau gwahanol ynghylch llwybrau asesu yn unig. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod rhai cynghorau eisiau gweld llwybrau asesu yn unig i addysgu, a chyfeiriwyd at ddull sydd wedi'i fabwysiadu yn Lloegr lle y gall athrawon sydd heb gymhwyso sicrhau SAC drwy'r llwybr hwn.[280] Fodd bynnag, rhybuddiodd y Brifysgol Agored yng Nghymru yn erbyn mabwysiadu llwybrau i addysgu a allai danseilio'r gwaith sydd wedi'i wneud i sicrhau AGA o ansawdd uchel. Gwnaethant ddweud bod yna risg y gallai llwybrau asesu yn unig greu system dwy haen.[281]

**130.** Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau, ni waeth pa lwybr AGA a gymerir, ei fod o ansawdd uchel a'i fod yn sicrhau bod myfyrwyr yn barod i ddechrau addysgu. Nodwyd bod y dull hwn yn "amddiffyn rhag gweithlu dwy haen ac yn sicrhau bod athrawon o ansawdd uchel sydd wedi'u paratoi'n briodol yn ysgolion Cymru"[282].

**131.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet y gallai'r gofyniad perthnasedd gradd israddedig o 50 y cant eithrio myfyrwyr sydd â graddau mewn pynciau fel peirianneg. Dywedodd fod hyn yn cael ei archwilio ar hyn o bryd, ynghyd â'r ffordd y gellir ei gydbwyso â sicrhau bod gan fyfyrwyr yr wybodaeth a'r sgiliau pwnc cywir.[283]

[277] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[278] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 90
[279] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 24 (Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru)
[280] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[281] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 25
[282] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[283] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 34

**132.** Pwysleisiodd drwy gydol ei thystiolaeth bwysigrwydd sicrhau bod AGA yn parhau i fod o ansawdd uchel. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn agored i edrych ar yr opsiynau ar gyfer y sawl sy'n newid gyrfa yn y cyd-destun hwn. Tynnodd sylw at y ffaith bod y TAR rhan-amser a'r TAR cyflogedig yn agor cyfleoedd. Dywedodd fod cyfle, fel rhan o Gynllun y Gweithlu, i edrych ar ystod ehangach o opsiynau mynediad fel prentisiaethau.[284]

## Cymhellion

**133.** Mae nifer o gynlluniau cymhelliant ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd.

**Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth.**

Yn 2024/25, roedd y cynllun hwn yn rhoi grant o £15,000 i fyfyrwyr cymwys ar AGA ôl-raddedig mewn pynciau â blaenoriaeth:

- Bioleg
- Cemeg
- Dylunio a Thechnoleg
- Technoleg Gwybodaeth
- Mathemateg
- Ieithoedd Tramor Modern
- Ffiseg
- Cymraeg

Nid yw'r grant hwn ar gael i'r rhai sy'n hyfforddi trwy lwybr sy'n seiliedig ar gyflogaeth fel y llwybr TAR Cyflogedig. Mae ar gael i fyfyrwyr rhan-amser. Gwneir y taliadau mewn tri rhandaliad; £6,000 ym mis Ionawr ar ôl cwblhau tymor cyntaf y TAR; £6,000 ym mis Gorffennaf / Awst ar ôl cwblhau'r TAR a dyfarnu SAC yn llwyddiannus; £3,000 ar ôl cwblhau'r cam sefydlu yng Nghymru yn llwyddiannus. Mae'r taliadau hyn wedi'u rhannu'n bedwar rhandaliad ar gyfer myfyrwyr rhan-amser.

[284] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 41

**Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory**

Mae'r cynllun, sydd wedi bod ar waith ers 2018, yn darparu grant o £5,000 i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â rhaglen ôl-raddedig AGA uwchradd naill ai drwy'r Gymraeg neu i addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Nid yw'r grant hwn ar gael i'r rhai sy'n hyfforddi trwy lwybr sy'n seiliedig ar gyflogaeth fel y llwybr TAR Cyflogedig, ond mae ar gael i'r rhai sy'n astudio'n rhan-amser. Gwneir y taliadau mewn dau randaliad: £2,500 ar ôl cwblhau'r TAR a dyfarnu SAC yn llwyddiannus, a £2,500 ar ôl cwblhau'r cam sefydlu yng Nghymru yn llwyddiannus.

**Y Cynllun Cymhelliant AGA ar gyfer Rhai o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol**

Mae'r cynllun hwn ar agor i ystod o ethnigrwydd a grwpiau ethnig ac mae'n darparu grant o £5,000 i fyfyrwyr sy'n astudio TAR gyda SAC ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Nid yw'r grant hwn ar gael i'r rhai sy'n hyfforddi trwy lwybr sy'n seiliedig ar gyflogaeth fel y llwybr TAR Cyflogedig, ond mae ar gael i'r rhai sy'n astudio'n rhan-amser. Gwneir taliadau mewn dau randaliad: £2,500 ym mis Gorffennaf/Awst ar ôl cwblhau TAR a dyfarnu SAC a £2,500 ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu yng Nghymru yn llwyddiannus.

**134.** Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe nad oedd yn glir pa mor effeithiol yw'r cymhellion hyn. Fodd bynnag, gwnaethant dynnu sylw at y ffaith, er bod y niferoedd sy'n cael eu recriwtio i bynciau lle mae prinder yn isel, y gallai'r niferoedd hyn fod hyd yn oed yn is heb gymhellion.[285] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod effaith bwrsariaethau "yn cyflwyno darlun cymysg, ond, yn gyffredinol, ymddengys nad ydynt wedi cael fawr o effaith"[286]. Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod yr ymchwil yn "annelwig" a bod angen mwy.[287] Gwnaethant awgrymu hefyd y gallai gostwng neu ddileu ffioedd ar gyfer cyrsiau TAR fod yn "fwy o gymhelliant ac yn well gwerth am arian …".[288] (Gweler paragraffau 51-55 am fwy o dystiolaeth ar y mater hwn.)

**135.** Roedd rhai, gan gynnwys Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, o'r farn bod angen mwy o ddata i ddeall effaith cymhellion yn well. Gwnaethant alw am

[285] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[286] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, adran 3, crynodeb o benawdau
[287] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 260
[288] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 260

safbwynt cenedlaethol, hirdymor a strategol i ddeall yn well pa mor effeithiol yw cymhellion.[289]

**136.** Tynnodd y Sefydliad Ffiseg sylw at ymchwil o Loegr a oedd yn dangos bod cynnydd mewn bwrsariaethau yn gysylltiedig â chynnydd yn y niferoedd a oedd yn cael eu recriwtio i AGA. Canfu'r ymchwil hon hefyd fod yr athrawon hyn yn aros yn y proffesiwn yn hirach, ac yn aml yn gweithio mewn ysgolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Fodd bynnag, nodwyd mai ymchwil o Loegr yn unig oedd hon, sydd â bwrsariaethau uwch.[290]

**137.** Cyfeiriodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd at dystiolaeth o Loegr hefyd a nododd, er bod amrywiad rhwng gwahanol bynciau, ei bod yn dangos "bod bwrsariaethau cymhelliant yn gyffredinol yn denu mwy o unigolion i raglenni uwchradd, a'u bod wedyn yn parhau i addysgu ychydig yn hwy na'r rhai nad sydd wedi cael bwrsariaethau cymhelliant"[291]. Ond gwnaethant hefyd annog pwyll, gan ddweud:

> *"Yn Lloegr nac yng Nghymru, fodd bynnag, nid yw effaith bwrsariaethau wedi bod yn drawsnewidiol o ran gwella recriwtio. Yn wir, mae rhywfaint o dystiolaeth y byddai llawer o ymgeiswyr wedi ymuno â'r rhaglenni heb fwrsariaeth a bod rhai graddedigion sy'n llawn dyledion myfyrwyr (a elwir yn 'dwristiaid bwrsariaeth') yn mynd ar ôl y cymhellion mwyaf (maent yn gyffredinol yn uwch ac yn cwmpasu mwy o feysydd pwnc yn Lloegr nag yng Nghymru) ac nad oes ganddynt unrhyw fwriad i barhau i addysgu."*[292]

**138.** Daeth Prifysgol Metropolitan Caerdydd i'r casgliad nad oes gan y cymhellion bwrsariaeth presennol ar gyfer pynciau â phrinder "effaith gadarnhaol a pharhaus ar gyfraddau recriwtio na chadw yn y proffesiwn yn y tymor canolig i'r tymor hir"[293]. Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod yr adroddiad diweddar ar gymhellion wedi dod i'r casgliad bod cymhellion yn cael effaith gryfach ar gadw yn hytrach na recriwtio.[294]

---

[289] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 371
[290] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[291] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 3.21
[292] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 3.22
[293] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 8.8
[294] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**139.** Nododd unigolyn ei fod wedi penderfynu dilyn cwrs TAR oherwydd byddai'n derbyn grant ar gyfer pwnc â phrinder oedd yn golygu na fyddai'r cwrs yn costio dim, ac y byddai'n "[fy ng]adael heb golli dim byd pe bawn i'n penderfynu peidio â chadw'r peth i fynd." Er ei fod hefyd wedi nodi ei fod yn teimlo'n "angerddol" am bwysigrwydd addysgu, a bod ganddo berthnasau teuluol agos yn y proffesiwn.[295]

**140.** Er bod rhywfaint o'r dystiolaeth yn amrywio, mae nifer o sefydliadau o'r farn eu bod yn gwneud gwahaniaeth, gan gynnwys y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd[296]; y Sefydliad Ffiseg[297] a'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol.[298]

**141.** Tynnodd Cyngor y Gweithlu Addysg sylw at yr wybodaeth y maent yn ei chasglu ar gymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ar yr adeg y rhoddwyd tystiolaeth lafar i ni, roeddent wedi rhoi'r data hwn i Lywodraeth Cymru.[299] Nododd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru nad oedd dadansoddiad Llywodraeth Cymru o effeithiolrwydd cymhellion ar gael ar yr adeg y cyflwynwyd eu tystiolaeth ysgrifenedig.[300]

**142.** Dywedodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol nad oedd y cymhellion presennol ar gyfer cemeg yn ddigon i fod yn effeithiol, fwy na thebyg,[301] a dywedodd y Sefydliad Ffiseg nad oedd y cymhelliant yn ddigon i fyw arno, a allai atal myfyrwyr o gefndiroedd llai cefnog.[302] Nodwyd hefyd, er bod bwrsariaethau yn ymddangos yn ddrud, nad ydynt ar gael i lawer o bobl mewn gwirionedd, ac felly nad yw'n swm enfawr o arian, yn gyffredinol.[303]

**143.** Fel y nodwyd ym mharagraff 19, tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at y ffaith bod cymhellion ar gyfer pynciau penodol yn Lloegr yn fwy hael neu'n fwy atyniadol na'r rhai yng Nghymru. Cymharodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol y cymhellion sydd ar gael i raddedig Cemeg sy'n ymgymryd ag AGA yng Nghymru o gymharu â rhywun sy'n gwneud AGA yn Lloegr:

> *"… for UK students pursuing an English medium chemistry PGCE in Wales, once tuition fees have been deducted, the bursary is only £2,465 for a full-time course. … shows that even with the*

[295] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 03 Unigolyn
[296] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 351
[297] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[298] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 5
[299] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 106
[300] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 20 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, paragraff 3.5
[301] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 6
[302] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 178
[303] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 277

> *Welsh language incentive, the take-home bursary after fees is less than half the equivalent amount that an ITE chemist in England receives."*[304]

**144.** Gwnaeth y Sefydliad Ffiseg gymhariaeth debyg, gan ddweud y bydd darpar athro Ffiseg yng Nghymru (nad yw'n gymwys ar gyfer y Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory na'r Cynllun Cymhelliant AGA ar gyfer Rhai o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol) yn derbyn bwrsariaeth o £15,000 yng Nghymru o gymharu â bwrsariaeth o £29,000 yn Lloegr. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at y ffaith bod y fwrsariaeth yn Lloegr wedi cynyddu'n ddiweddar, ond ei fod wedi aros yn sefydlog yng Nghymru ers 2022.[305]

**145.** Galwodd nifer o sefydliadau ar i fwrsariaethau a chynlluniau cymhelliant gyfateb â gwerth y rhai sydd ar gael yn Lloegr. Yn eu plith roedd y Sefydliad Ffiseg[306]; y Gymdeithas Gemeg Frenhinol[307]; a Chyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon[308].

**146.** Dywedodd y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd:

> *"I interview quite a significant number of students who either decline, or accept and then decline, and when I go back to them—because I often follow up just to find out if it was something I could have done and we could have offered, or I didn't explain properly—and they often have told me that it's—. Well, the question is always around the bursary, and they go to Oxford, or they go to Bristol or they go to London and just choose to train there."*[309]

**147.** Gallai'r anghysondebau hyn rhwng cymhellion gael mwy o effaith ar ardaloedd yng Nghymru sydd ar y ffin. Dywedodd y Sefydliad Ffiseg y byddai'n ddiddorol deall unrhyw effaith y mae'r fwrsariaeth yn Lloegr yn ei chael ar fyfyrwyr yng Nghymru sy'n hyfforddi i fod yn athrawon yn Lloegr – yn enwedig mewn ardaloedd ar y ffin fel Casnewydd a Wrecsam lle mae'n gymharol hawdd teithio i

---

[304] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 6
[305] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[306] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[307] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 31
[308] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[309] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 301

brifysgol yn Lloegr. Awgrymwyd y gallai sicrhau bod y fwrsariaeth yn gyson â'r un yn Lloegr liniaru effeithiau trawsffiniol.[310]

**148.** Tynnodd y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd sylw at y ffaith y bydd rhai myfyrwyr yn gwneud y TAR ym Mryste oherwydd y bwrsariaethau mwy, ond yn gwneud eu lleoliadau yng Nghymru. Roedd hyn ychydig yn annheg i'r myfyrwyr hynny sy'n aros yng Nghymru, yn eu barn nhw.[311]

**149.** Ar ôl i ni orffen casglu tystiolaeth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU newidiadau i'w cynlluniau cymhelliant, er enghraifft, bydd cymhellion ar gyfer Bioleg yn gostwng i £5,000 a bydd cymhellion ar gyfer Dylunio a Thechnoleg ac Ieithoedd Tramor Modern yn gostwng i £20,000.[312]

**150.** Yn ystod ein gwaith ymgysylltu, dywedwyd wrthym, er y gallai cymhellion fod yn effeithiol wrth ddenu myfyrwyr i AGA, efallai na fyddant yn aros ym maes addysgu wedyn. Nododd pennaeth fod ganddo athro dan hyfforddiant a oedd yn onest iawn gyda nhw o'r diwrnod cyntaf ac a ddywedodd wrthyn nhw ei fod ond yn gwneud AGA i gael rhywfaint o arian. Cwblhaodd yr unigolyn hwn y cwrs ond ni aeth i addysgu. Awgrymodd pennaeth ysgol uwchradd mai un ffordd o atal hyn, o bosibl, fyddai cynnig y cymhellion dros gyfnod hwy:

> *"Mae cymaint o bobl yn ei ddefnyddio fel opsiwn 'gorffen prifysgol, ddim yn siŵr beth i'w wneud, beth am wneud hyn a chael fy nhalu am flwyddyn'. Gallai fod mwy o gymhelliant ar gyfer y tymor hwy. Os oes budd ariannol i wneud y cyrsiau hynny, dylai hwnnw fod dros y pump i ddeng mlynedd nesaf, yn hytrach na 'dyma 15 mil i wneud blwyddyn."*[313]

Dywedodd unigolyn nad oedd yn y proffesiwn addysgu mwyach ond a oedd yn derbyn bwrsariaeth ei fod yn teimlo bod "… grantiau i gael pobl i ddilyn cyrsiau hyfforddi athrawon yn denu ymgeiswyr anghymwys …"[314].

**151.** Galwodd y Sefydliad Ffiseg ar i gymhellion ariannol gael eu targedu at ddarpar athrawon y mae eu hymddygiad yn tueddu i fod yn fwy ymatebol i gymhellion ariannol o gymharu ag athrawon profiadol. Gwnaethant hefyd alw ar i

---

[310] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[311] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 297
[312] Llywodraeth y DU, Funding: initial teacher training (ITT) academic year 2026 to 2027, Diweddarwyd 7 Hydref 2025
[313] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 77, Medi 2025
[314] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 03 Unigolyn

wariant gael ei dargedu at bynciau â blaenoriaeth sydd, medden nhw, yn rhoi gwell gwerth am arian o gymharu â gwariant diwahaniaeth ar bob cyfnod a phwnc, fel cynnydd cyffredinol mewn cyflog"[315].

**152.** Tynnodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig sylw at bryderon ynghylch nifer yr athrawon Addysg Grefyddol, gan ei alw'n bryder penodol i ysgolion Catholig. Nodwyd, er bod cymhellion ariannol yn cael eu cynnig ar gyfer pynciau craidd eraill, nad oes unrhyw ddealltwriaeth bod Addysg Grefyddol yn bwnc craidd mewn ysgolion Catholig.[316]

**153.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y cynlluniau cymhelliant sydd ar gael yn "targedu'r meysydd a'r pynciau hynny lle mae recriwtio fwyaf heriol; pynciau â blaenoriaeth, y sector cyfrwng Cymraeg a denu mwy o newydd-ddyfodiaid o leiafrifoedd ethnig". Mae cyfanswm o £25,000 ar gael i'r ymgeiswyr hynny sy'n gymwys ar gyfer y tri chynllun.[317]

**154.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith bod y pynciau a'r cyfnodau â blaenoriaeth yn cael eu dewis yn flynyddol gan ddefnyddio data Cyfrifiad y Gweithlu Ysgolion a data'r Awdurdod Ystadegol Addysg Uwch. Mae'r broses nodi hon, medden nhw, yn golygu y gall Llywodraeth Cymru dargedu cymhellion. Pwysleisiwyd nad "ymarfer ystadegol yn unig yw hyn, a bod yn rhaid defnyddio ffactorau cyd-destunol i bennu'r rhestr derfynol o bynciau â blaenoriaeth"[318].

**155.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod cymhellion yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Tynnodd sylw at y cyfoeth o ymchwil o bob cwr o'r DU, gan gynnwys ymchwil Llywodraeth Cymru ei hun o 2019. Cytunodd ag eraill fod y dystiolaeth ar eu heffeithiolrwydd yn gymysg ond y bydd yn haws gwneud penderfyniad cadarn ar y defnydd a wneir ohonynt ar ôl i'r gwerthusiad a'r ymchwil presennol gael eu cwblhau yn 2026.[319]

**156.** Roedd canfyddiadau'r ymchwil a wnaeth Cyngor y Gweithlu Addysg ar ran Llywodraeth Cymru yn 2019 yn amhendant. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn awgrymu:

> *"… while incentives were one of the levers, there were stronger arguments around the attractiveness of the profession,*

---

[315] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[316] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[317] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[318] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[319] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 15

> *continued support for early career development, and also opportunities for progression.*[320]

**157.** Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y dystiolaeth a roddwyd i ni am y gwahaniaeth sylweddol rhwng bwrsariaethau yng Nghymru a Lloegr. Nododd, er bod gan Loegr gymhellion mwy hael, eu bod nhw'n dal i brofi heriau tebyg ar gyfer pynciau STEM.[321] Dywedodd ei bod hi'n awyddus iawn i edrych ar beth arall y gallwn ni ei wneud yn y maes hwn, gan ystyried y cyfyngiadau cyllidebol mae hi'n eu hwynebu. Ailadroddodd ei hymrwymiad i edrych ar gymhellion eto, a nododd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei lywio gan y gwaith sy'n mynd rhagddo.[322] Nododd ei fod yn gymhleth ac na allai penderfyniadau gael eu cysylltu â chymhellion yn unig.[323]

**158.** O ran cadw, yn hytrach na recriwtio athrawon yn unig, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw hefyd at y Fwrsariaeth Cadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg. Mae'r fwrsariaeth hon gwerth £5,000 ar agor i athrawon sydd wedi ennill SAC ers mis Awst 2020 ac sydd wedi gwneud tair blynedd o addysgu Cymraeg neu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwchradd. Bydd y fwrsariaeth ar gael tan hydref 2028, a "bydd yn rhoi data inni ar b'un a yw cyflwyno bwrsariaeth yn annog athrawon i ymuno â'r proffesiwn ac aros ynddo"[324].

## Effaith cyd-destun ariannol heriol ar gyfer darparwyr

**159.** Rydym yn ymwybodol iawn o'r hinsawdd ariannol heriol a wynebir gan sefydliadau addysg uwch sy'n cynnig darpariaeth AGA. Rydym wedi bod yn edrych ar y mater hwn yn fanylach.[325] Fodd bynnag, cafodd hyn ei godi hefyd yn yr ymchwiliad hwn mewn perthynas â darparu AGA.

**160.** Dywedwyd wrthym fod hyfywedd rhaglenni AGA yn dibynnu'n fawr ar incwm ffioedd gan fyfyrwyr. Ffioedd yw'r brif ffynhonnell ar gyfer cyllid AGA. Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru fod AGA yn wynebu heriau penodol oherwydd nad yw gostyngiadau mewn costau ar gyfer cyrsiau eraill, fel cynyddu cymhareb staff: myfyrwyr neu ganoli'r ddarpariaeth yn bosibl ar gyfer AGA. Fel yr oeddent yn ei ddeall, nid yw AGA yn cael cyllid ychwanegol am nad yw'n cael ei hasesu fel pwnc cost uchel, yn wahanol i rai cyrsiau iechyd. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod yna

[320] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 16
[321] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[322] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 16
[323] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[324] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[325] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tudalen ymchwiliad Materion sy'n wynebu'r Sector Addysg Uwch [cyrchwyd 21 Hydref 2024]

nifer o gostau ychwanegol megis costau lleoli, neu gefnogi partneriaethau rhwng ysgolion.[326]

**161.** Yn ôl Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, mae AGA yn ddrud ond mae angen iddo fod oherwydd yr angen i gefnogi ysgolion i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at y ffaith bod gan broffesiynau eraill fel iechyd fodel gwahanol i fodel AGA.[327] Cafodd y safbwyntiau hyn eu hadleisio gan Bartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe, a ddywedodd fod system sy'n seiliedig ar y farchnad yn anodd ar gyfer AGA:

> *"… because we value, for example, the training of computer science teachers much more highly than we will the fact that there may only be three of them. We need to have these people, and it needs to be funded in a way that allows it to be sustainable, really, for universities to continue with high-quality ITE provision."*[328]

**162.** Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gyda'r "argyfwng" ariannol presennol yn y sector addysg uwch, na fydd cyrsiau nad ydynt yn talu eu ffordd yn cael eu cynnal hyd yn oed pan fyddant yn cyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'n bosibl iawn y gall darpariaeth AGA "[g]wympo i'r categori hwn". Roeddent yn pryderu y gallai hyn arwain at ddarpariaeth "sy'n fwy mympwyol ac anstrategol fyth o safbwynt Cymru-gyfan". Yn ogystal, roedd pryderon ynghylch yr effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg lle mae llai o fyfyrwyr.[329]

**163.** Dywedodd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, fod yn rhaid i raglenni achrededig fod yn hyfyw yn ariannol ar gyfer partneriaethau AGA.[330] Galwodd Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon ar i fodel sy'n hyfyw yn ariannol gael ei ddatblygu ar gyfer AGA. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith nad yw incwm ffioedd wedi cadw i fyny â chwyddiant. Awgrymwyd hefyd fod angen i anghenion ehangach darparwyr AGA

[326] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 77
[327] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 81
[328] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 82-83
[329] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[330] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 28, Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

gael eu hystyried wrth ddyrannu lleoedd, neu y dylai Cymru ddilyn Lloegr a chael gwared ar yr holl reolaethau recriwtio.[331]

**164.** Clywsom fod darparwyr AGA yn aml wedi defnyddio gor-recriwtio i ddarpariaeth AGA gynradd er mwyn helpu i sybsideiddio darpariaeth AGA uwchradd llai poblogaidd. Dywedodd Estyn fod y dystiolaeth o'u harolygon yn dangos bod gor-recriwtio i ddarpariaeth gynradd yn cael ei ddefnyddio i sybsideiddio gweddill y ddarpariaeth AGA.[332] Tynnodd y Brifysgol Agored yng Nghymru sylw at y ffaith bod y gostyngiad mewn AGA gynradd yn peri risg ariannol i'r holl ddarpariaeth AGA.[333] Yn y dyfodol, gallai hyn achosi problemau yng nghyd-destun y gostyngiad a ragwelir yn nifer y disgyblion ar y gofrestr, y tynnir sylw ato ym mharagraff 21. Bydd hyn yn effeithio ar y sector cynradd cyn y sector uwchradd.

**165.** Dywedodd Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon[334] a'r Brifysgol Agored yng Nghymru[335] ill dau fod darpariaeth AGA yn wynebu mwy o graffu mewnol o fewn addysg uwch, yn enwedig oherwydd yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

**166.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod partneriaethau rhwng prifysgolion ac ysgolion yng Nghymru wedi colli tua £6.3 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru oherwydd tan-recriwtio i gyrsiau TAR yn 2023/24. "Mae colli'r cyllid hwn o un flwyddyn i'r llall yn ddiffyg mawr o ran incwm posibl y mae mawr angen amdano ar gyfer ysgolion a phrifysgolion"[336].

**167.** Gwnaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru ein hatgoffa ni fod staffio mewn addysg uwch yn aml yn fodel staffio synergyddol gyda staff TAR hefyd yn addysgu ar gyrsiau a modiwlau eraill. Mae hyn yn golygu bod unrhyw risg i AGA yn gallu effeithio ar y ddarpariaeth ehangach o fewn cyfadran hefyd.[337]

**168.** Cododd y Sefydliad Ffiseg bryderon nad oes gan AGA yng Nghymru yr un lefel o gyllid na buddsoddiad ag sydd gan gymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU.[338]

---

[331] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[332] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[333] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[334] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[335] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[336] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.2
[337] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 76
[338] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 174

**169.** Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cabinet yr heriau sy'n wynebu addysg uwch ar hyn o bryd, a chyfeiriodd at y gwaith y mae Medr yn ei wneud yn edrych ar y galw am bynciau a dosbarthiad darpariaeth addysg uwch yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried unrhyw ymyriadau posibl y gall fod eu hangen i gefnogi meysydd pwnc o bwys strategol. Roedd disgwyl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi yn yr hydref.[339]

**170.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn ymwybodol o'r pryderon sydd gan bartneriaethau AGA ynghylch costau darparu. Derbyniodd fod yna gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag AGA. Dywedodd y byddai gwaith Medr yn helpu, gan gynnwys o ran y mater o fannau lle mae diffyg darpariaeth. Cydnabu bwysigrwydd cael darpariaeth ledled y wlad ar gyfer pynciau israddedig, oherwydd bod hynny hefyd yn cael effaith ar recriwtio i AGA, gan fod partneriaethau AGA yn weithgar iawn wrth hyrwyddo AGA i'w myfyrwyr y maent yn eu haddysgu beth bynnag. Dywedodd ei bod, ar y pwynt hwnnw, yn archwilio opsiynau ynghylch sut y gellid cefnogi darparwyr AGA, ac y byddai penderfyniad terfynol yn cael ei wneud cyn y gyllideb.[340]

**171.** Ar ôl i ni orffen casglu tystiolaeth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27. Rhoddodd Llywodraeth Cymru £2.5 miliwn ychwanegol i Medr i'w ddefnyddio i helpu prifysgolion gyda chostau AGA.[341] Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod hyn o ganlyniad i sylwadau a wnaethpwyd gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, ac i'w hymweliad ei hun â darpariaeth AGA Prifysgol Abertawe.[342] Dywedodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch fod nifer o Is-gangellorion wedi codi pryderon ynghylch y ffaith bod yn rhaid i brifysgolion sybsideiddio darpariaeth AGA. Mae hyn mewn cyferbyniad â chyrsiau gofal iechyd a gaiff eu comisiynu drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru a'u hariannu'n llawn. Yn 2024-25, gwariodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ychydig o dan £1 filiwn a gwariodd Prifysgol Bangor ychydig dros £400,000. Dywedodd fod hwn yn teimlo fel maes a oedd yn gwbl briodol i'w adolygu yn ôl pob golwg a nododd ei bod yn falch bod yr arian ychwanegol hwn wedi cael ei roi i ddarparwyr.[343]

[339] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 28
[340] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 27 a 30
[341] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant Addysg, 27 Tachwedd 2025
[342] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 14
[343] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 89-90

## Heriau penodol i addysg cyfrwng Cymraeg

**172.** Daeth ein diddordeb a'n pryder ynghylch y materion sy'n wynebu recriwtio a chadw i'r amlwg drwy'r gwaith craffu a wnaethom ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), fel yr oedd bryd hynny. Un o'r rhwystrau allweddol i weithredu'r hyn sy'n Ddeddf nawr yn effeithiol, ac i wireddu nod Cymraeg 2050, yw sicrhau bod digon o staff mewn ysgolion a all naill ai addysgu'r Gymraeg fel pwnc neu addysgu pynciau drwy'r Gymraeg.

**173.** Unwaith eto, roedd yn thema allweddol drwy gydol y dystiolaeth, o ran recriwtio i AGA ac yna i swyddi addysgu. Er i ni glywed bod cyfraddau cadw yn ychydig yn uwch ar gyfer staff cyfrwng Cymraeg, sef 79 y cant o gymharu â 75 y cant mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Serch hynny, nid ystyriwyd bod y gyfradd gadw uwch hon yn wahaniaeth sylweddol.[344] Er bod llawer o'r materion cyffredinol rydyn ni'n eu trafod mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn yn amlwg yn berthnasol i addysg cyfrwng Cymraeg hefyd, mae yna rai materion penodol y mae'n bwysig tynnu sylw atynt.

**174.** Mae yna rai pryderon ynghylch y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dod i mewn, sy'n golygu bod yna lai a allai addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio Cymraeg ar lefelau uwch, fel Safon Uwch neu radd yn cael effaith sylweddol ar hyn. Cafodd hyn ei godi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[345]; y Brifysgol Agored yng Nghymru[346]; a Chomisiynydd y Gymraeg[347].

**175.** Clywsom ei bod yn bwysig cynnal sgiliau Cymraeg o'r sector cynradd, i'r uwchradd, i addysg bellach neu uwch ac yna i gyflogaeth.[348]

**176.** Roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn pryderu am y "cylch dieflig" o ran y niferoedd isel sy'n astudio'r Gymraeg ar lefel Safon Uwch, ac effaith hyn ar y gronfa o ymgeiswyr posibl ar gyfer addysgu Cymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnaethant alw ar i bob dysgwr sydd am sefyll Cymraeg Safon Uwch gael ei gefnogi i wneud hynny.[349] Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg eu bod wedi cael gwybod bod y Gymraeg fel pwnc ar ôl TGAU yn "fregus" ac yn gwaethygu. Nodwyd bod hyn yn rhannol oherwydd bod llai o leoedd yn cynnig y Gymraeg, a

[344] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 89
[345] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[346] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[347] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 15 Comisiynydd y Gymraeg
[348] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 263
[349] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol

bod “tuedd gynyddol” i awdurdodau lleol gynnig darpariaeth Gymraeg ar-lein yn hytrach na darpariaeth wyneb yn wyneb. Mae darpariaeth dysgu ar-lein yn llai deniadol i fyfyrwyr, ac felly mae dysgwyr a allai fod wedi astudio Cymraeg yn dewis pynciau a gynigir wyneb yn wyneb.[350]

**177.** Tynnodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sylw at y ffaith bod y data diweddaraf yn dangos prinder o 225 o athrawon uwchradd, a 153 o athrawon cynradd yn dod trwy AGA o gymharu â’r niferoedd sydd eu hangen i gyrraedd targedau Cymraeg 2050. Mae’r prinder hwn, medden nhw, yn gadael ysgolion “yn argyfyngus o brin, gyda’r bygythiad a ddaw yn sgil hynny i’r hyn y mae modd ei ddarparu i ddisgyblion”.

**178.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg mai dim ond tri o blith 27 o athrawon mathemateg newydd, a dim ond dau o blith saith athro ffiseg newydd, a gafodd eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.[351] Gwnaethant ddweud bod Llywodraeth Cymru eisiau gweld 30 y cant o AGA yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyffredinol, ond dim ond tua 20 y cant a ddarperir ar gyfer y sector cynradd a 18 y cant ar gyfer y sector uwchradd. Gwnaethant ddweud bod partneriaethau AGA yn ymdrechu’n galed i gyrraedd y targedau hyn.[352] Nododd Estyn fod y niferoedd sy’n gwneud pynciau uwchradd AGA drwy gyfrwng y Gymraeg yn eithriadol o isel a bod gostyngiad amlwg wedi bod yn y niferoedd hyn dros y 10 mlynedd diwethaf.[353]

**179.** Nododd y Sefydliad Ffiseg mai dim ond dwy o’r pedair partneriaeth AGA sy’n cynnig AGA ffiseg sydd â thiwtor Cymraeg.[354]

**180.** Tynnodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd sylw hefyd at y ffaith bod y “twf” mewn cyfleoedd eraill i raddedigion Cymraeg eu hiaith wedi “gwneud mwy na gwrthweithio’r twf yn y sector ysgolion cyfrwng Cymraeg”.[355]

**181.** Yn ymarferol, mae’r prinder hwn, fel yr adroddodd Pennaeth Gwyddoniaeth i’r Sefydliad Ffiseg, yn edrych fel ‘Tetris athrawon’ mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lle mae symudiad mewn un ysgol yn creu bwlch mewn un arall.[356] Yn ôl Prifysgol Metropolitan Caerdydd, bydd ysgolion weithiau’n defnyddio strategaethau recriwtio “a fydd yn cael effaith negyddol ar y system addysg ehangach”. Gall hyn

[350] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 15 Comisiynydd y Gymraeg
[351] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[352] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 31
[353] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[354] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[355] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 3.13
[356] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 16

edrych fel bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn recriwtio'r "holl fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg o'r AGA y gallant, ac yna eu defnyddio lle mae ganddynt fylchau mewn pynciau, gan atal ysgolion, sy'n addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, rhag recriwtio arbenigwyr pwnc Cymraeg"[357].

**182.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg, er bod targedau wedi'u gosod ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, fod y diffyg cynnydd wedi bod yn bryder "ers blynyddoedd". Mae cysylltiad rhwng hyn a materion fel llai o geisiadau am swyddi cyfrwng Cymraeg a heriau recriwtio cyffredinol ar gyfer swyddi gwag cyfrwng Cymraeg.[358]

**183.** Mae'r materion yn effeithio ar y niferoedd sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch hefyd. Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod tua 7,000 o fyfyrwyr yn astudio rhan o'u gradd yn Gymraeg.[359] Dywedodd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol fod pynciau STEM cyfrwng Cymraeg yn wynebu pwysau ychwanegol oherwydd y nifer isel o fyfyrwyr AGA sy'n dewis addysgu gwyddoniaeth drwy'r Gymraeg.[360] Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod pryderon penodol ynghylch recriwtio athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth cyfrwng Cymraeg.[361]

**184.** Mae gan Medr ddyletswydd strategol i hyrwyddo addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg, ac fel rhan o'r ddyletswydd hon, mae'n rhaid iddynt annog galw a chyfranogiad.[362] Gwnaethom ystyried hyn wrth graffu ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) pan oedd yn mynd trwy'r Senedd cyn cael Cydsyniad Brenhinol.[363]

**185.** Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn chwarae rôl hefyd, gan weithio gyda phawb yn y sector addysg a chyflogwyr i hyrwyddo astudio a hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys:

- Dysgu'r Dyfodol. Mae'n hyrwyddo AGA drwy gynnig mentora a phrofiad gwaith gyda myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sy'n siarad Cymraeg.

---

[357] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 4.7
[358] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 15 Comisiynydd y Gymraeg
[359] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[360] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[361] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[362] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[363] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), Mawrth 2022, Pennod 4

- Cadw Cyswllt. Er bod y cynllun hwn yn ehangach na dim ond addysgu, mae'n annog myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i ddychwelyd i Gymru, a gall hyn gynnwys cyrsiau AGA.
- Creu a dosbarthu deunyddiau hyrwyddo am addysgu fel gyrfa sydd wedi'u targedu at siaradwyr Cymraeg.[364]

**186.** Tynnodd ACT sylw at y cyfle i ehangu fframweithiau prentisiaeth i gwmpasu addysg cyfrwng Cymraeg. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn helpu i greu llif o dalent yn ogystal â mynd i'r afael â'r prinder athrawon a chynorthwywyr addysgu cyfrwng Cymraeg.[365]

**187.** Awgrymodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe y byddai rhaglenni Gwella'r Gymraeg a ariennir yn genedlaethol yn helpu i greu llwybrau i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.[366]

**188.** Roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn bod recriwtio i AGA uwchradd yn "heriol" a bod hyd yn oed llai yn cael eu recriwtio i ffrydiau cyfrwng Cymraeg.[367] Roeddent yn cytuno bod hyn yn cael ei waethygu oherwydd y niferoedd isel o fyfyrwyr sy'n astudio Safon Uwch yn Gymraeg, sy'n cael ei waethygu ymhellach wedyn gan y niferoedd isel o israddedigion sy'n astudio drwy'r Gymraeg.[368]

**189.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn bryderus iawn ynghylch recriwtio cyfrwng Cymraeg. Dywedodd fod angen i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg fod yn flaenoriaeth uchel i bob rhanddeiliad ac yn rhan allweddol o gynllun y gweithlu"[369]. Dywedodd eu bod yn darparu £0.145 miliwn i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg ar lefel Safon Uwch.[370]

**190.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg ym mis Mai 2022. Mae'r cynllun deng mlynedd hwn yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru ac eraill yn eu cymryd i ddatblygu'r gweithlu Cymraeg mewn ysgolion.[371]

**191.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg nad yw targed Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y myfyrwyr AGA sy'n hyfforddi drwy'r Gymraeg yn cael ei gyrraedd, er

---

[364] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[365] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 07 ACT Ltd
[366] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[367] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[368] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[369] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 50
[370] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 51
[371] Llywodraeth Cymru, cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg, 24 Mai 2022

gwaethaf y gwahanol fentrau, gan gynnwys Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg.[372]

**192.** Holodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru "faint o werthuso gwirioneddol a monitro" sy'n cael eu gwneud o ran y cynllun. Gwnaethant hefyd alw ar Lywodraeth Cymru i ystyried arfer gorau rhyngwladol ar addysgu dwyieithog a'i fanteision.[373] Gwnaethant ddweud bod angen i Lywodraeth Cymru "fynd i'r afael o ddifrif" â materion ynghylch recriwtio a chadw athrawon cyfrwng Cymraeg, gan awgrymu bod angen "strategaethau gydol gyrfa". Gwnaethant ddweud bod Llywodraeth Cymru "ar y funud … [yn] methu er bod yna chwarter canrif o daflu arian wedi bod".[374]

**193.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at rai o'r camau gweithredu yng Nghynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Yn eu plith roedd cynnydd i'r Grant Cyfraniad Cyflog ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ac athrawon pwnc Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn 100 y cant o Fand 1 o raddfa gyflog Athrawon Heb Gymhwyso erbyn hyn. Mae'r grant hwn wedi'i ehangu ymhellach i alluogi ysgolion cynradd a gynhelir i gael mynediad at 50 y cant o'r grant, ac ysgolion uwchradd â "c[h]ategori iaith drosiannol" i gael mynediad at 100 y cant o'r grant i gefnogi athrawon dan hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. Gall ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg gael mynediad at 50 y cant o'r grant.[375]

**194.** Gwnaethant hefyd dynnu sylw at y cyllid ychwanegol ar gyfer cyrsiau AGA sy'n seiliedig ar gyflogaeth y Brifysgol Agored. Caiff costau cyflogaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Ymhlith y mentrau eraill y maent yn eu hariannu roedd Cadw Cyswllt a Dysgu'r Dyfodol (y caiff y ddwy ohonynt eu darparu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol).[376] (Gweler paragraff 185.)

**195.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod eu hymgyrch recriwtio athrawon genedlaethol, Addysgu Cymru, yn canolbwyntio'n benodol ar bynciau â blaenoriaeth mewn ysgolion uwchradd, gan gynnwys "cynyddu'r nifer sy'n gallu addysgu yn Gymraeg". Mae'r negeseuon wedi'u teilwra gyda rhai gwahanol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Nodwyd bod eu hymchwil wedi dangos bod "gan nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg wahanol gymhellion a rhwystrau i ystyried addysgu fel gyrfa. Mae hyn wedi'i atgyfnerthu gan y profion creadigol." Mae eu hymchwil wedi dangos bod graddedigion sy'n siarad Cymraeg "yn fwy tebygol o

[372] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[373] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[374] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 372
[375] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[376] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru

ystyried addysgu fel gyrfa". Bu hysbysebion teledu ar S4C yn y gorffennol er mwyn targedu siaradwyr Cymraeg.[377] Gweler paragraffau 32-42 i gael rhagor o wybodaeth am hyrwyddo addysgu'n fwy eang.

**196.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym am y gwaith maent wedi'i wneud gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn ogystal â gwaith y Coleg a amlygir ym mharagraff 185, mae ganddynt hefyd "weithgareddau penodol sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg mewn nifer o ddigwyddiad haf allweddol" sy'n ymwneud â'r iaith.[378]

**197.** Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wrthym am gynllun peilot ym mis Mehefin 2025, a oedd yn cynnig cwrs 10 diwrnod i ddarpar fyfyrwyr AGA. Er eu bod wedi rhagweld yn wreiddiol y byddai 15 yn cael eu derbyn, roedd 51 wedi cofrestru ar yr adeg y gwnaethant gyflwyno eu tystiolaeth ysgrifenedig.[379] Gwnaethant fyfyrio ar y cynllun peilot hwn wrth roi eu tystiolaeth lafar. Mynychodd 40 o bobl y cwrs.

> *"Cyn iddyn nhw ddod ar y cwrs, roedd 47 y cant yn nodi nad oedd ganddyn nhw hyder yn y Gymraeg; yn dilyn y cwrs—a chwrs pythefnos dwys oedd hwn—roedd 79 y cant yn nodi eu bod nhw'n llawer mwy hyderus i ddilyn cwrs yn y Gymraeg, ac roedd 29 y cant o'r rheini nad oedd yn bwriadu dilyn cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg wedi newid eu meddwl, ac o fis Medi ymlaen mi fyddan nhw yn dilyn cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae yna ymyraethau sydd yn bosib i ni eu gwneud ar fuddsoddiad gweddol bach sydd yn wir yn gwneud gwahaniaeth."*[380]

Roedd hyn, medden nhw, yn dangos y dylid ystyried "[m]odelau … amgen".[381]

**198.** Mewn ymateb i arolygiad Estyn o AGA yn 2023, crëwyd adnoddau i gefnogi darparwyr AGA i gyflwyno'r 35 awr o ddatblygiad iaith sy'n rhan o'r cwrs.[382] Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod y 35 awr "yn hanfodol" a'u bod yn gwneud gwahaniaeth. Ond nodwyd nad yw'n agos at fod yn ddigon. Gwnaethant alw am fwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn ystod hyfforddiant athrawon, ac yna yn ystod blynyddoedd cynnar gyrfa. Gwnaethant ddweud y dylid

[377] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[378] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[379] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 29, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
[380] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 225
[381] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 188
[382] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 29, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

mynd ati i ddatblygu sgiliau iaith drwy gydol y cyfnod hwn “fel cyfanwaith”[383] a all helpu i dywys yr athro “ar hyd y continwwm … dros nifer o flynyddoedd”.[384]

**199.** Roedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o’r farn y gallai newidiadau i AGA fod yn “bellgyrhaeddol” o ran datblygu a chefnogi sgiliau Cymraeg athrawon. Gwnaethant alw ar i nifer yr oriau sy’n cael eu neilltuo i ddatblygu sgiliau Cymraeg myfyriwr gael eu cynyddu i 120. Byddai hyn yn galluogi myfyriwr i gwblhau “lefel gyfan o gynnydd” cyn dod yn athro cymwys. Gwnaethant hefyd alw am fwy o gefnogaeth i’r rhai hynny sydd “ar lefelau uwch” sgiliau Cymraeg, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon hyderus i wneud rhywfaint o’u hyfforddiant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.[385]

**200.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y dylai datblygu sgiliau Cymraeg fod yn orfodol i bawb sy’n hyfforddi yng Nghymru. Gwnaethant hefyd alw ar i Lywodraeth Cymru sefydlu “fframwaith hyfforddiant iaith Gymraeg pum mlynedd a fyddai’n rhan orfodol o hyfforddi a chymhwyso fel athro yng Nghymru”. Er y byddai’n dechrau yn ystod AGA, dylai barhau fel rhan o’r broses sefydlu a datblygu proffesiynol am bedair blynedd cyntaf gyrfa, a byddai’n cael ei deilwra i wahanol lefelau o sgiliau Cymraeg sy’n bodoli eisoes. Byddai gan y fframwaith hwn “y nod hirdymor o sicrhau bod pob athro yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg”[386].

**201.** Roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn derbyn bod y cwrs TAR yn un dwys ond awgrymodd, pe bai’r cwrs yn cael ei ymestyn i “dros 10 mis neu 11 mis” y byddai’n llai dwys ac y byddai hefyd yn galluogi datblygu sgiliau iaith.[387] Gwnaethant hefyd awgrymu y dylai sgiliau iaith gael eu datblygu drwy gydol gyrfa athro.[388]

**202.** Cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg at ddata Cyfrifiad y Gweithlu Ysgolion sy’n dangos mai “ychydig iawn o newid cadarnhaol” sydd wedi bod yn sgiliau Cymraeg athrawon dros y tair blynedd diwethaf. Dangosodd yr arolwg hwn hefyd fod “nifer uchel o athrawon mewn rhai awdurdodau lleol” heb unrhyw sgiliau Cymraeg neu sgiliau lefel mynediad yn unig.[389]

**203.** Mae gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol raglen genedlaethol ar gyfer helpu i ddatblygu sgiliau Cymraeg o fewn y “gweithlu addysg statudol”.

[383] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 192
[384] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 192
[385] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 29, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
[386] Tystiolaeth ysgrifenedig, TR15 Comisiynydd y Gymraeg
[387] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 180
[388] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 194
[389] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 15 Comisiynydd y Gymraeg

Mae'r rhaglen hon yn darparu cyfleoedd i'r rhai sy'n ymgymryd ag AGA. Mae hefyd yn cynnwys cyrsiau Cymraeg proffesiynol ar lefel gloywi ar gyfer darpar athrawon sydd eisiau bod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg.[390]

**204.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at grant datblygu capasiti'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg, sydd oddeutu £800k fesul blwyddyn academaidd. Mae'r grant hwn yn helpu i gefnogi ysgolion "i ddatblygu ffyrdd arloesol o ddatrys rhai o'u heriau recriwtio".[391]

**205.** Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at fentrau yn cynnwys Cynllun Pontio, sy'n cefnogi athrawon ysgolion cynradd i ddod yn athrawon mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn fuddsoddiad pellach o £1.5 miliwn.[392] Ond dywedodd fod angen mwy o waith i uwchsgilio'r 1,590 o athrawon sy'n gallu addysgu yn y Gymraeg ond nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd. O ganlyniad, maent yn rhoi dros £2 filiwn i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynyddu'r capasiti hwn.[393]

## Recriwtio i'r swydd

**206.** Clywsom am y nifer uchel o leoedd gwag ledled Cymru, er bod yr heriau'n anoddach ar gyfer: pynciau lle mae prinder, gan gynnwys STEM, a chyfrwng Cymraeg; rhai mathau o ysgolion; neu mewn rhai ardaloedd daearyddol penodol. Fel gydag AGA, y sector uwchradd sy'n wynebu'r heriau yn bennaf.

**207.** Cawsom ein hatgoffa gan y Brifysgol Agored yng Nghymru nad yw recriwtio AGA yn gyfystyr â recriwtio athrawon. Soniwyd nad yw pob myfyriwr TAR eisiau addysgu mewn ysgolion a gynhelir, ac efallai eu bod yn chwilio am yrfaoedd mewn unrhyw nifer o rolau sy'n gysylltiedig ag addysg.[394] Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y bydd nifer o fyfyrwyr AGA yn penderfynu "cefnu ar ddysgu fel gyrfa ac ymgeisio am swyddi mewn meysydd eraill" ar ddiwedd eu hastudiaethau AGA. Cyfeiriwyd at ystadegau Cyngor y Gweithlu Addysg a oedd yn dangos bod "gwahaniaeth o 15.5%" rhwng y sawl y dyfernir SAC iddynt a'r rhai sy'n cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.[395]

[390] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 29, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
[391] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[392] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 51
[393] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 52
[394] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 08 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[395] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**208.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod "nifer gynyddol o ANG" yn dewis gweithio fel athrawon cyflenwi yn hytrach nag ymgymryd â swydd barhaol, er bod hyn yn arwain at delerau ac amodau cyflogaeth gwaeth.[396]

**209.** Roedd yna thema gyson mai recriwtio oedd un o'r heriau mwyaf a oedd yn wynebu penaethiaid, gan gynnwys gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.[397] Rhannodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru ganfyddiadau o'u harolwg lle roedd 95 y cant o ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd recriwtio. Dywedodd 42.8 y cant eu bod yn ei chael hi'n anodd iawn, ac nid oedd 69.4 y cant wedi cael unrhyw ymgeiswyr ar gyfer rhai swyddi.[398]

**210.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod penaethiaid yn nodi bod yn rhaid iddynt hysbysebu swydd ddwy neu dair gwaith cyn y byddant yn cael hyd yn oed un cais.[399] Gwnaethant hefyd dynnu sylw at y ffaith y bydd rhai ysgolion yn hysbysebu am bynciau eraill fel Addysg Gorfforol neu Ddrama, pan fydd ganddyn nhw swyddi gwag eraill, fel Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Saesneg gan obeithio y bydd yr ymgeiswyr yn "dangos rhywfaint o botensial ar gyfer addysgu'r meysydd hyn fel pwnc cyntaf neu ail bwnc"[400].

**211.** Clywsom yn uniongyrchol am yr heriau wrth ymgysylltu ag athrawon a phenaethiaid. Dywedodd un:

> *"Y gwir mewn gwirionedd yw, yn ystod y 12 mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld sefyllfa lle roedd recriwtio yn iawn yn mynd i ddrwg, ac yn mynd o ddrwg, i drychinebus."*[401]

**212.** Clywsom fod gostyngiad sylweddol ac amlwg wedi bod yn nifer yr ymgeiswyr sy'n gwneud cais am swyddi gwag. Mae hyn wedyn yn rhoi straen ar athrawon ac arweinwyr ysgolion presennol. Dywedodd Estyn fod ysgolion ledled Cymru wedi nodi hyn, gydag ysgolion uwchradd yn enwedig yn wynebu trafferthion. Mae nifer cyfartalog yr ymgeiswyr fesul swydd wag wedi mwy na haneru ers 2011. Mewn cyferbyniad, mae recriwtio i ysgolion cynradd wedi parhau i fod yn gymharol lwyddiannus.[402] Nododd y Sefydliad Ffiseg fod nifer cyfartalog yr ymgeiswyr ar gyfer pynciau gwyddoniaeth wedi gostwng o 12.5 yn 2011 i 3.9 yn 2023.

---

[396] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 4.11
[397] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[398] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[399] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 4.2
[400] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 4.4
[401] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 17, Medi 2025
[402] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn

Gwnaethant ddweud mai ffiseg oedd un o'r pynciau sydd wedi cael eu taro waethaf. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod llai o athrawon a hyfforddwyd ym maes ffiseg (174) nag ysgolion uwchradd (205) yn 2024. Gwnaethant ddweud bod 58 y cant o ysgolion uwchradd yn teimlo nad oedd digon o staff ganddynt ar gyfer ffiseg, sy'n llawer uwch nag yng ngwledydd eraill y DU.[403]

**213.** Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod prinder sylweddol mewn nifer o bynciau gan gynnwys mathemateg, gwyddoniaeth, Cymraeg, cerddoriaeth, ieithoedd tramor modern a TG.[404] Nododd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol mai ychydig iawn o geisiadau y mae ysgolion yn eu derbyn yn aml ar gyfer swyddi gwyddoniaeth, os o gwbl.[405] Yn ôl Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe, mae ysgolion yn nodi mai cronfeydd bas iawn o ymgeiswyr sydd ganddynt ar gyfer pynciau fel Mathemateg, Ffiseg a Chymraeg.[406]

**214.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod awdurdodau lleol yn dweud bod "prinder critigol yn y meysydd canlynol: y Gymraeg, Mathemateg, Gwyddoniaeth (yn enwedig Cemeg a Ffiseg), TGCh, Technoleg, Daearyddiaeth, Ieithoedd Tramor Modern"[407].

**215.** Tynnodd Estyn sylw hefyd at gerddoriaeth fel pwnc a all wynebu anawsterau.[408] Yn ogystal â manylu ar y pynciau a restrwyd eisoes yn 213-214 (ac eithrio Cerddoriaeth), dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod Saesneg hefyd yn ei chael hi'n anodd.[409] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod pynciau yr oedd hi'n hawdd recriwtio iddynt yn draddodiadol fel Saesneg, Daearyddiaeth a Chelf a Dylunio yn wynebu heriau nawr.[410]

**216.** Fel y gwelir o'r pynciau a nodwyd, mae heriau yn ymestyn nawr y tu hwnt i'r pynciau lle gwelir prinder yn draddodiadol. Dyma farn dau bennaeth uwchradd a siaradodd â ni fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu:

---

[403] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[404] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[405] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 16
[406] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[407] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[408] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[409] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 12
[410] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 129

*"Y tu hwnt i Addysg Gorfforol efallai ac efallai Hanes, mae'r heriau'n enfawr ac nid yw'n gwella. Mae'n mynd yn waeth ac yn waeth bob blwyddyn."*

*"Rwy'n credu y byddwn ni'n cyrraedd pwynt lle byddwn ni'n rhedeg allan o athrawon rwy'n ofni. Bydd yn rhaid i ni roi'r gorau i addysgu rhai pynciau."*[411]

**217.** Fel gyda'r problemau wrth recriwtio i AGA cyfrwng Cymraeg, mae'r problemau hyn yn parhau wrth recriwtio i swyddi neu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ymhlith y rhai a dynnodd sylw at hyn roedd:

- Prifysgol Metropolitan Caerdydd[412];
- Estyn[413];
- Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru[414];
- Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[415];
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[416].

**218.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod unrhyw heriau a welir mewn ysgolion uwchradd yn cael eu chwyddo o ran lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Yn ôl y Cyngor, mae penaethiaid uwchradd yn adrodd ei bod hi'n anodd iawn, iawn cael unrhyw athro newydd mewn pynciau â blaenoriaeth pan mae'n gyfrwng Cymraeg"[417].

**219.** Mae prinder athrawon hefyd yn fwy amlwg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd sy'n fwy difreintiedig yn gymdeithasol-economaidd.[418]

[411] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 19, Medi 2025
[412] Tystiolaeth ysgrifenedig, Tystiolaeth ysgrifenedig, PA39, Prifysgol Caerdydd
[413] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[414] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 20 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, paragraff 3.7
[415] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 10
[416] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[417] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 32
[418] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 4.8

**220.** Clywsom y gall rhai ardaloedd daearyddol gael trafferth llenwi swyddi gwag, er enghraifft ardaloedd gwledig neu anghysbell.[419] Er enghraifft, gall ysgolion ar hyd y ffin â Lloegr fanteisio ar gronfa ehangach o ymgeiswyr, o gymharu â'r rhai yng Ngogledd neu Orllewin Cymru.[420] Adroddodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol eu bod wedi cael gwybod bod ysgolion gwledig ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ei chael hi'n arbennig o anodd llenwi swyddi cemeg gwag.[421]

**221.** Gall diffyg tai fforddiadwy fod yn her ychwanegol mewn rhai ardaloedd gwledig. Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, mae hyn yn her benodol mewn ardaloedd sydd "wedi'u heffeithio gan y cynnydd o ran perchnogaeth ail gartrefi a chartrefi gwyliau". Nodwyd hefyd fod y rhain yn aml yn ardaloedd â niferoedd uwch o raddedigion sy'n siarad Cymraeg, sy'n ei gwneud hi'n anoddach recriwtio i swyddi Cymraeg.[422]

**222.** Yn gadarnhaol, clywsom fod ysgolion sy'n ymwneud ag AGA yn nodi bod hyn yn ffactor allweddol wrth recriwtio'n llwyddiannus i swyddi, yn eu barn nhw.[423]

**223.** Roedd Llywodraeth Cymru yn glir iawn, er bod materion cenedlaethol yn fater iddyn nhw, mai cyfrifoldeb ysgolion unigol yw recriwtio i swyddi penodol, ac mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw materion a wynebir gan ardaloedd penodol.

> *"Mae'r heriau staffio a wynebir gan ysgolion yn hynod gyd-destunol ac efallai na fydd pryderon ar lefel genedlaethol (megis lefel recriwtio AGA i'r sector cynradd, pynciau STEM ac addysg cyfrwng Cymraeg) yn gymwys ar lefel leol. Awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu fel y cyrff cyflogi sydd yn gyfrifol am gyflogi athrawon mewn ysgolion. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod digon o staff addas yn cael eu cyflogi neu'n gweithio yn eu hysgol(ion), er mwyn darparu addysg sy'n briodol i oedran, doniau, galluoedd ac anghenion eu dysgwyr."*[424]

[419] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 20 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, paragraff 3.7; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[420] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 21, Medi 2025
[421] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 16
[422] Tystiolaeth ysgrifenedig, TR22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[423] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[424] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru

**224.** Nododd Llywodraeth Cymru fod y data'n dangos bod nifer cyfartalog yr ymgeiswyr fesul swydd wedi gostwng ers 2020/21. Serch hynny, mae dysgu Cymraeg fel pwnc wedi gweld cynnydd.

> *"Mae nifer cyfartalog y ceisiadau am swyddi mewn pynciau â blaenoriaeth ..., yn gyson is na nifer cyfartalog y ceisiadau ar gyfer pob swydd uwchradd (5.2). Cafodd swyddi Cemeg (1.8 cais fesul swydd), Technoleg Gwybodaeth (2.0), Bioleg (2.9), Dylunio a Thechnoleg (3.0) a Chymraeg (3.2) y nifer isaf o geisiadau fesul swydd ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Mae hyn yn cymharu ag Addysg Gorfforol (8.3), Hanes (8.0) a Saesneg (5.0) sy'n cael nifer uwch o geisiadau fesul swydd ar gyfartaledd yn gyson."*[425]

**225.** Yn fwy cyffredinol, nifer cyfartalog y ceisiadau fesul swydd yn 2023/24 oedd 10, cynnydd o 7.8 yn 2022/23, ond yn dal yn is na'r 12.0 yn 2020/21. Mae cryn wahaniaeth rhwng lleoliadau, gyda rhai cynradd yn derbyn 15.2 o geisiadau fesul swydd ar gyfartaledd, o gymharu â 5.2 cais fesul swydd mewn ysgolion uwchradd.[426]

**226.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod yr heriau recriwtio yn amrywio yn ôl lleoliad. Tynnodd sylw at ddata a oedd yn dangos bod y nifer cyfartalog uchaf o geisiadau fesul swydd yn 2023/24 mewn ardaloedd trefol fel Caerdydd, Casnewydd, Bro Morgannwg ac Abertawe. Roedd y nifer cyfartalog isaf o geisiadau fesul swydd yng Ngheredigion, Powys, Sir Ddinbych, Sir Benfro ac Ynys Môn. Dywedodd fod gwaith ar y gweill gyda'r partneriaethau AGA i geisio mynd i'r afael â'r heriau y mae ysgolion gwledig yn eu hwynebu. Mae un cam gweithredu yn cynnwys Ceredigion a Phowys yn ffurfio partneriaeth canolbarth Cymru, a gweithio gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i archwilio'r posibilrwydd o raglen gyfunol a fyddai'n ceisio hyfforddi athrawon cymwys yn yr ardal ddaearyddol.[427]

**227.** Soniodd yr Ysgrifennydd Cabinet am waith arfaethedig gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod data ar lefel awdurdod lleol:

> *"... where we work closely with them to really drill down into what the challenge is, is really important, because we don't have that data at a really detailed local level at the moment,*

[425] Tystysgrif ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[426] Tystysgrif ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[427] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 45

> *so we haven't got live data on the number of vacancies, we haven't got an understanding of local-level trends in terms of retention, reasons for leaving the profession, the age profile of the workforce. So, we need to do that work with local authorities."*[428]

**228.** Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Sefydliad Polisi Addysg i ystyried sut y gellir annog athrawon i weithio mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad a'i bod yn awyddus i weithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i gymell athrawon i weithio yn yr ysgolion hyn. Roedd hyn yn gymhleth, ond gallai gynnwys cymorth ar gyfer costau teithio neu fwrsariaethau.[429]

## Ein barn ni

**229.** Ers i ni benderfynu gwneud y gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i ddatblygu Cynllun y Gweithlu (gweler paragraff 8). Rydym yn croesawu hyn. Rydym yn gobeithio y bydd y dystiolaeth a gasglwyd gennym a'n casgliadau yn helpu i lywio'r Cynllun fel bod Cymru yn gallu datblygu gweithlu addysgu o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy, yn iach ac yn hapus.

**230.** Mae gan addysgu broblem o ran canfyddiad. Yn aml, mae'r llawenydd a'r manteision sy'n gysylltiedig â gyrfa addysgu yn cael eu colli wrth i'r sylw gael ei roi i'r heriau go iawn sy'n wynebu'r system addysg. Er bod angen newidiadau sylweddol a fydd yn helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol yr heriau hyn, mae angen rhoi mwy o bwyslais hefyd ar yr elfennau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â dewis gyrfa ym maes addysg.

**231.** Mae rhai o'r materion sy'n ysgogi canfyddiadau negyddol o addysgu, fel llwyth gwaith, ymddygiad heriol ymhlith disgyblion ac effaith y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu trafod yn y Bennod nesaf. Fodd bynnag, nodwn fod y rhain i gyd yn faterion sy'n effeithio ar ganfyddiad, yn ogystal â'r realiti sydd ynghlwm wrth addysgu bob dydd. Gall hyn wedyn gael effaith sylweddol ar recriwtio i AGA, ac yna i swyddi addysgu go iawn.

**232.** Nid ydym am danbrisio'r heriau y mae'r system addysg yn eu hwynebu, a byddwn yn tynnu sylw at lawer ohonynt drwy gydol yr adroddiad. Gall addysgu

[428] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 45
[429] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 46

fod yn heriol, ond mae yna lawer o elfennau cadarnhaol o'r yrfa y mae angen rhoi sylw iddynt a siarad amdanynt yn gyhoeddus.

**233.** Mae addysgu yn broffesiwn sy'n newid bywydau bob dydd. Mae effaith athro yn para ymhell ar ôl i fyfyrwyr adael ystafell ddosbarth neu ysgol. Mae gan bron pawb stori am yr un athro hwnnw a wnaeth wahaniaeth, neu a daniodd gariad at bwnc penodol a ddatblygodd wedyn yn yrfa neu'n angerdd gydol oes. Ond mae athrawon yn gwneud mwy na dim ond newid bywyd un myfyriwr, maent yn cael effaith gadarnhaol ar ddegau os nad miloedd o fyfyrwyr bob blwyddyn. Ychydig iawn o yrfaoedd eraill sy'n cael yr effaith hon sy'n newid bywyd ar y fath raddfa. Ydyn ni'n cymryd yr elfen hon o addysgu yn ganiataol? A ddylid ei dathlu ac a ddylid rhoi mwy o sylw iddi? Rhai o'r adegau gorau yn yr ymchwiliad hwn oedd pan ddechreuodd tystion siarad am pam y gwnaethant fynd i addysgu, a'r hyn yr oeddent yn ei garu am y swydd unigryw ac arbennig iawn hon. Mae'n hanfodol bod yr agweddau hyn ar addysgu yn rhan flaenllaw o unrhyw drafodaethau neu waith i hyrwyddo addysgu fel dewis gyrfa.

**234.** Mae'n amlwg bod angen cryfhau'r canfyddiad o addysgu fel proffesiwn gwerth chweil o ansawdd uchel sy'n denu pobl ifanc a'r rhai sy'n newid gyrfa. Mae'r rhai sy'n addysgu ar hyn o bryd yn chwarae rhan hanfodol wrth lywio'r canfyddiad hwn, gan y gall eu profiadau nhw chwarae rôl sylweddol wrth ddylanwadu ar ddewisiadau darpar athrawon. Fodd bynnag, rydym wedi clywed bod yr heriau sy'n gysylltiedig â'r rôl yn gallu taflu cysgod dros yr elfennau cadarnhaol weithiau, a all effeithio ar apêl y proffesiwn. Gallai cynorthwyo athrawon i rannu darlun cytbwys o'u gwaith helpu i fynd i'r afael â hyn.

**235.** Rydym o'r farn bod gan y grwpiau a'r sefydliadau hynny sy'n gweithio ym maes addysg neu sy'n cynrychioli'r rheini ym maes addysg gyfrifoldeb cymdeithasol a phroffesiynol i rannu natur gadarnhaol addysgu. Rydym yn deall, i rai, bod angen i hyn gael ei gydbwyso â'u dyletswydd i dynnu sylw at y problemau sy'n wynebu'r proffesiwn. Fodd bynnag, mae angen gofalu nad yw elfennau cadarnhaol addysgu yn cael eu taflu i'r cysgod yn gyson wrth wneud hyn.

**236.** Rydym yn gwybod bod ysgolion yn aml yn gwahodd cyn-fyfyrwyr i ddychwelyd a siarad am eu gyrfaoedd. Rydym yn amau mai ychydig iawn o ysgolion sy'n gwahodd cyn-fyfyrwyr sydd wedi mynd i'r maes addysgu. Ac eto, mae hwn yn gyfle gwych i hyrwyddo addysgu fel uchelgais a dewis gyrfa gwerth chweil.

**237.** Mae'r byd gwaith wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae llawer mwy o opsiynau ar gael i bobl. Hefyd, mae pobl yn mynnu gwahanol

bethau o'u bywydau gwaith, ac yn blaenoriaethu agweddau gwahanol fel gweithio hyblyg. Mae'r ffordd rydyn ni'n gweld ein bywydau gwaith wedi newid, yn lle “swydd am oes” mae pobl eisiau mynd ar drywydd gwahanol gyfleoedd ar wahanol adegau yn eu bywydau. Mae'r dull “portffolio” hwn o ymdrin â gyrfaoedd yn creu heriau i'r proffesiwn addysgu, ond mae hefyd yn agor drysau i bobl sy'n ymuno â'r proffesiwn addysgu yn ddiweddarach yn eu gyrfa. Nid yw popeth yn ddu i ragolygon y proffesiwn addysgu, ond mae hyn yn golygu hyrwyddo addysgu mewn gwahanol ffyrdd ac i wahanol grwpiau ac agor mynediad.

**238.** Nid yw'r newid hwn yn y ffordd rydym yn gweithio wedi'i adlewyrchu eto wrth ehangu'r llwybrau i addysgu. Er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud gyda chyflwyno TAR cyflogedig neu ran-amser, mae'r llwybrau hyn yn dal i fynnu gradd israddedig briodol mewn pwnc.

**239.** Yn amlwg, mae angen i unrhyw lwybr amgen i addysgu gynnal y safonau uchaf. Yn union fel mae addysgu yw un o'r swyddi mwyaf gwerth chweil, mae hefyd yn un o'r rhai pwysicaf. Ni ellir colli ansawdd wrth geisio cynyddu nifer yr athrawon. Ond rydym yn credu ei bod hi'n bwysig archwilio llwybrau amgen i addysgu, yn enwedig edrych ar gynlluniau fel Teach First, neu lwybrau sy'n galluogi pobl sydd eisoes yn gweithio ym maes addysg i symud ymlaen i addysgu.

**240.** Rydym am i Lywodraeth Cymru amlinellu'r hyn maent yn teimlo yw'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer harneisio'r cyfleoedd i'r sawl sy'n newid gyrfa ymuno â'r proffesiwn, a chynnal safonau ar yr un pryd. Wrth wneud hyn, credwn y dylent archwilio'r llwybrau amgen gyda'r bwriad o weithredu'r rhai y mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallent helpu mwy o athrawon o ansawdd uchel i ymuno â'r proffesiwn.

**241.** Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar effeithiolrwydd rhaglenni sydd wedi'u cynnal yn flaenorol fel Teach First a'r Rhaglen Athrawon Graddedig. Yn benodol: pa mor effeithiol oeddent wrth wella amrywiaeth y proffesiwn addysgu, a pha mor effeithiol oeddent wrth gefnogi'r sawl oedd yn newid gyrfa i ymuno â'r proffesiwn. Pam y gwnaethpwyd y penderfyniad i ddod â'r rhaglenni hyn i ben, a pha dystiolaeth arweiniodd at wneud y penderfyniadau hyn?

**Argymhelliad 1.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am effeithiolrwydd y rhaglenni Teach First ac Athrawon Graddedig a ddarparwyd yn flaenorol yng Nghymru, gan gynnwys pa mor effeithiol oeddent wrth helpu amrywiaeth ehangach o bobl i ymuno â'r proffesiwn addysgu, a pham y penderfynwyd dod â'r gefnogaeth a roddwyd i'r rhaglenni hyn i ben.

**242.** Mae angen chwalu rhwystrau syml fel proses anhylaw neu anodd ar gyfer gwneud cais am AGA. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i edrych eto ar yr heriau sy'n wynebu'r darparwyr AGA hynny sy'n defnyddio system ymgeisio UCAS. (Gweler paragraffau 82-86).

**243.** Gall y gost sy'n gysylltiedig ag AGA fod yn ffactor negyddol i ddarpar fyfyrwyr. Credwn fod angen rhagor o waith i archwilio i ba raddau y mae costau AGA yn rhwystr, p'un a yw'r costau yn cael effaith anghymesur ar grwpiau penodol o ddarpar fyfyrwyr a'r opsiynau ar gyfer helpu myfyrwyr gyda chostau AGA. Clywsom nifer o syniadau sy'n haeddu ystyriaeth bellach, yn ein barn ni. Credwn y byddai'r gwaith hwn yn ffitio'n dda fel rhan o Gynllun y Gweithlu ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i'w gynnwys fel un o elfennau'r Cynllun.

**Argymhelliad 2.** Fel rhan o'i Chynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, bod Llywodraeth Cymru naill ai'n ymgymryd â gwaith neu'n comisiynu gwaith i weld a yw costau AGA yn rhwystro myfyrwyr rhag cael mynediad iddi a'i chwblhau'n llwyddiannus; p'un a yw'r rhwystrau hyn yn uwch ar gyfer grwpiau penodol o ddarpar fyfyrwyr; a pha opsiynau y gallai fod ar gael i ddileu'r rhwystrau ariannol hyn. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud o fewn cyd-destun yr hinsawdd ariannol sydd ohoni i sicrhau bod unrhyw argymhellion ar gyfer newid yn ddichonadwy ac yn fforddiadwy ac y byddant yn gwella recriwtio a chadw.

**244.** O ran mater penodol, sef a oes angen gradd israddedig y mae o leiaf 50 y cant ohoni'n berthnasol i'r pwnc i gael mynediad i AGA ôl-raddedig, rydym yn croesawu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn y maes hwn. Rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid hynny a nododd fod gwybodaeth berthnasol am bwnc yn gallu dod o sylfaen ehangach na dim ond gradd israddedig. Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan bobl radd israddedig ond ni chaiff ei hystyried yn ddigon perthnasol. Mae angen i unrhyw waith ar hyn gael ei gydbwyso â'r angen i gynnal safonau uchel.

**Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb i'r adroddiad hwn, yn darparu amserlen ar gyfer y gwaith o archwilio'r gofyniad i sicrhau bod 50 y cant o radd yn berthnasol er mwyn ymuno ag AGA.

**245.** Mae'r dystiolaeth ynghylch effaith cymhellion yn amrywio. Credwn fod y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i edrych ar hyn yn bwysig. A fydd yr adolygiad yn rhoi'r atebion sydd eu hangen arnom o ran a yw cymhellion yn gweithio'n effeithiol? Rydym yn deall na fydd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi cyn y bydd y naill adroddiad neu'r llall na Chynllun y Gweithlu yn cael eu cyhoeddi. Felly, nid ydym yn teimlo y byddai'n briodol i ni wneud argymhellion

pendant o ran hyn heb i ni weld y gwaith. Rydym yn disgwyl i'r adolygiad hwn fod yn gynhwysfawr ac rydym yn disgwyl iddo roi gwybodaeth gadarn i Lywodraeth Cymru a fydd yn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn cydnabod y gallai fod gan Lywodraeth nesaf Cymru rai penderfyniadau pwysig i'w gwneud ynghylch cymhellion o ganlyniad i hyn.

**246.** Fel y nodwn, un o'r themâu sydd wedi codi dro ar ôl tro yn y Senedd hon yw diffyg data amserol, sydd ar gael i'r cyhoedd i lywio penderfyniadau polisi a gweithgarwch gwerthuso. Nid yw'r ymchwiliad hwn wedi bod yn wahanol. Mae hyn yn ymwneud â nifer o elfennau gwahanol o'r ymchwiliad hwn, gan gynnwys pennu nifer a dyraniad lleoedd AGA, a recriwtio i swyddi addysgu.

**247.** O ran pryderon ynghylch mannau lle mae diffyg AGA, credwn ei bod yn bwysig bod gennym y data cywir i ddeall effeithiau mannau o'r fath yn well, yn hytrach na gwneud argymhellion ar gyfer darpariaeth AGA ym mhob prifysgol yng Nghymru. Rhaid defnyddio data fel bod Llywodraeth Cymru a darparwyr yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am ddarpariaeth AGA. Bydd deall beth mae'r data yn ei ddweud yn golygu y gellir teilwra ymyriadau polisi yn well i ymateb i'r heriau.

**248.** Rydym yn croesawu'r arian ychwanegol sydd wedi'i ddarparu fel rhan o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru (gweler paragraff 171) i gydnabod y costau ychwanegol i ddarparwyr wrth ddarparu AGA o ansawdd uchel. Mae'r graddau y bydd hyn yn cwmpasu'r costau ychwanegol a'r effaith y bydd yr arian yn ei chael yn rhywbeth y byddwn yn ei nodi fel maes o ddiddordeb i'r Pwyllgor fydd yn eu holynu.

**249.** Er bod pob agwedd ar addysg uwchradd yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon, mae'r sector cyfrwng Cymraeg yn wynebu heriau penodol. Dyma oedd ein llwybr i'r gwaith hwn. Yn ein hadroddiad Cyfnod 1 ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mecanwaith deddfwriaethol mwyaf priodol i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithlu addysg statudol, a oedd yn cwmpasu pob agwedd ar y gweithlu addysg.[430] Gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn yr argymhelliad mewn egwyddor, gan nodi datblygiad arfaethedig Cynllun y Gweithlu heb roi sail statudol iddo.[431]

[430] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil yr Iaith Gymraeg ac Addysg (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1, Rhagfyr 2024, Argymhelliad 3
[431] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 13 Ionawr 2025

**250.** Mae'n amlwg bod rhai sgiliau Cymraeg nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y gweithlu addysg, gyda thros 1,500 o athrawon sydd â sgiliau Cymraeg nad ydynt yn eu defnyddio yn eu rôl bresennol ar hyn o bryd. Rydym yn ymwybodol y gall rhywfaint o hyn fod oherwydd diffyg hyder ynghylch sgiliau Cymraeg yr unigolyn ei hun. Byddai rhoi cymorth i'r bobl hyn allu symud i'r sector cyfrwng Cymraeg yn un ffordd o lenwi'r bwlch presennol. Nid yw'n glir i ni a oes digon o ddealltwriaeth o'r rhesymau ehangach pam nad yw'r athrawon hyn yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. Credwn fod angen archwilio'r mater hwn ymhellach, gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag unrhyw ffactorau penodol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ffactorau sy'n atal athrawon â sgiliau Cymraeg rhag eu defnyddio'n broffesiynol. Unwaith y byddant wedi nodi'r ffactorau hyn, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r cymorth a roddir i'r athrawon hyn ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion ac yn cael ei ddefnyddio yn y ffyrdd mwyaf effeithiol.

**251.** Mae pobl yn gadael Cymru ac yn mynd i Loegr ar gyfer addysg uwch, ac ar gyfer AGA. Gall y bwrsariaethau uwch chwarae rhan yn hyn (gweler paragraffau 146-148), ond nid dyma'r unig ffactor. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu colli i'r gweithlu addysg yng Nghymru am byth. Dylai fod mor hawdd â phosibl i symud rhwng y ddwy system. Mae hefyd yn bwysig bod y naratif cyhoeddus yn gwneud hyn yn glir. Nid ydym eisiau camdybiaethau ynghylch symud i Gymru oherwydd y cwricwlwm gwahanol, na phryderon am sgiliau Cymraeg sy'n atal pobl rhag gwneud hynny. Rhaid i unrhyw fythau o'r fath gael eu chwalu.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw waith sy'n hyrwyddo addysgu yng Nghymru yn nodi'n glir nad yw pobl sydd wedi cael eu hyfforddi i fod yn athrawon yn Lloegr yn wynebu rhwystrau i symud i Gymru i addysgu.

**252.** Mae rhai pynciau a rhai ysgolion yn wynebu heriau penodol wrth recriwtio athrawon i swyddi. O ran pynciau, gallai hyn fod o ganlyniad i'r niferoedd bach sy'n hyfforddi i fod yn athrawon. O ran ysgolion, gallai hyn fod o ganlyniad i ddaearyddiaeth neu am eu bod yn gweithio mewn cyd-destun mwy heriol. Nid oes unrhyw atebion hawdd i ddatrys yr heriau hyn. Rydym yn gobeithio y bydd Cynllun y Gweithlu yn gallu archwilio rhai o'r materion hyn yn fanylach.

# 3. Cadw

## Mae cyfraddau cadw yn llai heriol na chyfraddau recriwtio, ond mae digon o staff yn gadael i achosi problemau pan gaiff hynny ei gyfuno â recriwtio isel. Mae llwyth gwaith yn ffactor allweddol, ynghyd â'r angen am ddysgu proffesiynol gwell a chyfleoedd gweithio hyblyg.

**253.** Nid yw cyfraddau cadw athrawon mor ddrwg â chyfraddau recriwtio.[432] Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes rhai heriau. Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe fod eu cydweithwyr mewn ysgolion yn nodi bod cyfraddau cadw yn sefydlog ar gyfer nifer o bynciau uwchradd.[433]

**254.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod y darlun o ran cadw athrawon yng Nghymru, "er ei fod yn peri pryder", yn fwy ffafriol na'r darlun yn Lloegr "[lle] mae un o bob pump ANG yn gadael addysgu yn eu dwy flynedd gyntaf, a 4 o bob deg ar ôl 5 mlynedd, gyda'r cyfrannau hyn yn parhau i godi o un flwyddyn i'r llall"[434]. Awgrymodd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg fod cyfraddau gadael yn cael eu cyfrifo'n wahanol yn Lloegr. Gwnaethant ddweud, pan aethant ati i'w mesur yn yr un modd, gwnaethant ganfod, mewn gwirionedd, bod yna lai o wahaniaeth rhwng Cymru ac ardaloedd tebyg yn Lloegr. Serch hynny nodwyd bod hyn wedi'i wneud yn ystod y pandemig a bod hynny wedi effeithio ar gyfraddau cadw.[435]

**255.** Yn ôl data Cyngor y Gweithlu Addysg, mae cyfraddau cadw yn gymharol sefydlog, gyda 75.9 y cant o athrawon a oedd wedi cofrestru yn 2020, yn dal i fod wedi cofrestru yn 2025 (roedd y gyfradd hon ychydig yn uwch ar gyfer athrawon sy'n siarad Cymraeg, sef 79.9 y cant), tra roedd 57.7 y cant o athrawon a oedd wedi cofrestru yn 2015 yn dal i fod wedi cofrestru yn 2025. Nodwyd bod nifer yr

[432] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[433] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[434] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.5
[435] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 162

athrawon sy’n dadgofrestru wedi aros yn weddol sefydlog ar gyfartaledd o tua 2,400 ar gyfer pob un o’r pum mlynedd diwethaf.[436]

**256.** Er nad yw’r sefyllfa o ran cyfraddau cadw yn cael ei hystyried mor ddifrifol â’r sefyllfa recriwtio, ni ellir ei hanwybyddu. Dywedodd Education Support ei bod yn bwysig bod pwyslais cyfartal yn cael ei roi ar gadw athrawon yng Nghynllun y Gweithlu sydd ar ddod, gan ddweud nad yw recriwtio cynaliadwy yn bosibl os na chaiff athrawon eu cadw’n effeithiol.[437] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod cadw athrawon yn fater mwy cymhleth na recriwtio, a bod angen ei ddeall yn well.[438] Gwnaethant hefyd alw am “[d]ystiolaeth empirig fwy cadarn” ar gadw athrawon.[439]

**257.** Tynnodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru sylw at y gost ariannol a’r gost ddynol sy’n gysylltiedig ag athrawon yn gadael y proffesiwn. Yn ogystal â cholli arbenigedd athrawon, mae yna hefyd gost amser ac arian ynghlwm wrth hyfforddi athrawon newydd i lenwi’r prinder a achoswyd.[440] Hefyd, nododd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe yr effaith a geir pan fydd staff profiadol yn gadael y proffesiwn.[441]

**258.** Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod heriau o ran cadw athrawon yn systemig, yn gwaethygu a bod angen mynd i’r afael â nhw ar frys.[442] Fel gyda rhai o’r problemau recriwtio, dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod cadw staff “yn debygol o fod yn fwy problemus” mewn ardaloedd gwledig neu mewn ardaloedd â lefelau uwch o anfantais economaidd-gymdeithasol.[443] Dywedodd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg fod cyfraddau athrawon sy’n gadael yn dueddol o fod yn uwch mewn ysgolion â chyfraddau uwch o brydau ysgol am ddim.[444]

**259.** Dywedodd y Sefydliad Polisi Addysg fod rhywfaint o drosiant yn aml yn iach gan ei fod yn dod â syniadau newydd ac yn cynnig cyfleoedd i staff eraill gamu ymlaen. Nodwyd bod angen rhoi ystyriaeth i sicrhau bod hyn yn digwydd.[445]

---

[436] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[437] Tystiolaeth ysgrifenedig, Education Support TRR 10
[438] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 160
[439] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.8
[440] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13A60, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[441] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[442] Tystysgrif ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[443] Tystysgrif ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.7
[444] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 161
[445] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 157

## Cymorth gyrfa gynnar

**260.** Mae pum mlynedd cyntaf gyrfa athro yn hollbwysig o ran adeiladu'r sylfeini ar gyfer gyrfa hirdymor. Mae pryderon bod llawer o athrawon yn gadael yn ystod y cyfnod hwn:

- Prifysgol Metropolitan Caerdydd[446];
- Estyn[447];
- Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru[448];
- Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru[449];
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[450].

**261.** Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod nifer yr athrawon sy'n gadael yn ystod y pum mlynedd cyntaf wedi cynyddu'n sylweddol. Gwnaethant ddweud bod chwarter o athrawon yn gadael yn ystod y cyfnod hwn, gan gyfeirio at gyfraddau gwastraff arbennig o uchel.[451] Dywedodd Estyn ei bod yn destun pryder, o ran nifer yr athrawon uwchradd sy'n gadael, mai'r niferoedd uchaf yw'r rhai sy'n addysgu Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith.[452] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod awdurdod lleol wedi nodi bod "un o bob chwech o'i athrawon newydd gymhwyso wedi gadael y sector addysgu yn ystod y 3 blynedd diwethaf"[453].

**262.** Un o'r ffactorau a nodwyd yw diffyg cymorth proffesiynol yn ystod blynyddoedd cynnar gyrfa.[454] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod angen "ffocws cryf" ar gefnogi athrawon newydd gymhwyso ac athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd.[455] Galwodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a

[446] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 176
[447] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[448] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 20 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, paragraff 3.11
[449] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[450] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[451] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[452] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[453] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.2
[454] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[455] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, adran 5, crynodeb o benawdau

Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ar i gefnogaeth gael ei rhannu dros y tair blynedd gyntaf o yrfa athro, gan gyfeirio at raglenni mentora llwyddiannus yn Lloegr.[456] Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru y gallai'r rhaglen ANG gael ei hymestyn i raglen ddwy flynedd, a fyddai'n golygu, yn ogystal â goroesi blwyddyn 1, gallent ddechrau datblygu a ffynnu ym mlwyddyn 2, cyn iddynt golli'r cymorth ychwanegol honno.[457]

**263.** Gwnaeth Cyngor y Gweithlu Addysg ein hatgoffa bod addysgu yn swydd fawr a bod addysgu a dysgu yn anodd. Yn ôl y Cyngor, all neb ddysgu'r swydd yn llawn o fewn ychydig flynyddoedd.[458] Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod y pum mlynedd cyntaf yn hollbwysig ac, ar ôl y cyfnod hwn, mae trobwynt a newid go iawn gydag athrawon yn ennyn hyder ac ymreolaeth. Felly mae angen i strwythurau cymorth fod ar waith yn ystod y pum mlynedd cyntaf, gan eu bod yn creu'r blociau adeiladu ar gyfer gyrfa lwyddiannus, hirdymor ym maes addysgu.[459]

**264.** Tynnodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe sylw at y ffaith bod llawer iawn llai o gymorth ar gael i athrawon newydd gymhwyso o gymharu â'r AGA, a nodwyd bod rhai wedi ei chael hi'n anodd addasu i hynny.[460] Dywedodd Estyn nad oes rhaglen ddigon cadarn ar gyfer athrawon newydd gymhwyso ar hyn o bryd.[461] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod gan ysgolion lai o amser i roi cymorth ffurfiol ac anffurfiol i athrawon newydd gymhwyso, a bod yna fwlch penodol mewn perthynas â hyfforddiant gan "athrawon arbenigol".[462]

**265.** Cododd Prifysgol Metropolitan Caerdydd bryderon ynghylch diffyg parhad rhwng AGA ac ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. Unwaith y bydd myfyrwyr yn graddio, nid oes "unrhyw gyswllt na pharhad ffurfiol rhwng tiwtoriaid prifysgol sydd wedi gweithio'n agos gyda nhw" a'r rheini fydd yn gyfrifol am eu cyfnod ymsefydlu fel athrawon newydd gymhwyso.[463] Gwnaethant ddweud bod potensial i brifysgolion chwarae mwy o rôl o ran datblygu gyrfaoedd cynnar, fel y maent yn ei wneud wrth gefnogi proffesiynau eraill.[464]

[456] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[457] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 43
[458] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 83
[459] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 286-287
[460] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[461] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[462] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.39
[463] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 6.2
[464] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 190

**266.** Adroddodd Prifysgol De Cymru[465] a Phartneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant[466] y byddai eu graddedigion yn gwerthfawrogi perthnasoedd parhaus â'r brifysgol. Dywedodd Prifysgol De Cymru ei fod yn faes lle y gallai ymchwil bellach gael ei gwneud o bosibl i weld a fyddai'n gwella cyfraddau cadw.[467]

**267.** Soniodd y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd am hyn hefyd. Gwnaethant sôn am eu profiad eu hunain o ddarparu AGA a'r ffaith eu bod yn derbyn llawer o negeseuon e-bost / negeseuon gan gyn-fyfyrwyr yn gofyn am gymorth. Er y gallai'r cymorth fod yn gysylltiedig â phethau eithaf sylfaenol, bydd yn ymwneud â phethau na wnaethant ddod ar eu traws yn ystod eu hyfforddiant. Gall hyn gael ei waethygu os mai nhw yw'r unig athro iaith mewn ysgol ac na allant gael mynediad at gymorth trwy gydweithwyr uniongyrchol. Gall hyn wneud iddynt deimlo wedi'u llethu, gan gyfrannu o bosibl at benderfyniad i adael y proffesiwn.[468]

**268.** Soniodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru hefyd am y lefel o orlethu y gall athrawon ei deimlo yn gynnar yn eu gyrfaoedd, a'r angen am gymorth clir y gallant gael mynediad ato.[469] Cadarnhawyd hyn mewn trafodaethau gydag athrawon, gyda llawer o athrawon newydd gymhwyso yn nodi eu bod yn teimlo wedi'u llethu gan y disgwyliadau a osodwyd arnynt ar ddechrau eu gyrfaoedd. Adroddodd un rhwystredigaeth ynghylch y diffyg "gras" a ddangoswyd i athrawon sy'n addysgu dosbarthiadau ar eu pennau eu hunain am y tro cyntaf.[470]

**269.** Gwnaethpwyd cymariaethau â gyrfaoedd eraill a'r math o sefydlu a chymorth maent yn eu cael. Tynnodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd sylw at y dull mwy strwythuredig a fabwysiedir ym meysydd nyrsio a gwaith cymdeithasol. Mae gan y ddau raglenni cymorth penodol yn y blynyddoedd cynnar.[471] Gwnaethant ddweud y dylai cymorth gyrfa gynnar fod yn debyg i fodel prentisiaeth gan gynnwys:

> *"… amserlenni wedi'u cwtogi, hyfforddiant strwythuredig a dysgu proffesiynol wedi'i gynllunio a'i bersonoli, mewn ffordd sy'n gyffredin ym maes meddygaeth a phroffesiynau eraill."*[472]

---

[465] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 95
[466] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 112
[467] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 95
[468] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 306
[469] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 301
[470] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 81, Medi 2025
[471] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraffau 6..9-6.10
[472] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.19

**270.** Gwnaeth Prifysgol Wrecsam[473] gefnogi galwadau ar i athrawon newydd gael amserlenni llai ac awgrymodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod athrawon ar ddechrau eu gyrfa yn cael mwy o amser gwarchodedig pan allent fanteisio ar gymorth hyfforddi a mentora.[474]

**271.** Cafwyd galwadau dro ar ôl tro i gryfhau cymorth gyrfa gynnar.[475] Galwodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe am adolygiad systematig o'r cymorth sydd ar gael i athrawon newydd gymhwyso ac athrawon ar ddechrau eu gyrfa a'r hyn a ddisgwylir ohonynt,[476] a dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd nad oedd yn glir sut mae hawl athrawon newydd gymhwyso i gael cymorth yn cael ei "werthuso a'i warantu".[477]

**272.** Dywedodd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ei bod yn bwysig sicrhau bod gan ysgolion sy'n cyflogi athrawon newydd gymhwyso yr amser a'r adnoddau i gefnogi a mentora yn effeithiol.[478]

**273.** Dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru fod lefel y gefnogaeth yn amrywio rhwng ysgolion. Gwnaethant alw am "arweiniad cenedlaethol mwy cadarn ar hyn, a mwy o gydweithio, … sydd am sicrhau bod pob unigolyn yn derbyn y gefnogaeth haeddiannol"[479]. Tynnodd y Sefydliad Ffiseg sylw hefyd at yr anghysondebau o ran cymorth. Mae'n rhy ddibynnol ar yr hyn y gall ysgolion unigol ei gynnig.[480] Awgrymodd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol hefyd y gall lleoliad effeithio ar lefel y gefnogaeth, gan awgrymu nad yw'r rhai mewn ardaloedd gwledig, o bosibl, yn cael yr un cyfleoedd i fanteisio ar gefnogaeth â'r rhai mewn ardaloedd trefol.[481]

**274.** Ac eto mae effaith cael y gefnogaeth gywir yn y blynyddoedd cynnar yn talu ar ei ganfed, gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd yn tynnu sylw at ymchwil sy'n dangos, os cânt y gefnogaeth gywir, y bydd athrawon newydd gymhwyso yn

[473] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 30 Prifysgol Wrecsam
[474] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 302
[475] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[476] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[477] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.39
[478] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 28, Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
[479] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 318
[480] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 191
[481] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 193

gwneud y "datblygiad cyflymaf yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o addysgu yn dilyn AGA".[482]

**275.** Awgrymodd rhai nad yw AGA yn paratoi athrawon yn ddigonol ar gyfer sut beth yw addysgu yn ymarferol, yn enwedig ymddygiad heriol.[483] Dywedodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig fod teimlad cyffredinol bod athrawon newydd gymhwyso yn llai parod ar gyfer heriau addysgu na chenedlaethau blaenorol.[484]

**276.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru y gall natur AGA fod yn "dameidiog gan ganolbwyntio'n ormodol ar waith papur amherthnasol neu astudiaethau academaidd, sy'n golygu mai dim ond ychydig o'r ochr ymarferol fydd athrawon llai profiadol wedi'i weld"[485]. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod rhai athrawon yn dod i mewn i'r proffesiwn yn teimlo "heb eu paratoi", a gofynnodd a ddylid buddsoddi mwy mewn AGA.[486]

**277.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd mai'r nam yn y system oedd disgwyl i gwrs ôl-raddedig blwyddyn o hyd, ynghyd â rhaglen sefydlu amrywiol yn aml, fod yn fecanwaith i gynhyrchu'r athrawon rydym eu heisiau. Gwnaethant alw am broses datblygu hir, denau. Unwaith eto, gwnaethant gyfeirio at y dull mwy strwythuredig a fabwysiedir ym meysydd nyrsio, gwaith cymdeithasol a phroffesiynau eraill.[487]

**278.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod ansawdd y broses sefydlu a datblygiad gyrfa gynnar yn "bwysig iawn". Gwnaethant dynnu sylw at yr adolygiad a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru yn 2020 a ganfu nad oedd hyn yn annigonol a'r ffaith bod canllawiau a gofynion newydd wedi'u llunio ar gyfer awdurdodau lleol o ganlyniad i hynny. Er iddynt ddweud bod y canllawiau'n cynnwys arferion effeithiol, roedd athrawon newydd gymhwyso yn dal i adrodd bod y gefnogaeth yr oeddent yn ei chael yn "amrywio'n fawr" o ran amser a'r gefnogaeth a dderbyniwyd.[488] Roeddent yn disgrifio'r gefnogaeth yr oeddent yn ei chael ar gam cynnar eu gyrfa yn "dipyn o loteri" ac felly nid oedd yn syndod bod

[482] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.19
[483] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[484] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[485] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[486] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 303
[487] Y Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 187
[488] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraffau 5.37-5.38

cynifer yn gadael ar yr adeg hon yn eu gyrfaoedd.[489] Gwnaethant alw'r broses sefydlu yn "hanfodol".[490]

**279.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod angen gwella'r broses sefydlu o ran mentora, hyfforddi a gweithio drwy'r busnes hwnnw o drylwyredd academaidd a chymhwyso ymarferol.[491]

**280.** Dywedodd Prifysgol Southampton fod angen i'r broses sefydlu gael ei phersonoli'n fwy i'r athro unigol, a chanolbwyntio llai ar gydymffurfiaeth. Gwnaethant ddweud y gall prosesau sefydlu a amhersonolir arwain at ddadrithio ac ymadawiad. Maent yn awgrymu bod dull datblygiadol o gadw staff yn canolbwyntio ar fentora sy'n meithrin hyder, hunaniaeth ac ymarfer proffesiynol.[492]

> *"This means treating ECTs as long-term assets whose needs evolve over time—not just as trainees to be "ticked off" a statutory checklist. When teachers are meaningfully developed, not merely assessed, they are far more likely to stay, thrive, and contribute as future mentors and leaders."*[493]

**281.** Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at bwysigrwydd mentora effeithiol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso, gan gynnwys Prifysgol Wrecsam[494]; a Phartneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant[495].

**282.** Tynnodd Prifysgol Southampton sylw at ganfyddiadau o'u hymchwil eu hunain a gynhaliwyd yn Lloegr ar bwysigrwydd mentora i athrawon ar ddechrau eu gyrfa, gan ei alw'n ffactor hollbwysig na fanteisir arno'n llawn wrth recriwtio a chadw. Mae'r broses o dreialu pecyn cymorth mentora wedi dangos gwelliannau i weledEdd a gwerth mentora … ymrwymiad o'r newydd i DPP sy'n benodol i bynciau a mwy o aliniad rhwng dilyniant ECT a chynllunio datblygu ysgolion. Gwnaethant ddweud bod eu hymchwil yn dangos bod yna gysylltiad agos rhwng cadw athrawon, ansawdd mentora a'i sensitifrwydd i gyd-destun.[496]

**283.** Gwnaethant hefyd ddweud, o ran yr hyn sydd ei angen ar athrawon ar ddechrau eu gyrfa, nad y gofyniad presennol i sicrhau bod athrawon ysgolion

[489] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.40
[490] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.19
[491] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 83
[492] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 14 Prifysgol Southampton
[493] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 14 Prifysgol Southampton
[494] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 30 Prifysgol Wrecsam
[495] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 111
[496] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 14 Prifysgol Southampton

uwchradd yn cael mentoriaid pwnc-benodol yw hynny o reidrwydd. Gwnaethant awgrymu mai'r hyn oedd pwysicaf oedd datblygu hyder yn yr ystafell ddosbarth a hunaniaeth addysgeg mewn meysydd pwnc. Gwnaethant ddweud bod eu hymchwil yn dangos bod mentora effeithiol yn arwain at sefyllfa lle mae'r athro ar ddechrau ei yrfa a'r mentor yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cadw, ac yn uchelgeisiol yn broffesiynol. Mae hefyd yn dangos nad yw mentora yn ychwanegiad ymylol at ddatblygiad athrawon ond yn ffactor allweddol sy'n pennu cynaliadwyedd y gweithlu mewn addysg uwchradd.[497]

**284.** Adroddodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe fod rhai athrawon newydd gymhwyso yn teimlo bod mentora anghyson.[498] Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod yna wiriwr allanol o'r consortia rhanbarthol cyn y diwygiadau haen ganol, ond roeddent yn pryderu na fydd cefnogaeth o bosibl i'r mentor sefydlu na'r ANG mwyach.[499]

**285.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y cymorth sydd ar gael i athrawon newydd gymhwyso wedi'i adolygu yn 2022 ac, o ganlyniad, bod mentor wedi'i ariannu a rhaglen ddysgu broffesiynol ar gael i bob SAC yn eu blwyddyn gyntaf. Gofynnir i Dysgu hefyd adolygu'r cymorth dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso:

> *"… i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'm blaenoriaethau ac yn darparu parhad clir o gefnogaeth wrth iddynt symud o addysg gychwynnol athrawon ymlaen trwy eu blynyddoedd cyntaf o addysgu fel rhan o raglen gyrfa gynnar."*[500]

**286.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, er bod cyfraddau cadw yn well nag yn Lloegr, fod gennym fwy i'w wneud yn bendant. Cydnabu bwysigrwydd cymorth gyrfa gynnar. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu pecyn cymorth gwerth tua £5 miliwn, gan gynnwys mentor wedi'i ariannu ar gyfer pob ANG a gostyngiad o 10 y cant yn yr amserlen i'w helpu i fanteisio ar ddatblygiad proffesiynol.[501]

**287.** Fodd bynnag, dywedodd fod angen gwneud mwy o hyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu llwybr gyrfa gynnar i athrawon yn eu pum mlynedd

---

[497] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 14 Prifysgol Southampton
[498] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[499] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 327
[500] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[501] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 88

cyntaf. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gydag athrawon, Dysgu a rhanddeiliaid eraill.

> *"My expectation is this career pathway will commence in ITE, which would be year 1, and incorporate the statutory induction period, year 2, but then, vitally, go over, then, into the following three years of the first five years of their career. We're currently scoping the development of a three-year early career professional learning programme. That would include a common curriculum for early career PL, a focus on the key issues facing early career teachers, including things like child development, neurodiversity, well-being, behaviour and subject knowledge, and a consistent and coherent model of support for professional learning and inquiry across ITE providers."*

Bydd hyn hefyd yn cynnwys cyfranogiad parhaus mewn ymchwiliadau a arweinir gan ysgolion, o fewn ysgol yr athrawon gyrfa gynnar eu hunain a thu hwnt iddynt.[502]

## Dysgu proffesiynol

**288.** Mae dysgu proffesiynol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i flynyddoedd cynnar gyrfa athro. Clywsom amrywiaeth o dystiolaeth a oedd yn pwysleisio sut y gall dysgu proffesiynol da, amserol ac effeithiol helpu i gefnogi'r gwaith o gadw staff. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw bob amser yn hawdd cael gafael arno, ac mae amrywioldeb ledled Cymru. Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod mynediad at ddysgu proffesiynol yn anghyson ledled Cymru.[503]

**289.** Tynnodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd sylw at y ffaith, er bod dysgu proffesiynol wedi gwella, ei fod yn parhau i fod yn anorfodol ac nad yw'n cymharu cystal â gwledydd eraill y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Gwnaethant ddweud bod "llawer o systemau addysg sy'n perfformio'n dda yn mynnu bod athrawon yn cymryd rhan mewn o leiaf 100 awr y flwyddyn o ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel"[504].

**290.** Dywedodd Estyn fod cynlluniau strwythuredig ac ystyrlon ar gyfer dysgu proffesiynol yn hanfodol ar gyfer recriwtio a chadw. Gwnaethant ddweud bod gan yr ysgolion mwyaf effeithiol ddiwylliant cryf o ddysgu proffesiynol sy'n darparu ar

[502] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 88-89
[503] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[504] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 6.5

gyfer anghenion athrawon ar bob cam o'u gyrfa ac yn creu llwybrau ar gyfer cynnydd.[505] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod dysgu proffesiynol sydd wedi'i deilwra i gyd-destunau ysgolion unigol "yn bwysig iawn" o ran boddhad a chyfraddau cadw athrawon.[506]

**291.** Dywedodd Prifysgol Southampton fod cadw athrawon yn ymwneud â mwy na chymhellion neu amodau gwaith, a bod angen i athrawon deimlo eu bod yn dysgu, yn cael eu cefnogi, ac yn tyfu yn eu rolau.[507] Dywedodd y Sefydliad Ffiseg fod DPP yn gallu helpu i wella cyfraddau cadw gan fod athrawon yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth.[508]

**292.** Dywedodd Canolfan Ymchwil Addysg Ysgolion yr Alban fod yna garfan sylweddol o athrawon newydd gymhwyso yn y brifysgol yn ystod y pandemig pan fu hyfforddiant labordy a hyfforddiant ymarferol yn destun cyfyngiadau mawr. Gwnaethant ddweud bod angen DPP o ansawdd uchel i lenwi'r bylchau hyn.[509]

**293.** Galwodd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol am DPP strwythuredig sy'n benodol i'r pwnc fel rhywbeth y mae gan bob athro yr hawl i'w gael, gan sicrhau bod o leiaf 50% o ddatblygiad proffesiynol yn canolbwyntio ar wybodaeth am y pwnc ac addysgeg.[510] Galwodd y Sefydliad Ffiseg hefyd am fwy o bwyslais ar DPP, gan sicrhau bod gan athrawon y capasiti a'r amser i fanteisio arno.[511]

**294.** Tynnodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd sylw at y ffaith nad yw ansawdd dysgu proffesiynol yn cael ei asesu'n allanol ar hyn o bryd, ond nododd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ar "broses nodi barcud ansawdd".[512]

**295.** Clywsom fod heriau sy'n ymwneud â llwyth gwaith yn gallu effeithio ar allu athrawon i gael mynediad at ddysgu proffesiynol.[513] Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe fod angen mynd i'r afael â hyn fel bod gan athrawon ddigon o amser i gael mynediad at ddysgu proffesiynol effeithiol.[514] Yn ogystal, gall problemau ariannu ac adnoddau effeithio ar fynediad at ddysgu proffesiynol.[515]

505 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
506 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.31
507 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 14 Prifysgol Southampton
508 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
509 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 11 Canolfan Ymchwil Addysg Ysgolion yr Alban
510 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
511 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
512 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 6.7
513 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
514 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
515 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.17

**296.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd y bydd athrawon yn aml yn ariannu eu dysgu proffesiynol eu hunain. Er bod rhywfaint o ddysgu proffesiynol ar gael fel hawl, mae'n rhaid i'r ysgol neu'r athro unigol dalu am eraill.[516] Dywedodd y Sefydliad Ffiseg y dylai unrhyw ddatblygiad proffesiynol gael ei wneud o fewn oriau gwaith ac y dylai gael ei ariannu.[517]

**297.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod "cydnabyddiaeth gynyddol" ynghylch pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus drwy gydol gyrfa. Gwnaethant ddweud bod sicrhau bod gan bob ymarferydd fynediad at hyn "yn rhan annatod o'n gweledigaeth ar gyfer addysg".[518]

**298.** Amlinellodd Llywodraeth Cymru rai o'r gweithgareddau y maent yn eu hariannu i gefnogi datblygiad proffesiynol. Yn eu plith mae:

- £163,000 i'r Sefydliad Ffiseg ar gyfer y rhwydweithiau Ysgogi Ffiseg a Chynhwysiant ac Ecwiti Ysgol Gyfan.
- Rhaglen Dyfodol Byd-eang ar gyfer ieithoedd rhyngwladol. Mae'r rhaglen hon, sydd wedi'i hymestyn i 2026, yn helpu ymarferwyr i gynllunio a chyflwyno darpariaeth iaith effeithiol.
- £1.8 miliwn i gais Cymdeithasau Dysgedig cydweithredol sy'n cael ei arwain gan y Sefydliad Ffiseg. Nod y cais yw gwella deilliannau addysgu a dysgu gwyddoniaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Hyd at 200 o unigolion y flwyddyn yn cael eu hariannu i astudio am radd Meistr Genedlaethol mewn Addysg.
- Ariannu'r Ddoethuriaeth Genedlaethol mewn Addysg.
- £13.5 miliwn i gefnogi 6 diwrnod HMS y flwyddyn a grant dysgu proffesiynol.[519]

**299.** Gwnaethant hefyd dynnu sylw at waith arall i ddatblygu sgiliau dysgu ieithoedd yn benodol fel rhaglen ieithoedd E-sgol; prosiect Llenyddiaeth yn Tanio'r Dychymyg a rhaglen fentora Prifysgol Caerdydd.[520]

[516] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 6.7
[517] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[518] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[519] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[520] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru

**300.** Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru rôl y corff cenedlaethol newydd ar gyfer cefnogi dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth, Dysgu:

> *"Y nod yw creu system unedig sy'n darparu cymorth cyson sy'n gwella deilliannau dysgu."*

Gwnaethant ddweud y bydd y dull newydd hwn yn creu dull mwy syml a chyson o ddatblygiad proffesiynol.[521]

## Llwyth gwaith

**301.** Fel y gwnaethom grybwyll yn y Bennod flaenorol, mae llwyth gwaith yn ffactor hollbwysig o ran y canfyddiad negyddol o addysgu. Mewn rhai ffyrdd, mae effaith llwyth gwaith hyd yn oed yn fwy amlwg o ran cadw athrawon. Roedd yn thema allweddol drwy gydol yr holl dystiolaeth a glywsom. Disgrifiodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau hyn fel argyfwng llwyth gwaith gan nodi, os nad eir i'r afael â hyn, ni fydd unrhyw gymhellion, cynigion atyniadol neu lwybrau i'r proffesiwn yn denu ac yn cadw'r athrawon a'r arweinwyr gorau o fewn ein system addysg.[522]

**302.** Siaradodd bron pawb am effaith llwyth gwaith ar recriwtio a chadw. Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod llwyth gwaith yn cael ei adrodd yn gyson fel un o'r prif resymau pam mae athrawon ac arweinwyr ysgolion yn gadael. Gwnaethant ddweud bod athrawon yng Nghymru yn gweithio mwy na 50 awr mewn wythnos arferol, sy'n cymharu'n anffafriol â chyfartaledd yr OECD o 39 awr. Yr unig wlad lle mae athrawon yn gweithio oriau hirach yw Japan.[523] Tynnodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd sylw at arolwg Cyngres yr Undebau Llafur 2024 a ddangosodd fod athrawon yn "ymgymryd â'r goramser mwyaf di-dâl o unrhyw broffesiwn"[524].

**303.** Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau fod arweinwyr ysgolion yn gweithio mwy na 48 awr yr wythnos, sef yr uchafswm y mae'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu yn dweud y dylai pobl weithio. Gwnaethant ddweud, pan oeddent yn bennaeth, nad oedden nhw byth yn gweithio llai na 60 awr yr wythnos, ac nid oedd eu cydweithwyr chwaith.

[521] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[522] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[523] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[524] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.9

> *"… It's almost toxic how we—. Because we know we're impacting on children's lives, we feel that we've got to do more and more and more, and that's a normal way that school leaders and teachers work. They're working hours that just can't be maintained, and then they burn out."*[525]

**304.** Dywedodd Estyn, o'r sgyrsiau a gawsant gydag ysgolion a staff, mai llwyth gwaith a straen yw dau o'r ffactorau mwyaf cyffredin sy'n effeithio ar gadw athrawon.[526] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod llwyth gwaith a llesiant yn ffactorau cyffredin ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd.[527] Dywedodd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg mai llwyth gwaith a llesiant yw'r ffactorau pennaf bob amser o ran pam mae athrawon yn ystyried gadael a beth y gellir ei wneud i sicrhau eu bod yn aros.[528]

**305.** Roedd llwyth gwaith gormodol a'i effaith yn thema a gododd dro ar ôl tro yn y trafodaethau a gafwyd gydag athrawon ac arweinwyr ysgolion. Mae'n aml yn achosi blinder a salwch ymhlith y staff.[529] Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, i'r rhai sy'n gadael addysgu'n gynnar yn eu gyrfa, eu bod yn aml yn sôn am "lwythi gwaith llethol" sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles.[530] Dywedodd yr athrawon y gwnaethom siarad â nhw fod llwythi gwaith cynyddol yn cael effaith niweidiol ddofn ar lesiant cyffredinol staff.

> *"Gadawodd un aelod o'r adran oherwydd ei bod hi mor anhapus yn y proffesiwn. Dywedodd ei fod wedi sugno'r bywyd allan ohoni" – Pennaeth Ieithoedd*[531]

**306.** Nid Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru oedd yr unig rai a dynnodd sylw at yr effaith y mae llwyth gwaith yn ei chael ar iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â'i effaith ar fywyd teuluol a pherthnasoedd.[532] Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau eu bod wedi

---

[525] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 38
[526] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[527] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 158
[528] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 163
[529] Senedd Cymru, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 23, Medi 2025
[530] Tystiolaeth ysgrifenedig, TR22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[531] Senedd Cymru, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 27, Medi 2025
[532] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

bod yn galw ar Estyn i edrych ar lesiant athrawon wrth gynnal arolygiadau. Roedden nhw o'r farn y byddai hyn yn drawsnewidiol.[533]

**307.** Er ein bod yn edrych ar gyflog yn ddiweddarach, dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru y byddai athrawon yn derbyn codiad cyflog is pe bai'r llwyth gwaith yn lleihau. Fodd bynnag, heb ostyngiad o'r fath yn y llwyth gwaith, roeddent eisiau codiad cyflog uwch.[534]

**308.** Tynnodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd sylw at y rôl y gall penaethiaid ei chwarae wrth gefnogi staff, llwyth gwaith a'u lles. O ganlyniad, bydd cyfraddau cadw yn amrywio yn dibynnu ar yr ysgol unigol.[535]

**309.** Clywsom am nifer o wahanol arolygon a roddodd fewnwelediad pellach i faterion yn ymwneud â llwyth gwaith a'i effaith.

**310.** Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod 20 y cant o'u haelodau a ymatebodd i'w Harolwg Cyflwr Addysg yn teimlo bod eu llwyth gwaith yn hylaw drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser, gyda thros 40 y cant o'r farn ei fod yn anhylaw drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser. Gwnaethant hefyd gyfeirio at eu harolwg dilynol o Iechyd Meddwl a Llesiant 2023 a ganfu fod 92 y cant o'r ymatebwyr yn gweithio mwy na'u horiau cytundebol yn rheolaidd gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo dan bwysau i wneud hynny. Yn ystod y 12 mis cyn yr arolwg, roedd 25 y cant o'r ymatebwyr wedi bod i ffwrdd o'r gwaith, a'r prif resymau am hynny oedd straen, gorbryder neu iselder.[536]

**311.** Tynnodd Education Support sylw at eu harolwg Llesiant yn 2022 a ganfu fod 53 y cant o staff ym maes addysg yng Nghymru wedi ceisio newid eu swyddi neu adael eu swyddi yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gyda llwyth gwaith wedi'i nodi fel un o'r prif ffactorau.[537] Canfu arolwg Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru ffigurau tebyg gyda 56 y cant o'r ymatebwyr yn bwriadu neu'n meddwl am adael addysgu.[538]

**312.** Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod 90 y cant o'r athrawon a oedd yn ystyried gadael y proffesiwn yn 2023/24 wedi dweud bod llwyth gwaith yn ffactor.[539] Cyfeiriodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd at ymchwil

[533] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 332
[534] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 271
[535] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 160
[536] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[537] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[538] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[539] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

ddiweddar a awgrymodd fod "un o bob tri athro" yn bwriadu gadael o fewn pum mlynedd.[540] Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau fod eu harolygon wedi dangos bod athrawon yng Nghymru wedi mynd o'r rhai lleiaf tebygol ar draws y DU o adael y proffesiwn i'r rhai mwyaf tebygol o ystyried gadael o ddifrif, sef 77 y cant o ymatebwyr.[541]

**313.** Cyfeiriodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol at Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol 2021 Cyngor y Gweithlu Addysg, a nododd fod 70 y cant o athrawon o'r farn bod eu llwyth gwaith yn anhylaw.[542] Gwnaethant hefyd dynnu sylw at eu Harolwg Addysgu Gwyddoniaeth Blynyddol eu hunain, a nododd yn 2023 ac yn 2025 mai llwyth gwaith oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros adael.[543]

**314.** Mae lefel y fiwrocratiaeth a'r gwaith gweinyddol yn ychwanegu at bwysau llwyth gwaith. Cafodd hyn ei godi gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd[544]; Cyngor y Gweithlu Addysg[545]; a Phartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[546]. Dywedodd unigolyn nad oedd y llwyth gwaith gormodol—o weithgarwch olrhain data a pholisïau marcio diddiwedd i ddisgwyliadau afrealistig ynghylch cynllunio gwersi—yn gadael llawer o amser ar gyfer addysgu ac ymgysylltu â myfyrwyr mewn ffordd ystyrlon.[547]

**315.** Nododd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru fod angen sicrhau bod "gwir werth i unrhyw dasg weinyddol". Gwnaethant ddweud bod gweithio oriau hir yn ffactor sy'n peri i bobl adael y proffesiwn addysgu. Gwnaethant alw ar i "ffiniau pendant" gael eu gosod ar gyfer yr oriau sy'n cael eu gweithio.[548] Dywedodd Education Support, wrth i amser athro gael ei gyfyngu, y gall perthnasoedd ddod yn drafodaethol eu natur yn gyflym gyda staff yn teimlo eu bod yn ceisio datrys problemau wrth iddynt godi. Gwnaethant ddweud bod angen lleihau dwyster y llwythi gwaith fel bod athrawon yn gallu canolbwyntio ar addysgu a dysgu.[549]

**316.** Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru nad oedd y canfyddiad bod athrawon yn gweithio 8-3 yn ystod y tymor ac yna'n cael gwyliau

[540] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.4
[541] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 306
[542] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 19
[543] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 195
[544] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.11
[545] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[546] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[547] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 02 Unigolyn
[548] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[549] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support

hir yn gywir, a bod addysgwyr yn gweithio oriau estynedig dim ond er mwyn aros lle maen nhw, nid i ddatblygu na diwygio.[550]

**317.** Tynnodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru sylw at erthygl newyddion lle y dywedodd cyn-athrawes fod "… natur swydd athro yn arwain at flinder a lludded sy'n llethu rhywun. Roedd gwneud tair swydd i dalu rhent, ar ôl gadael y proffesiwn addysgu, yn llawer haws i mi na bod yn athrawes"[551].

**318.** Yn amlwg, mae staff sy'n gadael, ynghyd â heriau recriwtio i gymryd lle staff sy'n gadael, yn rhoi mwy o bwysau wedyn ar staff sy'n aros, gan greu cylch dieflig o ran llwyth gwaith. Tynnodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru sylw at hyn.[552] Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod pwysau ariannol a thanariannu wedi arwain at ddiswyddiadau neu fethiant i lenwi rolau, sydd wedyn yn cynyddu llwyth gwaith y staff sy'n weddill.[553]

**319.** Dywedwyd wrthym am effaith "blinder diwygio".[554] Dywedodd athrawon wrthym fod y cymhlethdod a'r newidiadau mynych yn y Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud hi'n anodd i athrawon gadw i fyny. Mae'r angen parhaus i gadw i fyny yn ychwanegu at bwysau llwyth gwaith, ac yn cyfrannu at ludded ymhlith staff.

> *"Mae gan bawb lwyth o waith ac yna mae ymyriadau newydd yn dod i mewn ac mae'n ormod" – Athro Uwchradd (gadawodd y proffesiwn yn ddiweddar)*[555]

**320.** Dywedwyd wrthym fod y diffyg canllawiau clir ar y cwricwlwm yn ychwanegu at y straen.

> *"Rydych chi'n cael eich tynnu i wahanol feysydd. Gofynnir i ysgolion fod yn ddylunwyr cwricwlwm – nid dyna ydym ni. I fod yn ddylunwyr asesiadau yng Nghyfnod Allweddol 3 – nid dyna ydym ni. Mae yna bethau positif i'r Cwricwlwm i Gymru, ond dydy'r system gyfan ddim wedi cael ei hystyried yn drylwyr oherwydd, o ganlyniad, dydyn ni ddim wir wedi gallu*

[550] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[551] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[552] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[553] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 298-299
[554] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[555] Senedd Cymru, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 33, Medi 2025

*canolbwyntio ar addysgu a dysgu, sef ein prif swydd" – Pennaeth*[556]

**321.** Tynnodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru sylw at y cyfuniad o'r cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno ar yr un pryd â diwygio ADY a chymwysterau. Yn ogystal, mae heriau eraill megis pwysau ariannol, diswyddiadau staff a newidiadau cymdeithasol ehangach. Gwnaethant ddweud bod "perygl fod athrawon yn cael eu cymryd yn ganiataol".[557] Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod gwaith yn cael ei bentyrru ar ben yr hyn sydd yno eisoes ond nid oes dim yn cael ei gymryd i ffwrdd.[558] Tynnodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru sylw hefyd at feysydd eraill lle mae newidiadau wedi bod megis canllawiau Addysg heblaw yn yr ysgol, y mae pob un ohonynt yn ychwanegu at y llwyth gwaith.[559]

**322.** Tynnodd rhai sylw at y cynnydd mewn gwaith o ganlyniad i'r diwygiadau ADY. Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod eu haelodau'n dweud wrthynt fod llunio cynllun datblygu unigol yn cymryd o leiaf saith neu wyth awr. Mae gan hyn oblygiadau sylweddol o ran llwyth gwaith gyda hyd at 200 o gynlluniau'n cael eu llunio mewn ysgolion mawr. Gwnaethant ddweud bod pobl yn gadael oherwydd hyn.[560]

**323.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg nad oes cydlyniant o ran polisi bob amser, a bod polisïau'n tynnu i gyfeiriadau gwahanol weithiau.[561]

**324.** Dywedodd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg fod cyflymder newid yn effeithio ar lwyth gwaith. Mae newid sy'n cael ei weithredu'n araf, neu sy'n cael ei gyfuno â llai o bolisïau newydd eraill, yn rhoi mwy o amser i athrawon addasu. Gwnaethant gyfeirio at brofiadau yn Lloegr pan gafodd y cwricwlwm ei ddiwygio ochr yn ochr â newid polisi arall, ac yna bu cynnydd mawr mewn cyfraddau gadael ochr yn ochr â llwyth gwaith cynyddol.

---

556 Senedd Cymru, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 34, Medi 2025
557 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
558 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 297
559 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 304
560 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 302
561 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 44

> *"So, any change that happens quickly and demands a lot of teachers is likely to butt up against capacity, and then find it difficult to be implemented and affects the workforce."*[562]

**325.** Gall yr angen i weithio y tu allan i bwnc arbenigol effeithio ar lwyth gwaith. Amlygwyd hyn gan Estyn[563]; y Sefydliad Ffiseg[564]; a'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol[565].

**326.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod data o'u Cofrestr yn 2025 yn dangos:

> *"19.2% of maths teachers, 22.1% of English teachers and 56.1% of IT teachers were trained in a different subject. There are particularly high numbers of teachers working outside their specific subject areas in the science subjects, however, in considering this data it is important to remember that, within the sciences, many teachers are delivering broad, general curriculum rather than teaching a single discipline in isolation. 56% of teachers employed to teach physics had not trained as physics teachers. Similarly, 50.8% of chemistry teachers and 41.4% of biology teachers had not trained in these subjects."*[566]

**327.** Dywedodd Estyn fod tua hanner yr athrawon cemeg a ffiseg a thua un rhan o bump o athrawon Saesneg a mathemateg wedi hyfforddi mewn pwnc arall. Mae'r gyfran yn fwy na chwarter ymhlith athrawon Cymraeg. Gwnaethant hefyd ddweud bod gorfod addysgu y tu allan i bwnc arbenigol yn gallu bod yn broblem benodol i ysgolion bach.[567] Yn ôl y Gymdeithas Fioleg Frenhinol, mae ystadegau cenedlaethol yn awgrymu bod dros 40% o athrawon gwyddoniaeth yn addysgu y tu allan i'r pwnc y maent yn arbenigo ynddo.[568] Dywedodd y Sefydliad Ffiseg mai dim ond 43.8 y cant o athrawon ffiseg oedd wedi'u hyfforddi yn y pwnc ac mai ffiseg sydd ag un o'r cyfraddau isaf o athrawon arbenigol.[569]

**328.** Dywedodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol y gallai athrawon gwyddoniaeth newydd sydd â llai o brofiad ac y bydd angen mwy o amser arnynt i baratoi ar

---

[562] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 184
[563] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[564] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[565] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 22
[566] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[567] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[568] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[569] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg

gyfer gwersi deimlo effaith addysgu y tu allan i'w harbenigedd yn fwy.[570] Roedd y Sefydliad Ffiseg yn cytuno â hynny. Gwnaethant ddweud ei bod yn lleihau eu hymdeimlad o hunaneffeithiolrwydd, yn ychwanegu at y straen sydd arnynt, ac yn cyfrannu at yr ymdeimlad cyffredinol nad proffesiwn iddyn nhw ydyw o bosibl.[571]

**329.** Dywedodd y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd y gall fod yn arbennig o heriol os gofynnir i athro iaith addysgu iaith y tu allan i'w arbenigedd. Weithiau, dim ond hyd at TGAU y bydd gan athrawon iaith yr iaith ychwanegol, gan ychwanegu at bwysau o ran llwyth gwaith, gan eu bod hefyd yn ceisio dysgu iaith arall.[572]

**330.** Galwodd y Sefydliad Ffiseg ar i athrawon ffiseg allu addysgu o fewn eu maes arbenigedd, heb fod disgwyl iddynt addysgu disgyblaethau gwyddonol eraill, y mae'n bosibl nad oes ganddynt arbenigedd penodol mewn dau ohonynt. Gwnaethant ddweud bod athrawon ffiseg yn cael eu recriwtio fel athrawon gwyddoniaeth ar hyn o bryd, gyda disgwyliad eu bod yn addysgu ar draws y tair disgyblaeth wyddonol. Roeddent o'r farn y byddai sicrhau bod athrawon ffiseg yn addysgu o fewn eu maes arbenigedd yn unig yn helpu i'w cadw yn eu swydd.[573]

**331.** Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod gofyniad wedi bod ar athrawon i addysgu y tu allan i'w harbenigedd eu hunain ers tro. Ni fyddai hynny'n newid oni bai ei fod yn cael sylw penodol.[574] Yn ôl Cyngor y Gweithlu Addysg, mae hyn yn hen nodwedd sefydlog o addysgu yng Nghymru am nad yw SAC yng Nghymru yn benodol i oedran nac i bwnc.[575]

**332.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg y gall addysgu y tu allan i arbenigedd effeithio ar safonau, yn ogystal â llwyth gwaith, a'i fod yn rhoi llawer iawn o bwysau ar yr athro unigol hwnnw, wrth geisio cadw un neu ddau gam o flaen y dosbarth. Nid yw hynny, mewn gwirionedd, yn ffordd o gadw safonau'n uchel yn y maes.[576] Cododd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol bryderon hefyd ynghylch yr effaith ar ddeilliannau myfyrwyr. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith y bydd lefel yr effaith yn dibynnu ar ba mor agos yw'r cysylltiad rhwng y pwnc y mae'r athro yn arbenigo ynddo â'r pwnc ychwanegol y gofynnir iddo ei addysg. Gwnaethant ddweud, er

[570] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 22
[571] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[572] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 307
[573] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[574] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 339
[575] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[576] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 22

bod athrawon pynciau STEM yn cael ceisiadau i gyflenwi pynciau gwyddoniaeth, gofynnir weithiau i athrawon o ddisgyblaethau anghysylltiedig.[577]

**333.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg nad yw addysgu y tu allan i arbenigedd athro unigol yn cael ei ganiatáu yn yr Alban, lle mae athrawon yn cael eu cofrestru i bwnc penodol ac ni allant addysgu y tu allan i'r arbenigedd hwn.[578] Dywedodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol y byddai newid o'r fath yn gofyn am ailwampio'r system addysg yng Nghymru yn llwyr.[579] Roedd y Sefydliad Ffiseg yn cytuno â hynny a gwnaethant nodi nad oes gan Gymru y gweithlu i symud i'r math hwn o fodel.[580]

**334.** Mae'r disgwyliadau cynyddol ar athrawon ac ysgolion i fynd i'r afael â materion y tu allan i addysg yn ffactor arall. Clywsom bryderon am hyn gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys:

- Education Support[581];
- Cyngor y Gweithlu Addysg[582];
- Estyn[583];
- Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol[584];
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru[585].

**335.** Gall rhai o'r materion hyn fod yn arbennig o heriol, sy'n gwaethygu lludded ymhellach.

> *"Nid athrawon yn unig ydyn ni mwyach. Rydyn ni'n weithwyr cymdeithasol, rydyn ni'n therapyddion lleferydd, rydyn ni'n ffisiotherapyddion, rydyn ni'n therapyddion galwedigaethol, rydyn ni'n ddietegwyr, rydyn ni'n gwnselwyr. Rydyn ni'n bopeth.*

[577] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[578] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[579] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 202
[580] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 208
[581] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[582] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[583] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[584] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[585] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

*Dydw i ddim yn gwybod sut i baratoi athro i ddod i mewn i hynny i gyd" – Arweinydd ysgol ADY*[586]

**336.** Dywedodd Education Support, pan fydd yn rhaid i staff ddelio â sefyllfa heriol, nad oes digon o amser i drafod â'r staff yn iawn ac, o'r herwydd, gall staff addysg brofi trawma dirprwyol heb fod digon o gymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl eu hunain"[587].

**337.** Dywedodd athrawon wrthym fod y gofynion cynyddol gan gymdeithas a llywodraeth, sy'n arwain at gyfrifoldebau ychwanegol fel goruchwylio gweithgareddau a rhaglenni ychwanegol, wedi lleihau'r lle i athrawon orffwys, cynllunio ac adfer.[588] Dywedodd unigolyn wrthym fod y disgwyliadau afrealistig ac anghynaliadwy a osodir ar athrawon yn achosi blinder, straen ac, yn y pen draw, allfudiad o broffesiynau talentog o'r maes.[589]

**338.** Dywedodd Education Support fod cyfraddau cadw yn debygol o wella os bydd gwasanaethau cyhoeddus yn gwella hefyd. Yn eu barn nhw, allwn ni ddim disgwyl i staff ysgolion barhau i ddelio â phethau na all gwasanaethau cyhoeddus eraill fynd i'r afael â nhw. Gwnaethant gyfeirio at eu Mynegai Llesiant Athrawon 2024 a ganfu fod 47 y cant o staff addysg yng Nghymru wedi dweud nad oeddent yn cael digon o gymorth gan wasanaethau cyhoeddus eraill, fel y GIG neu wasanaethau cymdeithasol, i gefnogi eu dysgwyr. Dywedodd mwyafrif y staff fod hyn yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant eu hunain.[590] Dywedodd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol hefyd y bydd y sefyllfa o ran cadw athrawon yn parhau i fod yn fregus os nad eir i'r afael â'r pwysau systemig ehangach.[591]

**339.** Galwodd Education Support ar i Lywodraeth Cymru naill ai ddarparu mwy o adnoddau i gefnogi anghenion cymunedau neu osod terfynau ar gyfrifoldebau staff addysg a'r disgwyliad iddynt fynd y tu hwnt i'w harbenigedd yn ddiderfyn wrth addysgu a dysgu. Roeddent eisiau gweld mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch pa feysydd y mae ysgolion yn gyfrifol amdanynt. Gwnaethant

[586] Senedd Cymru, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 24, Medi 2025
[587] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[588] Senedd Cymru, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 25, Medi 2025
[589] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 02 Unigolyn
[590] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[591] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol

hefyd ddweud mai dim ond y Llywodraeth all helpu i unioni'r darlun strwythurol ehangach.[592]

**340.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd nad oes modd edrych ar y materion hyn ar eu pennau eu hunain. Gwnaethant awgrymu y dylid edrych ar arferion gorau rhyngwladol, yn ogystal ag adeiladu ar ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Roeddent yn teimlo y dylai hynny fod yn fwy systematig yn hytrach na math o raglen grant wedi'i hariannu. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn ddull Cymreig nodedig a fyddai'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â llwyth gwaith ond hefyd yn mynd i'r afael â materion ehangach.[593]

**341.** Galwodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig am ddull cydgysylltiedig sy'n defnyddio ysgolion fel canolfan ar gyfer gwasanaethau eraill i feithrin capasiti a gwneud defnydd gwell o gyllidebau a lleddfu pwysau ar ysgolion.[594]

**342.** O ran camau gweithredu posibl a allai helpu gyda phroblemau llwyth gwaith, clywsom alwadau dro ar ôl tro i gynyddu amser cynllunio, paratoi ac asesu ("CPA").[595] Ar hyn o bryd, mae wedi'i osod ar 10 y cant o'r amser addysgu a amserlennir, a dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru nad oedd hyn yn agos at fod yn ddigon o amser i wneud yr holl gynllunio manwl y mae'n ofynnol i athrawon ei wneud.[596] Nododd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru ei fod yn sarhad.[597] Galwodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru ar iddo gael ei ddyblu i 20 y cant o leiaf. Gwnaethant ddweud mai addysgu yw un o'r unig broffesiynau lle allwch chi ddim gwneud eich gwaith papur oherwydd eich bod chi o flaen dosbarth.[598] Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru y byddai dyblu CPA yn gwneud gwahaniaeth ond y byddai'n costio.[599]

**343.** Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru y gall CPA gael ei amserlennu mewn ffordd sy'n golygu na fydd gan athrawon gyfnod rhydd am nifer o ddiwrnodau. Roeddent o'r farn bod CPA yn bwysig iawn. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod nifer o staff yn gadael i addysgu dramor, yn rhannol i gael mwy o CPA. Mewn rhai lleoedd, bydd cymaint â 50 y cant o CPA, a

592 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR10 Education Support
593 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 172 a 178
594 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
595 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
596 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
597 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
598 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 298
599 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 81

gwnaethant nodi nad oeddent yn gallu credu eu bod erioed wedi llwyddo i'w wneud pan oedden nhw'n gweithio yn y DU.[600]

**344.** Dywedodd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol fod gan ddeallusrwydd artiffisial botensial sylweddol i leihau llwyth gwaith ond derbyniodd y gallai fod yn ffactor straen yn y tymor byr. Gwnaethant gyfeirio at gynllun peilot diweddar o ChatGPT i helpu i gynllunio gwersi gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 3. Gyda chanllawiau priodol, roedd athrawon yn gallu lleihau amser cynllunio gwersi dros 30%, a chynnal ansawdd a pherthnasedd hefyd.[601]

**345.** Nodwn, ers i ni orffen casglu tystiolaeth, fod Estyn wedi cyhoeddi adroddiad thematig ar sut mae deallusrwydd artiffisial yn cefnogi addysgu a dysgu. Adroddodd yr athrawon a oedd yn rhan o'r adolygiad yn gyson fod gostyngiadau sylweddol o ran llwyth gwaith o ganlyniad i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, yn enwedig mewn meysydd fel cynllunio gwersi, creu adnoddau, gwahaniaethu deunyddiau dysgu, ac ysgrifennu adroddiadau. Galwodd am "[d]dull cenedlaethol cydlynol er mwyn sicrhau diogelwch data a manteisio i'r eithaf ar botensial AI … [a lliniaru'r heriau a'r risgiau]"[602].

**346.** Cydnabu Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod Llywodraeth Cymru yn derbyn bod gofynion llwyth gwaith presennol yn anghynaliadwy ac yn effeithio ar ddysgu.[603] Dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, er bod hyn yn wir, mai "prin iawn yw'r gweithredu i wella'r sefyllfa yn y blynyddoedd ddiwethar"[604]. Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, er bod gwaith wedi dechrau, fod angen mwy.[605]

**347.** Roedd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau yn rhwystredig, er gwaethaf cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch y llwyth gwaith, nad yw wedi'i leihau eto.

> *"… heavy feeling of déjà vu. I think that, for certainly every year that I've been in this job, we have met with politicians and employers and talked about the issues with workload. We thought we had something going with the previous education Secretary, when he said, 'We're going to get a grip of this. We're*

[600] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 39-40
[601] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[602] Estyn, Oes Newydd: Sut mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn Cefnogi Addysgu a Dysgu, Crynodeb Gweithredol, 9 Hydref 2025
[603] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[604] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[605] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 203

*going to get a grip of workload, set up workload committees, set up workload sub-committees.' They have been very pleasant, and we've done a lot of talking for a very long period of time, and there has been not one discernible slight difference with regard to workload at the classroom level. Nothing. Nothing whatsoever. No change whatsoever, and yet we've been talking now for around two years on this."*[606]

**348.** Gwnaethant ddweud bod y rhan fwyaf o'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith (gweler paragraff 351) yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth ysgolion ac nid ystafelloedd dosbarth. Gwnaethant alw am fwy o gydlynu a rheolaeth. Gwnaethant ddweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol chwarae rôl er mwyn sicrhau mwy o gysondeb.[607] Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru nad yw'r ad-drefnu haen ganol diweddar wedi lleihau'r llwyth gwaith, ac yn lle hynny mae wedi parhau i gynyddu.[608]

**349.** Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru fod gwelliannau o ran llwyth gwaith mewn rhai meysydd wedi cael eu gwrthbwyso gan gynnydd mewn meysydd eraill. Gwnaethant ddweud bod deddfwriaeth a chanllawiau newydd wedi cael eu cyflwyno heb asesiadau o'r effaith ar lwyth gwaith. Gwnaethant ddweud bod offeryn ar gyfer asesu'r effaith ar lwyth gwaith wedi cael ei addo ers dwy flynedd nawr, ond nid oedd wedi cael ei gyhoeddi ar yr adeg y rhoddwyd y dystiolaeth lafar.[609]

**350.** Cydnabu Llywodraeth Cymru fod llwyth gwaith yn "ffactor allweddol … un o'r rhesymau dros adael y proffesiwn". Gwnaethant gyfeirio at yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu "i leihau biwrocratiaeth i arweinwyr ysgolion". Mae hyn yn cael ei wneud mewn partneriaeth gymdeithasol â phartneriaid addysg allweddol a bydd yn "adnabod meysydd allweddol o lwyth gwaith y gellir eu newid neu eu tynnu oddi ar ysgolion i leihau llwyth gwaith, dileu biwrocratiaeth diangen, lleihau'r baich a chreu lle i athrawon addysgu"[610]. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd hi wedi'i synnu gan gryfder y dystiolaeth a glywsom ar lwyth gwaith.[611]

---

[606] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 276
[607] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 292-284
[608] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 285
[609] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 36
[610] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[611] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 67

**351.** Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru hefyd at y Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol. Cafodd y Grŵp hwn ei gadeirio'n annibynnol, gyda thri gweithgor yn canolbwyntio ar gyllid, adrodd ac ymgysylltu, a datblygu a gweithredu polisïau. Cwblhaodd ei waith ym mis Mehefin 2025, a nododd feysydd ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd camau gweithredu ar lwyth gwaith yn rhan o Gynllun y Gweithlu.[612]

**352.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Cadeirydd y Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol wedi tynnu sylw at newid nodedig yn niwylliant ein cyfarwyddiaeth addysg a'i bod wedi argymell y dylai'r asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith gael ei ddefnyddio ar draws holl adrannau'r Llywodraeth i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau anfwriadol ar lwyth gwaith.[613] Bydd unrhyw bolisi newydd neu ddiwygiedig a gaiff ei lunio gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith, a fydd yn ystyried effaith newidiadau neu bolisïau newydd ar lwyth gwaith staff addysg.[614]

**353.** Roedd y Cadeirydd hefyd wedi nodi gostyngiad sylweddol iawn yn y gofynion adrodd mewn perthynas â grantiau Llywodraeth Cymru, i lawr o 50 i wyth. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru barhau â'r gwaith yr oedd yn ei wneud ar reolwyr busnes ysgolion. Mae'r cynllun peilot hwn yn edrych i weld sut y gallant helpu gyda phroblemau o ran llwyth gwaith.[615]

**354.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y gwaith hwn wedi canolbwyntio ar lwyth gwaith arweinwyr ysgolion, ac y bydd yn anoddach ei nodi ar lefel ystafell ddosbarth. Fel rhan o Gynllun y Gweithlu:

> *"… [they] want to look at how we can have a similarly structured process to improve workload for classroom teachers. It's a very, very high priority for us as a Government, because it's absolutely critical to ensuring the attractiveness of teaching as a profession."*[616]

**355.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod athrawon sy'n addysgu y tu allan i'w harbenigedd wedi'u cynllunio'n dda mewn llawer o leoedd a bod cymorth ar gael. Fodd bynnag, bydd achosion lle na fydd hyn yn digwydd, neu lle na fydd gan staff ddigon o amser i gynllunio. Dywedodd fod gwaith yn mynd rhagddo, yn enwedig

[612] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[613] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 68
[614] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[615] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 70
[616] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 70

drwy'r grant datblygu capasiti, i gefnogi ysgolion i gydweithio a rhannu adnoddau. Mae hyn wedi canolbwyntio ar ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg lle mae'r mater hwn yn gallu bod yn arbennig o ddifrifol.[617]

**356.** Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gydag Adnodd a Dysgu yn y tymor hwy i ddatblygu cyfres genedlaethol o adnoddau dysgu ac addysgu proffesiynol pwnc-benodol i gefnogi athrawon.[618]

**357.** Dywedodd Llywodraeth Cymru eu bod yn cydnabod y "cysylltiad annatod rhwng llwyth gwaith a llesiant". Gwnaethant gyfeirio at y cyllid ar gyfer Education Support sy'n cynnig cymorth llesiant ychwanegol:

> *"... cyngor a chefnogaeth am ddim i ysgolion ledled Cymru a chymorth iechyd meddwl a lles pwrpasol drwy eu Gwasanaeth Lles Ysgol, gyda chefnogaeth barhaus yn ôl yr angen. Ochr yn ochr â hyn, mae Education Support yn darparu gweminarau a dosbarthiadau meistr ar gyfer holl staff y gweithlu addysg yng Nghymru, sydd â'i chasgliad ei hun o adnoddau a gwybodaeth ar y wefan, y mae llawer ohonynt ar gael yn Gymraeg."*[619]

**358.** Gwnaethant hefyd gyfeirio at y "Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol". Roedd y cynllun statudol, a gyhoeddwyd yn 2021, "wedi'i anelu at anghenion dysgwyr oedran ysgol a'r gweithlu sy'n eu helpu i ddysgu. ... gyda chefnogaeth athrawon sy'n gweithredu mewn diwylliant sy'n gwerthfawrogi eu llesiant eu hunain yn gyfartal"[620].

**359.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn agored iawn i'r cyfleoedd y gallai deallusrwydd artiffisial eu cynnig i helpu gyda llwythi gwaith a rhyddhau amser i athrawon wneud yr hyn y gall dim ond athrawon ei wneud, sef sefyll o flaen plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, cydnabu fod risg ynghlwm wrth hyn ac y byddai angen ei reoli'n ofalus.[621]

## Gweithio hyblyg

**360.** Fel y gwnaethom ei amlygu yn y Bennod flaenorol, mae'r cynnydd mewn opsiynau gweithio hyblyg mewn gyrfaoedd a phroffesiynau eraill yn ffactor sy'n

[617] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 122-123
[618] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 124
[619] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[620] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[621] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 81

gwneud addysgu yn llai deniadol i newydd-ddyfodiaid. Clywsom hefyd ei fod yn ffactor arwyddocaol o ran cadw athrawon.

**361.** Mae newidiadau ers y pandemig yn golygu bod pobl eisiau mwy o hyblygrwydd yn eu bywydau gwaith. Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod "mwy a mwy o ddiddordeb gan athrawon mewn oriau gweithio hyblyg, rhannu swyddi, seibiant gyrfa ac amrywiadau eraill i'w telerau ac amodau cyflogaeth"[622].

**362.** O'r athrawon y gwnaethom siarad â nhw a oedd wedi gadael y proffesiwn, dywedodd llawer wrthym fod cael mwy o hyblygrwydd yn ffactor mawr yn eu penderfyniad i adael.

> *"Does dim hyblygrwydd o gwbl. Hyd yn oed os oedd gennych chi ddiwrnod heb wersi, roedd yn rhaid i chi fod yno [yn yr ysgol]. Er ein bod ni wedi bod trwy'r pandemig ac wedi profi ein bod ni'n gallu gweithio gartref." – Athro uwchradd (sydd wedi gadael yn ddiweddar)*[623]

**363.** Clywsom am yr heriau penodol sy'n ymwneud â cheisio sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith â bywyd teuluol, ac â gofal plant yn benodol. Rhannodd athrawon eu rhwystredigaethau ynghylch polisïau absenoldeb anhyblyg a oedd yn ei gwneud hi'n anodd rheoli gofal plant:

> *"Roeddwn i eisiau gyrfa sy'n ystyriol o deuluoedd, felly fe wnes i ddewis addysgu gan wybod y byddwn i'n cael gwyliau a phenwythnosau i ffwrdd i'w treulio gyda fy nheulu. Roeddwn i mor anghywir. Gall rhywun gymryd fy lle yn y gwaith. Gall neb gymryd fy lle o ran fy nheulu." – Athro cynradd (sydd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar)*

> *"Os yw [fy mab] yn sâl… ble ydyn ni'n dod o hyd i'n gofal plant? Gallwn ni ddim jyst cymryd diwrnodau i ffwrdd." – Athro cynradd*[624]

[622] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.19
[623] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 38, Medi 2025
[624] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 39, Medi 2025

**364.** Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod nifer fawr o athrawon benywaidd yn gadael yn eu 30au, a hynny oherwydd bod diffyg hyblygrwydd llwyr o ran bod yn fam sy'n gweithio.[625]

**365.** Gwnaeth pawb y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein gweithgarwch ymgysylltu gytuno y byddai darparu mwy o hyblygrwydd yn cael effaith sylweddol ar gadw athrawon. Gwnaethant nifer o awgrymiadau megis cynnig trefniadau hyblyg neu weithio gartref lle y bo modd, ac ailystyried amserlenni i ganiatáu mwy o ymreolaeth dros amserlenni.[626]

**366.** Clywsom y gall y cyfle i weithio'n fwy hyblyg ddibynnu ar yr ysgol unigol. Dywedodd cynrychiolydd o Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

> *"... So, I work in an excellent school, and I've got an excellent headteacher, and we are free to leave and come and go when we're not teaching. Our head will do everything within their power to enable flexible working practices to take place for people returning from maternity leave, but we know we're not the majority."*[627]

**367.** Dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru fod angen sicrhau bod pawb yn arwain yn effeithiol. Gwnaethant alw ar i bartneriaeth gymdeithasol fod yn ofynnol ar lefel ysgol.[628]

**368.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod newydd-ddyfodiaid ac athrawon profiadol yn ymgymryd â chontractau cyflenwi yn hytrach na swyddi parhaol "er mwyn iddynt allu rheoli eu horiau gwaith a mwynhau gwyliau a gweithgareddau teuluol eraill ar adegau o'u dewis eu hunain"[629].

**369.** Mae mwy o athrawon yn edrych i weithio'n rhan-amser. Fodd bynnag, clywsom gan arweinwyr ysgolion am yr heriau y gall hyn eu cyflwyno o ran y gyllideb ac amserlennu, pan gânt eu cyfyngu gan strwythur diwrnod ysgol cymharol gyfyngol. Dywedwyd wrthym fod yr heriau hyn yn anoddach mewn ysgolion uwchradd, a bod lefelau cynyddol o salwch a'r problemau recriwtio a chadw ehangach yn effeithio ar y sefyllfa ymhellach.

---

[625] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 296
[626] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 94, Medi 2025
[627] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 321
[628] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 323
[629] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.19

> *"Gyda llai o athrawon yn yr ysgol, mae hyn yn golygu bod nifer y bobl sydd angen gwisgo sawl het wahanol yn mynd yn fwy ac yn fwy. Felly rydyn ni ar y pwynt lle gallwn ni ddim rhoi'r hyblygrwydd hwnnw mae pobl ei eisiau oherwydd rydyn ni jyst yn ceisio gweithredu yn y lle cyntaf." – Arweinydd Ysgol Uwchradd*[630]

**370.** Tynnodd Estyn sylw at y ffaith bod nifer yr athrawon sy'n gweithio'n rhan-amser wedi cynyddu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Gwnaethant ddweud eu bod yn ychwanegu llawer i'r proffesiwn ac yn cefnogi ehangu'r gweithlu. Ond, gwnaethant gydnabod bod yna heriau, gan gynnwys sicrhau parhad i ddysgwyr, a chefnogi diwylliant ysgol gyfan o ddysgu proffesiynol.[631]

**371.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod gan Gymru gyfran uwch o athrawon rhan-amser na sydd yn Lloegr. Gwnaethant ddweud, yn un o'u hysgolion astudiaeth achos, fod "pedwar ar hugain o'r wyth deg o staff bellach ar/neu'n dymuno bod ar gontractau hyblyg"[632].

**372.** Roedd yr arweinwyr ysgolion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein gweithgarwch ymgysylltu yn cydnabod y byddai gwella hyblygrwydd yn gwella recriwtio a chadw. Ond roeddent yn teimlo na allai hyblygrwydd gael ei gynnig heb gynnydd sylweddol yn y gyllideb.[633] Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru mai cyfleoedd cyfyngedig oedd ar gael i weithio'n hyblyg.[634] Cafodd hynny ei adleisio gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.[635]

**373.** Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru nad oedden nhw'n credu na fyddai unrhyw arweinydd ysgol eisiau cynnig hyblygrwydd, ond ei fod yn heriol iawn.

> *"… if you were in a small primary school, for example, you need boots on the ground, you need people in the building. That is one of the challenges that you have. In a secondary school, … but, of course, when you are trying to schedule a curriculum of*

[630] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 40, Medi 2025
[631] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[632] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.29
[633] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 41, Medi 2025
[634] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[635] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 20 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, paragraff 3.17

*multiple subjects, and again you have those challenges around scheduling, it'll be those practicalities that will be more of the challenge, not the willingness of headteachers to make it work, because we know of some headteachers who do that already, who already offer that level of flexibility, and I'm sure they would continue to do so. But when you have schools that are having to make cuts on staffing because of the financial pressures, and it is staffing that they're having to cut, because that's the only thing left to cut, then that makes that flexibility much more challenging."*[636]

**374.** Dywedodd Estyn fod arweinwyr ysgolion yn ceisio bod yn fwyfwy creadigol er mwyn cefnogi mwy o hyblygrwydd a chydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith i staff.[637] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod ysgolion yn archwilio gwahanol ffyrdd o gefnogi gweithio hyblyg ond eu bod yn wynebu heriau cyllido a logistaidd, "a'u bod yn brin o gefnogaeth eu hawdurdodau lleol" hefyd.[638]

**375.** Clywsom y gallai dull mwy trefnus o ymdrin â CPA gefnogi athrawon i allu gweithio gartref yn amlach. Dywedodd Estyn fod penaethiaid wedi bod yn greadigol gydag amser CPA mewn rhai ysgolion uwchradd er mwyn galluogi staff i gael un prynhawn bob pythefnos pan allant weithio gartref neu ddod i mewn i'r ysgol ychydig yn hwyrach yn y bore. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt fod dulliau o'r fath yn dod yn fwy heriol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.[639] Galwodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru ar i CPA gael ei amserlennu mewn uned wythnosol y gellir ei gwneud i ffwrdd o'r ysgol.[640]

**376.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Lloegr "wedi cyhoeddi'n ddiweddar y gall athrawon dreulio'r holl amser CPA … a neilltuwyd iddynt yn gweithio gartref os ydynt yn dymuno gwneud hynny"[641].

**377.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gwaith yn mynd rhagddo i wella hyblygrwydd. Dywedodd fod yna waith nad oes angen iddo gael ei wneud yn yr ysgol, gan dynnu sylw at CPA fel enghraifft berffaith. Tynnodd sylw at y ffaith bod

[636] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 80
[637] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[638] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.30
[639] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[640] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[641] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.19

llawer o staff eisoes yn gweithio'n rhan-amser, ond ei bod hi'n bwysig sicrhau tegwch.

> *"If we are allowing school leaders and teachers flexibility, then we need to think about support staff and pastoral staff. So, that's something that we do need to have that discussion with trade unions and local authorities about."*[642]

## Cyflog

**378.** Er bod y safbwyntiau ar faterion fel llwyth gwaith, gweithio hyblyg, a dysgu proffesiynol yn gyson ar y cyfan. Roeddent yn llai cyson o ran cyflog. Roedd mwy o anghydfod ynghylch pa mor bwysig oedd cyflog wrth gadw athrawon.

**379.** Dywedodd unigolyn nad oedd cyflog wedi cadw i fyny â chwyddiant na'r lefelau cynyddol o gyfrifoldeb sydd gan athrawon. Gwnaethant ddweud nad yw cyflog yn adlewyrchu gwaith caled athrawon na'r rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth lunio cenedlaethau'r dyfodol.[643] Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod cyflog yn fater cyson.[644]

**380.** Galwodd yr undebau i gyd am welliannau mewn cyflog. Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod cyflog athrawon wedi bod yn destun toriadau enfawr mewn termau real o gymharu â chwyddiant, gan effeithio ar ba mor gystadleuol yw cyflog athrawon a tharo safonau byw athrawon hefyd. Gwnaethant ddweud bod angen brys am gywiriad cyflog. Hyd yn oed gyda'r codiad cyflog diweddaraf, mae cyflog athrawon profiadol ac arweinwyr ysgolion dros 21% yn is o gymharu â chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) nag yr oedd yn 2010. Gwnaethant ddweud bod cyflog athrawon wedi llusgo y tu ôl i chwyddiant am y rhan fwyaf o flynyddoedd ers 2010, a gwnaethant ddadlau ei fod ar ei leiaf cystadleuol ers 1945. Roeddent o'r farn bod cysylltiad clir ac uniongyrchol rhwng toriadau cyflog o gymharu â chwyddiant a phroblemau recriwtio a chadw.[645]

**381.** Nododd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru fod gostyngiad wedi bod mewn cyflogau mewn termau real ers 2010. Gwnaethant ddweud bod enillion cyfartalog athrawon ac arweinwyr, ym mis Medi 2023, 9 y cant yn is nag ym mis Ebrill 2010 ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr.[646]

[642] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 80
[643] Tystiolaeth ysgrifenedig, Unigolyn
[644] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 44
[645] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[646] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 20 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, paragraff 3.13

Ymhlith eraill a nododd fod cyflogau mewn termau real wedi gostwng ers 2010 roedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd[647].

**382.** Dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu fod angen i gyflogau fod yn fwy cystadleuol o gymharu â swyddi a sectorau eraill.[648]

**383.** Clywsom am yr effaith y gall lefelau cyflog ei chael ar fywydau athrawon, megis eu gallu i brynu cartref. Gall hyn wedyn fod yn sbardun i adael y proffesiwn i symud i yrfaoedd sy'n talu'n well.[649]

**384.** Codwyd y mater o gyflogau o gymharu â phroffesiynau eraill. Ymhlith y rhai a gododd y mater roedd Cyngor y Gweithlu Addysg[650] a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru[651]. Dywedodd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru:

> *"While teachers' median total salaries (including Teaching and Learning Responsibility allowances – TLRs) are comparable to other professions in Wales, data shows less salary progression for more experienced teachers, compared with other professions and teachers in some other jurisdictions."*

Gwnaethant ddweud bod hyn oherwydd bod gan athrawon yng Nghymru raddfa gyflog gymharol gywasgedig sy'n arwain at 'lwyfandir cyflog. Pan gyrhaeddir y llwyfandir hwn, mae'n rhaid ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol er mwyn cynyddu cyflog.[652] Nododd Cyngor y Gweithlu Addysg mai cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gael i gynyddu cyflog."[653] Felly hefyd Brifysgol Metropolitan Caerdydd[654].

**385.** Dywedodd Education Support fod cyflog cystadleuol yn rhan bwysig iawn o gadw athrawon ond bod agweddau eraill yn bwysig hefyd, gan gynnwys amodau gwaith, datblygiad proffesiynol, a gwerthfawrogiad.[655]

---

[647] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.20
[648] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 95, Medi 2025
[649] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.21
[650] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 44
[651] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 37
[652] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 20 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, paragraff 3.15
[653] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[654] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.20
[655] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support

**386.** Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau fod amodau'n well yng Nghymru nag yn Lloegr, a'u bod yn priodoli hyn i bartneriaethau cymdeithasol â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.[656]

**387.** Awgrymodd eraill nad oedd cyflog yn gymaint o ffactor. Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod cyflog yn cael ei nodi'n llai aml fel pryder. Gwnaethant ddweud bod penaethiaid o'r farn bod llawer sy'n gadael addysgu yn gynnar yn eu gyrfaoedd "yn symud ymlaen i swyddi sy'n talu llai, a'u bod yn cael eu cymell gan faterion … cydbwysedd bywyd/gwaith"[657]. Gwnaethant hefyd gyfeirio at ganfyddiadau'r OECD bod statws a datblygiad gyrfa yr un mor bwysig â lefelau cyflog o ran cadw staff yn y rhan fwyaf o wledydd.[658]

**388.** Amlinellodd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru yr argymhellion y mae wedi'u gwneud ar gyflog ac amodau, sydd wedi'u rhoi ar waith:

> *"… the restoration of a national pay scale, with articulated pay points; the shortening of the main pay range, meaning that teacher in Wales can reach the top of the scale within 5 years; the removal of performance related pay, with the exception of progression to the upper pay range; the restoration of pay portability; amendments to Teaching and Learning Responsibility allowances, to reward classroom teaching and pastoral care; recommendations regarding the role of Additional Learning Needs Co-ordinators, currently under discussion."*[659]

**389.** Amlinellodd Llywodraeth Cymru y "broses flynyddol y cytunwyd arni" o ran cyflogau ac amodau, sy'n cynnwys "partneriaid cymdeithasol" a'r argymhellion gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru. Gwnaethant ddweud bod cylch gwaith y Corff Adolygu Cyflogau bob amser yn gofyn iddyn nhw "roi sylw arbennig i gefnogi recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr o ansawdd a nifer digonol, tra'n adlewyrchu heriau cyllid cynaliadwy y sector cyhoeddus"[660].

**390.** Mae'r broses hon:

[656] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 366
[657] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.19
[658] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.22
[659] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 20 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, paragraff 5.2
[660] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru

> *"… wedi ein galluogi i gyflwyno rhai newidiadau allweddol y gofynnwyd amdanynt gan y proffesiwn er mwyn gwella system cyflogau athrawon dros y pum mlynedd diwethaf. Mae newidiadau cadarnhaol wedi cynnwys ailgyflwyno cludadwyedd cyflog a chael gwared ar ddatblygiad cyflog yn seiliedig ar berfformiad. Y llynedd, gwnaethom hefyd ddiddymu'r egwyddor pro rata lem ar gyfer lwfansau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD), gan wneud y lwfansau hyn yn fwy hygyrch ac yn llawer tecach i athrawon rhan-amser. Eleni, rwyf wedi dileu'r broses ymgeisio i symud o'r brif raddfa gyflog i'r raddfa gyflog uwch wrth i ni weithio gyda phartneriaid i ddatblygu un raddfa gyflog ar gyfer athrawon dosbarth. Rwyf hefyd wedi ymrwymo i symud cydlynwyr ADY i raddfa gyflog y grŵp arweinyddiaeth ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni hyn cyn gynted â phosibl."*[661]

**391.** Gwnaethant bwysleisio'r dull partneriaeth gymdeithasol sydd wedi'i fabwysiadu yng Nghymru, sydd, yn eu barn nhw, wedi golygu bod cyflogau a lwfansau ar gyfer athrawon newydd a mwy profiadol yn uwch na'r rhai yn Lloegr.[662]

## Ymddygiad heriol

**392.** Clywsom am y cyd-destun heriol y mae ysgolion yn gweithredu ynddo, yn enwedig ymddygiad mwyfwy anodd gan ddysgwyr, ond hefyd gan deuluoedd, a chymdeithas ehangach. Mae hyn yn effeithio ar y canfyddiad o addysgu a recriwtio, ond hefyd ar yr apêl tymor hwy i staff sydd eisoes yn y proffesiwn. Gall hefyd gael effaith sylweddol ar lesiant athrawon.

**393.** Ymddengys fod ymddygiad dysgwyr wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod pethau wedi gwaethygu ers y pandemig. Gwnaethant gyfeirio at eu Harolwg Ymddygiad diweddar o aelodau'r Undeb Addysg Cenedlaethol yng Nghymru, a ganfu fod 87 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod ymddygiad a'r ffordd yr oedd yn cael ei drin yn eu lleoliad eu hunain wedi gwaethygu.[663] Ymhlith y rhai eraill a nododd gynnydd mewn ymddygiad heriol roedd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

[661] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[662] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[663] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

Cymru[664]; Prifysgol Metropolitan Caerdydd[665]; Cyngor y Gweithlu Addysg[666]; a'r athrawon a'r arweinwyr y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n gwaith ymgysylltu.[667] Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod yr effaith y mae rheoli ymddygiad heriol yn ei chael yn tanseilio addysgu a dysgu.[668]

**394.** Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod y pandemig yn ysgytwad 10 mlynedd dros nos a newidiodd gyd-destun pob ysgol.[669]

**395.** Cafodd y cynnydd mewn ymddygiad heriol ei briodoli i nifer o ffactorau gan gynnwys:

- Gostyngiad yn nifer y staff cymorth a llai o gymorth unigol i fyfyrwyr[670];
- Cynnydd mewn anghenion ADY heb eu diwallu[671];
- Effaith tlodi plant, yn enwedig effaith mynd heb fwyd[672];
- Nifer uchel o blant â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod[673];
- Diffyg mynediad at wasanaethau arbenigol fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc[674];
- Gweithredu polisïau ysgolion yn anghyson / diffyg cefnogaeth gan uwch dimau arwain ysgolion[675];

---

[664] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 124
[665] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.13
[666] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[667] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 67, Medi 2025
[668] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[669] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 124
[670] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 129 [Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru]; Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 68, Medi 2025
[671] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru; Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 68, Medi 2025
[672] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[673] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[674] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru; Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 68, Medi 2025
[675] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

- Defnyddio ffonau symudol a chyfryngau cymdeithasol[676];
- Fepio[677];
- Heriau recriwtio a chadw sy'n arwain at fwy o anghysondebau o ran staff a dibyniaeth ar athrawon cyflenwi[678];
- Dim gofal bugeiliol[679].

**396.** Clywsom y gall athrawon deimlo dan fygythiad mewn rhai achosion pan fyddant yn yr ysgol.[680] Cyfeiriodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru at y cynnydd mewn digwyddiadau treisgar mewn ysgolion.[681] Dywedodd Education Support hefyd fod ganddynt lawer o enghreifftiau lle roedd athrawon yn teimlo'n anniogel yn y gwaith.[682]

**397.** Tynnodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol sylw at yr heriau penodol y gall athrawon newydd eu hwynebu wrth reoli ymddygiad. Gwnaethant ddweud ei bod hi'n bwysig bod gan ysgolion bolisïau cryf fel bod athrawon newydd a fydd bob amser yn wynebu'r ymddygiad gwaethaf yn cael eu cefnogi.[683]

**398.** Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod dull cyfannol sy'n defnyddio ystod o arferion yn allweddol i ddatblygu dull ysgol gyfan o reoli ymddygiad os yw lleoliadau am fynd i'r afael ag ymddygiad heriol o ddifrif a chreu amgylcheddau dysgu cynhwysol a diogel i bob dysgwr ac aelod o staff.[684] Dywedodd Estyn fod gan ysgolion â chyfraddau cadw da arweinwyr ysgolion a oedd yn sicrhau bod strategaethau effeithiol ar waith i fynd i'r afael ag ymddygiad, a'u bod yn cael eu cynllunio'n ofalus fel bod gan athrawon ddosbarthiadau o faint y gellir ei reoli.[685]

**399.** Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod angen cynyddu cyllid ysgolion i sicrhau bod gan ysgolion ddigon o staff i gefnogi plant,

---

[676] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.14; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 256
[677] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[678] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 71, Medi 2025
[679] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[680] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[681] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[682] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[683] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 196
[684] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[685] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn

yn enwedig staff anstatudol fel gweithwyr ymyriadau ymddygiad neu gymorth bugeiliol arall.[686] Galwodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am:

> *"… behaviour strategy that local authorities could embrace and deliver across our schools to ensure there's a consistency and continuity so that teachers know that they're going to a school with a consistent approach to behaviour and how it's dealt with to minimise some of that low-level poor behaviour in classrooms before behaviour actually gets out of hand."*[687]

**400.** Tynnodd athrawon, cyn-athrawon ac arweinwyr ysgolion y gwnaethom siarad â nhw sylw at yr angen am fwy o gymorth arbenigol a mwy o hyfforddiant i staff wrth reoli anghenion amrywiol.[688] Gwnaethant ddweud bod effaith y trawma y mae dysgwyr yn ei brofi gartref yn cael ei nodi'n well nawr nag yr oedd yn flaenorol. O ganlyniad, mae ysgolion yn buddsoddi mewn arferion sy'n ystyriol o drawma, ond roeddent o'r farn nad yw'r cymorth sydd ar gael yn ddigonol i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol mwy difrifol myfyrwyr.[689]

**401.** Ymhlith y rhai a dynnodd sylw at yr effaith y mae ymddygiad heriol yn ei chael ar lesiant athrawon roedd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[690]; Education Support[691]; Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru[692]; a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[693].

**402.** Cyfeiriodd Education Support at ganfyddiadau eu Harolwg o Lesiant Athrawon yn 2024 a ganfu fod 58 y cant o staff yng Nghymru wedi profi mwy o achosion o ymddygiad heriol o gymharu â'r llynedd. O blith y staff hyn, dywedodd 80 y cant ei fod wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Gwnaethant ddweud bod ymddygiad gwael (gan ddysgwyr a'u teuluoedd) yn ei gwneud hi'n anoddach i staff anghofio am waith, eu hunaneffeithiolrwydd, a'r boddhad maent yn ei deimlo yn eu swydd, sydd wedyn yn effeithio ar gyfraddau

[686] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 196
[687] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 348
[688] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 101, Medi 2025
[689] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 70, Medi 2025
[690] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 125
[691] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[692] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[693] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

cadw.[694] Cyfeiriodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol at dystiolaeth gan TeacherTapp sy'n dangos mai ymddygiad myfyrwyr yw'r prif ffactor nawr sy'n cyfrannu at straen.[695]

**403.** Cyfeiriodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru at eu harolwg eu hunain o ymddygiad a ganfu fod 73 y cant o'r ymatebwyr wedi dweud bod ymddygiad yn cael effaith negyddol ar eu llesiant yn rheolaidd neu weithiau. Dywedodd 70 y cant fod hyn wedi gwneud iddynt feddwl am adael addysg.[696]

**404.** Dywedodd un arweinydd ysgol y gwnaethom siarad â hi fod ymddygiad eithafol myfyriwr penodol, ynghyd â diffyg cefnogaeth gan ei Phennaeth, wedi'i gadael heb unrhyw ddewis ond cerdded i ffwrdd o'r proffesiwn neu wynebu niwed difrifol i'w hiechyd ei hun.

> *"Tridiau'r wythnos, roeddwn i'n cael fy nghicio, fy mrathu, esgidiau'n cael eu taflu ataf, a Chromebooks. Mae hyn mewn ystafell ddosbarth lle'r oeddwn i'n dal i geisio addysgu 16 o blant eraill. Dydw i ddim yn dod i'r gwaith i [g]ael fy anafu." – Pennaeth Cynorthwyol Cynradd (sydd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar)*[697]

**405.** Er bod ymddygiad wedi dod yn fwy heriol yn yr ystafell ddosbarth, clywsom hefyd nad yw athrawon, arweinwyr ysgolion nac ysgolion bob amser yn cael yr un gefnogaeth ag yr oeddent yn ei chael yn flaenorol gan deuluoedd na'r gymuned ehangach. Mae hyn wedyn yn gwneud delio ag ymddygiad heriol yn yr ystafell ddosbarth yn anoddach, ac mae hefyd yn effeithio ar fywydau ehangach staff, yn enwedig gyda'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

**406.** Disgrifiodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru rieni yn herio penderfyniadau disgyblu ysgolion, yn cwestiynu rheolau a ddim yn gweithio gydag ysgolion. Weithiau gall yr ymddygiad hwn fod "yn heriol a bygythiol ar brydiau, gan ymddangos mewn ysgolion heb rybudd…"[698]. Nododd Cyngor y Gweithlu Addysg fod yna berthnasoedd "dan straen" mewn rhai meysydd sy'n

---

[694] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[695] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 19
[696] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[697] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 69, Medi 2025
[698] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

arwain at fwy o absenoldebau ymhlith dysgwyr ac ymddieithrio gan rieni a all achosi gwrthdaro a straen.[699]

**407.** Siaradodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru am ddiffyg cefnogaeth gan gartrefi pan gaiff polisïau rheoli ymddygiad eu gweithredu. Gwnaethant ddweud bod cefnogaeth gan deuluoedd yn hanfodol ar gyfer rheoli ymddygiad yn effeithiol ond nad yw bob amser ar gael.[700] Pwysleisiodd yr athrawon, y cyn-athrawon a'r arweinwyr ysgolion y gwnaethom siarad â nhw hefyd bwysigrwydd cefnogaeth gref o'r cartref i gefnogi athrawon i reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth.[701]

**408.** Nododd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod athrawon yn adrodd bod dysgwyr a'u teuluoedd yn datblygu "diwylliant hawl" sy'n effeithio ar sancsiynau ac yn arwain at fwy o gwynion yn erbyn athrawon sy'n herio ymddygiad.[702] Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, cyn y pandemig, fod staff addysg yn cael eu gweld fel rhai â bwriad cadarnhaol. Hyd yn oed pe bai anghytundeb, nodwyd nad oedd eu bwriad byth yn cael ei gwestiynu, ond nawr mae eu bwriad yn cael ei gwestiynu, a hynny'n gyhoeddus.[703]

**409.** Siaradodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau am yr effaith y mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ei chael, gan ddweud y gall rhwyddineb cyfryngau cymdeithasol waethygu sefyllfaoedd:

> *"The unhappiness, the mumblings that might have taken place on the school car park at the end of the day are now transformed to being out there with regard to social media."*[704]

Gwnaethant hefyd dynnu sylw at yr effaith y gall hyn ei chael ar enw da pan fydd athrawon ac arweinwyr ysgolion yn cael sylw ar draws y cyfryngau cymdeithasol.[705] Siaradodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru hefyd am yr effaith y mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ei chael, gan ddweud bod grwpiau o bobl yn eu defnyddio i wawdio, i ymosod arnoch, ac mae fel pe bai casineb yn magu casineb, ac felly mae'n mynd yn fwy ac yn fwy.[706]

---

[699] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[700] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 136
[701] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 72, Medi 2025
[702] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 5.13
[703] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[704] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 255
[705] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 257
[706] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 17

**410.** Nododd Education Support gynnydd mewn cwynion blinderus gan rieni a gwarcheidwaid, gan ddweud bod 43 y cant o staff wedi dweud bod eu hysgol wedi gweld cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[707]

**411.** Galwodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru am gynllun ymwybodol i wrthdroi agweddau tuag at staff addysg. Gwnaethant gymhariaeth â hysbysebion gyrru dan ddylanwad alcohol.

> *"It's almost those types of ads that you need, that constant replay again. But, rather than trying to make it about just education, it needs to be made about, 'We care. We love your kids like you love your kids', and get that trust in our positive intent back in. It has to start with the press, and we have to challenge what the press are putting in, because they're fuelling the fire."*[708]

**412.** Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet dderbyn bod ymddygiad yn her fawr ond nododd fod ffocws arno o fewn Llywodraeth Cymru. Dywedodd, er nad oedd ganddi ddata manwl gywir am effaith ymddygiad ar y pryd, ei bod hi'n gwybod ei fod yn cael effaith. Dywedodd nad oedd yn ymwneud ag ymddygiad yn unig ond hefyd â'r cymhlethdodau y mae'n rhaid i ysgolion ddelio â nhw. O ganlyniad, roedd angen dull amlasiantaeth gwell i gefnogi ysgolion. Dywedodd na all eraill feddwl am ysgolion fel y pedwerydd gwasanaeth brys, a galwodd ar bawb i gamu i fyny a chefnogi'r ysgolion hynny. Nododd y byddai hynny, ynddo'i hun, yn gwneud gwahaniaeth mawr.[709]

**413.** Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod angen gwneud mwy i sicrhau bod y proffesiwn addysgu yn cael ei barchu a'i edmygu.

> *"We've also had challenges with the portrayal of teaching in the media. Now, since I've come into post, obviously, I'm in schools a lot, and I've got to say I've been absolutely blown away by what I've seen amongst our school leaders and our teachers. It's been really, really inspirational. I've had several school leaders say to me this is the best job in the world, and we definitely need to do*

[707] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[708] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 30
[709] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 83-84

*more to sell that to the public and to people who are thinking about coming into the profession.”*[710]

## Ein barn ni

**414.** Yn gyffredinol, byddai angen mewnbwn ariannol sylweddol i wella rhai o’r materion y tynnwyd sylw atynt yn y Bennod hon. Mae angen mwy o athrawon er mwyn mynd i’r afael â phwysau llwyth gwaith, sicrhau bod mwy o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael, a chynnig patrymau gwaith mwy hyblyg. Mae hyn ar adeg pan mae ysgolion yn wynebu pwysau ariannol anodd, ac yn aml yn cael eu gorfodi i leihau nifer y staff. Ond credwn ei bod yn bwysig ac y dylai fod yn flaenoriaeth wleidyddol i’r Llywodraeth Cymru bresennol a’r un nesaf. Fel yr ydym wedi’i ddweud o’r blaen, dim ond un siawns mae plant yn ei chael o ran eu haddysg yn yr ysgol. Mae addysg yn hanfodol ac yn allweddol. Mae’r gost o beidio â’i chael yn iawn yn rhy uchel, nid yn unig i ddysgwyr unigol ond hefyd i’r gymdeithas ehangach.

**415.** Rydym yn pryderu nad yw’r rhaglenni sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yn ddigon cryf ar draws y wlad. Mae rhaglen sefydlu glir, gefnogol wedi’i strwythuro’n dda sy’n rhoi lle ac amser i athrawon newydd ddatblygu eu sgiliau a magu hyder yn floc adeiladu hanfodol ar gyfer gyrfa hapus a llwyddiannus ym maes addysgu.

**416.** Dylai mentora fod yn nodwedd bwysig o gymorth gyrfa gynnar a dysgu proffesiynol parhaus. Gall mentora dyheadol wella safonau. Gall hefyd chwarae rôl wrth ledaenu arfer da ym mhob rhan o’r proffesiwn.

**417.** Mae dysgu proffesiynol yn parhau i fod yn bwysig drwy gydol gyrfa athro, gan sicrhau ei fod ar flaen y gad o ran arbenigedd pwnc ac ymarfer addysgegol. Ond, mae pwysau o ran llwyth gwaith a phwysau ariannol yn golygu nad yw rhai athrawon yn gallu manteisio ar ddysgu proffesiynol. Mae cwestiynau difrifol y mae angen eu gofyn am sut y gall athrawon gael eu cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol y byddent yn cael budd ohonynt.

**418.** Gall cyfnodau sabothol chwarae rôl bwysig wrth ddatblygu sgiliau ac arbenigedd, i’r athro a’r ysgol unigol; ac i’w hysgol neu sefydliad lletyol. Fodd bynnag, gall fod heriau ynghlwm wrth fanteisio ar gyfleoedd o’r fath, yn enwedig gallu ysgolion i ôl-lenwi pan fo athrawon ar gyfnod sabothol. Credwn y dylid ymchwilio ymhellach i’r ffordd y gall cyfnodau sabothol gael eu defnyddio’n

[710] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 73

effeithiol ar gyfer dysgu proffesiynol, a sut y gall ysgolion ac athrawon gael eu cefnogi i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'u Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, gynnwys gwaith ar y defnydd a wneir o gyfnodau sabothol mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd, a sut y gall ysgolion a staff ysgol gael eu cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd sabothol.

**419.** Dylai cyfleoedd i rannu arfer da a'i ddysgu oddi wrth eraill fod yn rhan o'r rhaglen dysgu proffesiynol i bob athro ac ysgol. Rydym yn gwybod o brofiad o fewn ein hetholaethau a'n rhanbarthau ein hunain bod y math hwn o ddysgu proffesiynol yn gallu bod yn arbennig o fuddiol. Mae angen i ysgolion gael yr amser a'r gefnogaeth i wneud hyn. Rydym yn pryderu bod rhywfaint o'r gefnogaeth hyn wedi cael ei cholli wrth ddiddymu'r consortia rhanbarthol. Mae Estyn a Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl bwysig wrth oruchwylio'r gwasanaethau newydd ar gyfer gwella ysgolion. Rydym wedi bod yn edrych ar wella ysgolion fel mater penodol, a byddwn yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch hyn ar wahân. Fodd bynnag, o ran yr ymchwiliad hwn, rydym yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod digon o gyfleoedd i nodi arferion da a'i rhannu wedyn ag ysgolion yn lleol ac yn genedlaethol.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae'n helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i nodi arferion da ac yna sut mae'n helpu i ledaenu'r arferion da hyn ar draws y sector addysg yng Nghymru.

**420.** Mae llwyth gwaith yn amlwg yn her i athrawon. Caiff hyn ei dderbyn gan bawb, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae'n ffactor mawr sy'n ysgogi athrawon i adael y proffesiwn. Rydym yn ymwybodol bod hwn yn fater y mae gwledydd eraill yn cael trafferth gydag ef, ac mae'n ymddangos nad oes neb wedi dod o hyd i'r bwled arian. Ond efallai bod gwersi y gallwn eu dysgu a'u cymhwyso i'r cyd-destun yng Nghymru. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn hawdd nodi'r ffaith bod llwyth gwaith yn her, ac yn llawer anoddach nodi atebion ystyrlon.

**421.** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar hyn, ond yn ôl y dystiolaeth a glywsom, nid yw wedi cael effaith ar yr ystafell ddosbarth eto. Hoffem gael mwy o fanylion am union effaith y Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol a sut mae hyn wedi lleihau'r llwyth gwaith.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r effeithiau y mae'r Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol wedi'u cael o ran lleihau llwyth gwaith a nodi ym

mha feysydd o weithrediadau ysgolion y mae'r buddiannau hyn wedi'u gweld a'r effeithiau ar y gweithlu.

**422.** Rydym yn ystyried effaith diwygiadau addysg ar lwyth gwaith yn fanylach ym mharagraffau 494-495.

**423.** Rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod mynd i'r afael â phwysau llwyth gwaith yn cael ei flaenoriaethu yng Nghynllun y Gweithlu. Wrth edrych ar y mater hwn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn siarad yn uniongyrchol ag athrawon ledled Cymru i ddeall yr heriau ac atebion posibl yn well. Ni ddylai gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori gael ei gyfyngu i gyrff cynrychioliadol yn unig. Rhaid sicrhau bod lleisiau athrawon rheng flaen yn cael eu clywed hefyd. Dylai'r gwaith hwn ystyried sut y gellir mynd ati i fesur llwyth gwaith er mwyn sicrhau bod modd gwerthuso ymyriadau polisi.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod lleihau llwythi gwaith athrawon dosbarth yn flaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Strategol y Gweithlu Addysg. Dylai Cynllun y Gweithlu gynnwys camau gweithredu clir a mesuradwy sydd â'r nod o leihau llwythi gwaith athrawon cyn gynted â phosibl mewn ffordd ystyrlon ac amlwg. Dylai hefyd gynnwys ffyrdd o fesur llwyth gwaith. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag athrawon. Dylai hefyd edrych ar arferion gorau o'r gwledydd eraill, yn y DU ac yn rhyngwladol, a cheisio cymhwyso unrhyw rai o'r arferion hyn a fyddai'n gweithio yng Nghymru.

**424.** Mae ysgolion yn adlewyrchu cymdeithas yn ehangach. Mae rhai o'r materion y maent yn eu hwynebu y tu hwnt i reolaeth ysgol unigol, awdurdod lleol neu hyd yn oed Llywodraeth. Ond mae'n amlwg ein bod yn gofyn gormod i ysgolion ddatrys yr holl helbulon y mae cymdeithas yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae'n amlwg nad yw ysgolion yn gweithredu ar eu pennau eu hunain ond nid eu gwaith nhw yw gweithredu fel pedwerydd gwasanaeth argyfwng neu lenwi'r bylchau a welir mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae angen i ddisgwyliadau fod yn realistig o ran yr hyn y gellir gofyn i ysgolion ei gefnogi y tu hwnt i'w diben addysgol craidd.

**425.** Efallai na fydd athrawon sydd angen cymorth ychwanegol yn teimlo'n gyfforddus yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i gael cymorth bob amser. Gallai hyn fod am eu bod yn ofni y bydd pobl yn edrych arnynt mewn ffordd wahanol.

**426.** Mae addysgu yn swydd llai hyblyg na rhai gyrfaoedd eraill ond nid yw hyn yn golygu na all fod rhywfaint o hyblygrwydd. Credwn y dylai fod uchelgais cyffredinol ar draws y sector i gynnig mwy o hyblygrwydd fel mater o drefn. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion yn awyddus i allu gwneud hyn, er bod yr heriau ymarferol yn gallu ymddangos yn anorchfygol. Ond er bod yn rhaid i staff fod ar y safle i addysgu neu gynnal gweithgareddau eraill, nid oes rhaid iddynt fod ar y safle i wneud CPA. Mae rhai ysgolion yn amserlennu CPA mewn ffordd sy'n sicrhau bod athrawon yn gallu gweithio oddi ar y safle ac yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd. Rydym hefyd yn nodi'r dystiolaeth gan benaethiaid y byddai cael mwy o staff yn helpu i gefnogi mwy o weithio hyblyg, fel cynnig oriau rhan-amser yn ogystal â chyfleoedd i weithio gartref. Mae'n heriol cynnig hyblygrwydd pan rydych chi eisoes yn gweithredu gyda nifer bach iawn o staff.

**427.** Credwn y dylai fod dyletswydd ar ysgolion i gefnogi mwy o weithio hyblyg ar gyfer y gweithgareddau hynny, fel CPA, nad oes rhaid iddynt gael eu gwneud yn yr ystafell ddosbarth. Lle y gellir cefnogi hynny, dylai athrawon fod yn gallu gweithio gartref i ymgymryd â CPA, neu o leiaf, os oes yn rhaid iddynt aros ar y safle, ni ddylid tarfu arnynt neu ofyn iddynt wneud dyletswyddau eraill, gan gynnwys cymryd gwersi yn lle athrawon eraill. Mae darparu mwy o hyblygrwydd yn gwneud addysgu yn broffesiwn mwy deniadol i ymuno ag ef, ac i aros ynddo yn y tymor hir.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru osod disgwyliad i ysgolion ac awdurdodau lleol y gall gweithgareddau nad oes angen iddynt gael eu gwneud yn yr ysgol, fel cynllunio, paratoi ac asesu (CPA), gael eu gwneud oddi ar y safle. Wrth osod y disgwyliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn glir y dylid llunio amserlenni mewn ffordd a fyddai'n cefnogi gweithio oddi ar y safle ar gyfer CPA. Fel isafswm, lle mae'n rhaid i athrawon aros ar y safle, rhaid i amser CPA gael ei warchod fel nad oes modd tarfu arnynt na gofyn iddynt fynd i'r afael â materion eraill yn yr ysgol.

**428.** O ran cyflog, nodwyd mai tystiolaeth gymysg a gafwyd ynghylch y graddau y mae'n ffactor allweddol wrth recriwtio neu gadw. Ar ben hynny, mae rhwystrau ariannol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n golygu bod cynnydd sylweddol mewn cyflogau yn annichonadwy.

**429.** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi llawer o bwyslais yn ystod y misoedd diwethaf ar ei Huwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol, a gynhaliwyd ym mis Mai 2025. Yn dilyn yr Uwchgynhadledd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "[b]um cam sydd i'w cymryd ar unwaith", gan gynnwys creu strwythurau i gefnogi gwaith

amlasiantaethol, a system ar gyfer rhannu arferion gorau rhwng ysgolion, yn lleol ac yn genedlaethol.[711]

**430.** O ran ymddygiad disgyblion, nodwn hefyd bwysigrwydd cyfrifoldeb rhieni a gofalwyr wrth sicrhau bod plant yn gallu mynychu ysgol ac ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon. Mae'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn ymestyn i weithredu mewn partneriaeth ag ysgolion pan fydd heriau o ran ymddygiad.

**431.** Rydym yn pryderu rhywfaint nad ydym wedi gweld camau gweithredu pendant, go iawn yn deillio o'r Uwchgynhadledd hon hyd yma, a hynny ar fater pwysig y mae angen mynd i'r afael ag ef ar frys. Nodwyd fod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi sôn am ddiweddaru canllawiau i ysgolion. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, canllawiau ar reoli ymddygiad o 2012 sydd ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae llawer wedi newid ers 2012. Ni fydd dulliau o fynd i'r afael ag ymddygiad yn 2012, o reidrwydd, yn iawn ar gyfer ysgolion yn 2026. Credwn ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres o ganllawiau clir a chynhwysfawr ar reoli ymddygiad ar gyfer pob math o leoliadau ysgol yng Nghymru fel mater o frys. Byddai canllawiau o'r fath yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i athrawon bod dull cyson o fynd i'r afael ag ymddygiad yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir, cydlynol a chyffredinol ar reoli ymddygiad sy'n fanwl ac yn agor i gyn lleied o gamddehongli â phosibl ar gyfer pob math o leoliad ysgol yng Nghymru, fel mater o frys. Dylai'r canllawiau hyn sicrhau bod dull cyson o fynd i'r afael ag ymddygiad yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru, yn enwedig o ran achosion difrifol o dorri rheolau ymddygiad.

[711] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg: Pum cam i'w cymryd ar unwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad, 22 Mai 2025

# 4. Arweinwyr ysgolion

Mae'r materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw athrawon yn effeithio ar arweinyddiaeth ysgolion hefyd. Mae bod yn arweinydd ysgol effeithiol yn swydd anodd, ac mae'n dod yn llai deniadol. Nid yw'r gweithlu o arweinwyr ysgolion yn adlewyrchu'r gweithlu addysgu ehangach na Chymru yn fwy cyffredinol.

**432.** Wrth i'r niferoedd sy'n ymuno â'r proffesiwn neu'n aros ynddo ostwng, mae hyn yn cael effaith ar y llif o arweinwyr ysgolion. Mae'r holl faterion eraill a nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad yn berthnasol i arweinwyr ysgolion, ond mae yna hefyd rai materion penodol yr ydym yn manylu arnynt isod.

**433.** Clywsom fod heriau wrth recriwtio arweinwyr ysgolion yn gallu effeithio'n arbennig ar rai lleoliadau penodol, gan gynnwys ysgolion gwledig, ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig ac ysgolion ffydd.[712] Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod yr heriau yn effeithio'n benodol ar "ysgolion ffydd, ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cynradd gwledig bach" ond bod rhai ysgolion uwchradd yn wynebu heriau hefyd. Yn fwy cyffredinol, gwnaethant ddweud bod llai o ymgeiswyr am rolau penaethiaid a dirprwy benaethiaid, a llai o ymgeiswyr profiadol. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at broffil oedran penaethiaid ac uwch arweinwyr.[713] Ymhlith y rhai eraill a dynodd sylw at bryderon ynghylch y nifer isel o ymgeiswyr am swyddi gwag. Roedd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[714] a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.[715]

[712] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[713] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[714] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[715] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

**434.** Dywedodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig fod bodolaeth rhai ysgolion Catholig dan fygythiad mewn rhai mannau oherwydd nad ydynt yn gallu recriwtio i rolau arweinyddiaeth.[716]

**435.** Disgrifiodd Estyn sut, wrth wynebu'r heriau hyn, mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi archwilio dewisiadau eraill. Yn aml, mae'r rhain yn dechrau fel opsiynau dros dro ond gallant newid yn ddewisiadau tymor hwy, fel sefydlu ffederasiwn ysgolion gydag un pennaeth yn gyfrifol am sawl ysgol. Gwnaethant ddweud nad oes unrhyw ymchwil ar yr effaith y mae hyn yn ei chael ar ddysgwyr. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at y ffaith y gall y swyddi hyn fod yn llethol yn aml oherwydd gofynion y rôl.[717]

**436.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod angen gwell dealltwriaeth o'r rhesymau pam nad yw pobl sydd â Chymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth ("CPCP") yn camu i rolau arweinyddiaeth uwch. Maent yn gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i rannu data gydag awdurdodau lleol am y 700 o bobl sydd â'r CPCP ond nad ydynt yn gweithio fel penaethiaid ysgol ar hyn o bryd. Maent hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu modelau cynllunio olyniaeth.[718] Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod angen mwy o waith i ddeall pam nad yw'r grŵp hwn o arweinwyr ysgolion cymwys yn ymgymryd â rolau arweinyddiaeth ar hyn o bryd.[719] Yn ddiweddarach, eglurodd y bydd Dysgu yn gweithio gydag awdurdodau lleol, unwaith y bydd unigolion yn cael eu nodi, "i ddatblygu help iddynt gymryd eu camau nesaf"[720].

## Llwybrau dilyniant i rolau arweinyddiaeth

**437.** Clywsom fod angen mwy o gymorth a llwybrau dilyniant gyrfa cliriach ar arweinwyr ysgolion. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru y gall fod diffyg hyder, neu ddiffyg cynrychiolaeth. Gwnaethant hefyd ddweud nad oedd digon o hyfforddiant i baratoi pobl ar gyfer rolau arweinyddiaeth ysgolion.[721] Tynnodd Cyngor y Gweithlu Addysg[722] a Chymdeithas

[716] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[717] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[718] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[719] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 92
[720] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025
[721] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[722] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg

Llywodraeth Leol Cymru[723] sylw at y diffyg hyfforddiant neu gymorth digonol i symud ymlaen i rolau arweinyddiaeth.

**438.** Galwodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe am adolygiad o'r cymorth a roddir i arweinwyr canol a allai helpu i annog mwy ohonynt i gamu ymlaen.[724] Galwodd Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon am DPP wedi'i deilwra i helpu i baratoi pobl ar gyfer rolau arweinyddiaeth. Dylai hyn adeiladu ar y llinynnau arweinyddiaeth sy'n bodoli eisoes mewn AGA.[725] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd y gall darparu cyfleoedd cysgodi i arweinwyr ysgolion posibl fod yn ddefnyddiol iawn.[726]

**439.** Yn ôl yr arweinwyr ysgolion y gwnaethom siarad â nhw, mae mynediad at ddatblygiad proffesiynol ar gyfer arweinwyr canol yn "loteri" yn dibynnu ar ble maent wedi'u lleoli.[727] Gwnaethant alw am lwybr datblygu cenedlaethol, cydlynol a strwythuredig ar gyfer athrawon yng Nghymru:

> *"Mae gan rai systemau gyrsiau a hyfforddiant effeithiol iawn i raddedigion… maen nhw'n cymryd pobl o ddechrau eu proffesiwn, yn eu hyfforddi ar gyfer arweinyddiaeth ganol, yn eu hyfforddi ar gyfer arweinyddiaeth fugeiliol, yna'n eu hyfforddi tuag at uwch arweinyddiaeth. Mae yna gyrsiau allan yna ond dydyn nhw ddim yn gydlynol. Does dim strwythur clir ledled Cymru…dydyn ni ddim yn wlad fawr felly pam dydyn ni ddim yn gallu rhoi system fel yna ar waith?" – Pennaeth Uwchradd*[728]

**440.** Galwodd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol am lwybrau arweinyddiaeth cryfach ar gyfer athrawon STEM. Gwnaethant ddweud ei bod yn bwysig cydnabod arweinyddiaeth pwnc o fewn strwythurau arweinwyr ysgolion, ac roeddent o'r farn bod angen hyfforddiant arweinyddiaeth wedi'i dargedu ar gyfer mentoriaid ac arweinwyr pwnc STEM.[729]

**441.** Clywsom hefyd am faterion eraill yn ymwneud â datblygiad proffesiynol ar gyfer arweinwyr ysgolion. Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod

[723] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 325
[724] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[725] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[726] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 194
[727] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 57, Medi 2025
[728] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 98, Medi 2025
[729] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol

penaethiaid eisiau rhwydweithiau cymheiriaid ond, oherwydd llwyth gwaith, maent yn ei chael hi'n anodd eu datblygu neu eu trefnu. Gwnaethant alw ar eraill i drefnu'r rhwydweithiau hyn fel nad yw'n ddibynnol ar arweinwyr sydd eisoes dan bwysau.[730] Roedd y Sefydliad Polisi Addysg[731] a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[732] ill dau yn cefnogi rhwydweithiau cymorth cymheiriaid.

**442.** Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai Dysgu yn arwain y gwaith o adolygu rhaglenni datblygu arweinyddiaeth nawr. Bydd Dysgu yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cymorth sy'n diwallu anghenion y dyfodol.[733] Mewn gohebiaeth bellach, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd y gwaith hwn yn edrych ar y cymorth sydd ar gael i "arweinwyr canol ac uwch a phenaethiaid profiadol". Derbyniodd hefyd fod angen sicrhau bod cymorth ar gael i arweinwyr "rwydweithio, rhannu profiadau…".[734]

**443.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r rhaglen bartneriaeth gwella ysgolion newydd yn helpu i ddatblygu mwy o gymorth gan gymheiriaid. Dywedodd fod hwn hefyd yn fater yr oedd hi eisiau ei ystyried ymhellach gyda'i grŵp cynghori ar benaethiaid.[735]

## Y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)

**444.** Clywsom nifer o bryderon ynghylch y CPCP. Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg ei fod yn cael ei ystyried yn eang fel cymhwyster sy'n anaddas at y diben ac sydd angen ei ddiwygio.[736]

**445.** Roedd Undeb Cenedlaethol y Prifathrawon Cymru yn derbyn bod angen y diwygiadau diweddar i'r cymhwyster ond roeddent o'r farn y gallai'r broses fod wedi cael ei rheoli'n well. Gwnaethant ddweud ei bod yn siomedig bod y diwygiadau wedi atal pobl rhag gwneud cais am flwyddyn. Gwnaethant ddweud y dylai'r cwrs blaenorol fod wedi cael ei redeg ochr yn ochr â'r broses ddiwygio. Mae peidio â gwneud hyn, medden nhw, wedi effeithio ar y llif o arweinwyr.[737]

[730] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 193
[731] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 203
[732] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 329
[733] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[734] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025
[735] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 92
[736] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[737] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 26 Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru

**446.** Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru hefyd o'r farn bod y problemau diweddar wedi effeithio ar y llif. Gwnaethant ddweud bod y cylch dwy flynedd yn effeithio ar niferoedd yr arweinwyr ysgolion fydd ar gael yn y dyfodol.[738]

**447.** Roedd rhai o'r materion y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys pryderon am ddiffyg cyfathrebu. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi "anfon rhestrau o ymgeiswyr posibl at awdurdodau lleol yn rheolaidd" yn y gorffennol ac nad yw hynny'n digwydd mwyach.[739]

**448.** Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru yn anhapus gyda'r ffordd y dewiswyd ymgeiswyr llwyddiannus. Roeddent eisiau mwy o eglurder ynghylch methodoleg. Roeddent yn pryderu ynghylch adroddiadau y gallai blaenoriaeth fod wedi'i rhoi i awdurdodau lleol sy'n ei chael hi'n anodd recriwtio.[740]

**449.** Tynnwyd sylw at faint y garfan CPCP hefyd.[741] Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru "y gallai … fod wedi'i ddyblu er mwyn bodloni galw"[742]. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru fod carfan o 35 yn ymddangos yn gwbl amhriodol.[743]

**450.** Roedd pryderon hefyd ynghylch hygyrchedd y CPCP ar gyfer carfanau penodol o ymgeiswyr. Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru sylw at bryderon nad yw rhai "ymgeiswyr haeddiannol, fel Penaethiaid Cynorthwyol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, wedi'u derbyn". Gwnaethant alw ar i awdurdodau lleol gael "rôl gryfach wrth ddilysu a chefnogi ceisiadau i sicrhau bod yr ymgeiswyr cywir yn datblygu"[744].

**451.** Roedd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig o'r farn bod ysgolion ffydd wedi'u tangynrychioli yn y garfan. Gwnaethant ddweud nad oedd nifer yr ysgolion eglwysig yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar ddyrannu lleoedd. Gwnaethant

[738] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[739] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[740] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 26 Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru
[741] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[742] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[743] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 26 Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru
[744] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

dynnu sylw at y ffaith bod ysgolion Catholig yn recriwtio o gronfa bosibl lai nag ysgolion eraill. Gallai hyn gael effaith negyddol ar recriwtio mewn ysgolion eglwysig yn y dyfodol.[745] Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru sylw hefyd at yr effaith ar ysgolion ffydd, yn ogystal ag ar ysgolion gwledig llai.[746]

**452.** Dywedodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig nad yw'r newidiadau i'r CPCP yn caniatáu amser i'r system ysgolion Catholig baratoi carfan ar gyfer yr agweddau ar arweinyddiaeth sy'n benodol i ysgolion Catholig. Gwnaethant alw ar i fodiwlau CPCP wedi'u teilwra sy'n adlewyrchu anghenion ysgolion Catholig gael eu datblygu.[747]

**453.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn ymwybodol o bryderon ynglŷn â'r cap ar niferoedd ar gyfer y CPCP. Dywedodd fod y cap wedi'i roi ar waith oherwydd ei fod yn rhaglen newydd a'u bod am "sicrhau ei bod yn cael ei phrofi'n drylwyr gyda nifer cyfyngedig o gyfranogwyr". Roedd 48 yn y garfan gyntaf a dechreuodd 48 arall ym mis Medi 2025. Unwaith y bydd y cyfnod peilot wedi'i gwblhau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'n gweithio gyda Dysgu i adolygu faint o bobl y gellir eu hariannu i ymgymryd â'r cymhwyster.[748]

## Llesiant a llwyth gwaith

**454.** Mae llwyth gwaith yn fater pwysig iawn i arweinwyr ysgolion. Cafodd hyn ei godi'n rheolaidd wrth i ni fynd ati i gasglu tystiolaeth.[749] Fel y nodwyd gennym yn y Bennod flaenorol, mae'r oriau y mae athrawon yn eu gweithio yn uchel. Gall hyn fod hyd yn oed yn uwch i arweinwyr ysgolion. Dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru fod disgwyliad bod arweinwyr ysgolion "ar gael bob awr o'r dydd a phob dydd o'r flwyddyn"[750].

**455.** Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod oriau gwaith gormodol yn norm i arweinwyr ysgolion, sy'n gweithio dros 50 awr yr

[745] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[746] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[747] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[748] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025
[749] Er enghraifft: Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 26 Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru
[750] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

wythnos yn gyson. Yn ystod wythnosau heriol, gall hyn gynyddu i dros 60 awr.[751] Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod penaethiaid ar ddyletswydd 24/7 gan gynnwys ar benwythnosau yn ystod y pandemig.[752]

**456.** Tynnodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru sylw at eu harolwg diweddar o benaethiaid a ganfu nad oedd 72.4 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod ganddynt gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Roedd 47.7 y cant yn teimlo bod eu llwyth gwaith yn anhylaw. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn ystyried gadael addysg.[753]

**457.** Dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru nad oes unrhyw newid wedi bod er gwaethaf trafodaethau ynghylch lleihau llwythi gwaith.[754] Cafodd hyn ei adleisio gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru. Gwnaethant ddweud bod gwaith sydd wedi lleihau beichiau gweinyddol wedi'i wrthbwyso gan bwysau eraill sy'n wynebu arweinwyr ysgolion.[755]

**458.** Tynnodd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru sylw at y ffaith eu bod wedi cael y dasg o ystyried pa addasiadau y dylid eu gwneud i amodau gwasanaeth arweinwyr ysgolion, yn enwedig o ran oriau gwaith ac amser gwarchodedig i ffwrdd. Ar yr adeg y cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig, roedd disgwyl iddynt ymgynghori ar hyn yn fuan.[756]

**459.** Galwodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru ar i arweinwyr ysgolion gael absenoldeb gwarchodedig. Yn wahanol i athrawon, nid oes gofyniad am amser digyswllt â'r ysgol. Gwnaethant ddweud bod hyn yn arwain at lefelau uchel o ludded am eu bod wastad ar ddyletswydd. Gwnaethant ddweud bod 92 y cant o'u haelodau o blaid cael absenoldeb gwarchodedig, gyda dim ond 1 y cant yn gwrthwynebu hynny. Roedd 7 y cant ddim yn siŵr neu ddim yn gwybod. Gwnaethant ddweud y byddai newid o'r fath yn gofyn am newidiadau o ran cyllid, a newidiadau diwylliannol gan bartneriaid.[757] Tynnodd Cyngor y Gweithlu Addysg sylw hefyd at yr angen am newidiadau i sicrhau bod gan arweinwyr ysgolion gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.[758]

[751] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[752] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 99
[753] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[754] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[755] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 26 Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru
[756] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 20 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, paragraff 2.6
[757] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 26 Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru
[758] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 99

**460.** Dywedodd y Sefydliad Polisi Addysg nad oedd llawer o ddata clir ar gyfrifoldebau arweinwyr, a all ei gwneud hi'n anodd nodi pa dasgau y gellid eu dileu.[759]

**461.** Galwodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe am well cymorth ariannol a gweinyddol i arweinwyr ysgolion a fyddai'n eu galluogi i dreulio mwy o amser ar waith strategol yn hytrach nag ar daenlenni a mynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi.[760]

**462.** Awgrymodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru y gallai llwyth gwaith a'r effaith y mae'n ei chael ar gyfrifoldebau gofalu helpu i esbonio pam mai dim ond nifer cymharol fach o benaethiaid sy'n fenywod.[761] Byddwn yn edrych ar y mater hwn yn fanylach yn yr adran nesaf.

**463.** Mae newidiadau sylweddol ar draws y system wedi ychwanegu at bwysau llwyth gwaith arweinwyr ysgolion.[762] Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod diwygiadau diweddar wedi cael effaith eithafol ar lwyth gwaith.[763] Tynnodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe sylw at y ffaith bod rhai ysgolion wedi adrodd bod yna flinder diwygio a'u bod yn teimlo eu bod wedi'u gorlethu ac nad ydynt yn cael digon o gymorth. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at y ffaith bod y newidiadau diweddar i fecanweithiau cymorth rhanbarthol a lleol wedi achosi ansicrwydd ynghylch rolau, cyfrifoldeb ac atebolrwydd.[764]

**464.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod yr heriau o ran gorfod gweithredu newidiadau ac ymgorffori'r Cwricwlwm i Gymru ar yr un pryd yn aml yn golygu nad oes llawer o amser ar gyfer meddwl yn strategol nac arweinyddiaeth addysgegol. Gwnaethant ddweud bod rhanddeiliaid yn nodi bod datgysylltiad rhwng polisi a realiti bywyd ysgol.[765]

**465.** Tynnodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru sylw at y ffaith na all arweinwyr ysgolion reoli eu llwyth gwaith am ei fod yn cael ei yrru gan ddiwygiadau a'r fframwaith atebolrwydd. Gwnaethant alw am fwy o ystyriaeth i'r

[759] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 207
[760] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[761] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 63
[762] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[763] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[764] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[765] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg

ffordd y mae penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru neu Estyn yn effeithio ar lwyth gwaith.[766]

**466.** Maes penodol oedd yn destun pryder oedd y fframweithiau atebolrwydd a'r pwysau a'r llwyth gwaith ychwanegol sy'n deillio o hyn. Cafodd hyn ei godi gan nifer o randdeiliaid gan gynnwys Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[767]; Cyngor y Gweithlu Addysg[768]; Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[769]; ac Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru [770].

**467.** Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod arweinwyr ysgolion yn disgwyl atebolrwydd ac yn awyddus i'w gael ond mae angen iddo fod yn gymesur ac atgyfnerthu gweithgarwch gwella ysgolion parhaus. Nid oedd systemau presennol, medden nhw, yn ystyried cyd-destunau ysgolion, ac roedd effaith y rhai sy'n arwain mewn cyd-destunau heriol a'r gwerth ychwanegol y maent yn ei roi yn aml yn cael eu diystyru. Gwnaethant alw ar i weithgareddau arolygu ac atebolrwydd risg uchel gael eu hadolygu a'u lleihau lle nad oes unrhyw gysylltiad â deilliannau gwell i ddysgwyr.[771]

**468.** Disgrifiodd Cyngor y Gweithlu Addysg yr heriau penodol o amgylch atebolrwydd ar gyfer Cyfnodau Allweddol 4 a 5. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod hyn yn cael ei waethygu yng Nghyfnod Allweddol 4 gan yr heriau sy'n ymwneud â chyflwyno cymwysterau newydd. Gwnaethant gydnabod bod angen atebolrwydd ond gwnaethant hefyd ddweud bod angen iddo ganiatáu ar gyfer ymreolaeth, creadigrwydd, ac i bobl wneud yr hyn maent yn ei wybod sydd er budd gorau'r plant hynny yng nghyd-destun yr ysgol y maent yn gwasanaethu ynddi.[772]

**469.** Mae atebolrwydd yn ymestyn y tu hwnt i arolygiadau ysgolion, a mewnbwn gan awdurdodau lleol. Dywedwyd wrthym fod lefelau uchel o atebolrwydd personol a chyhoeddus, a all gael sylw yn y cyfryngau ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn aml, gan ychwanegu at y pwysau.[773]

---

[766] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 47
[767] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[768] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[769] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[770] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[771] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[772] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 97 a 99
[773] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

**470.** Codwyd effaith yr heriau ariannol sy'n wynebu ysgolion gan nifer o randdeiliaid. Yn eu plith roedd:

- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru;[774]
- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig[775];
- Education Support[776];
- Cyngor y Gweithlu Addysg[777];
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru[778].

**471.** Un o'r heriau penodol yw bod yn rhaid i benaethiaid gymryd yr awenau wrth ddod o hyd i arbedion ariannol, sydd yn aml yn golygu diswyddiadau. Gall hyn gael effaith benodol ar straen a llesiant.[779] Mewn rhai achosion, meddai Cymdeithas Genedlaethol y Penaethiaid, mae'n rhaid i benaethiaid ymgymryd â rolau eraill fel gofalu oherwydd allan nhw ddim fforddio cyflogi staff. Ac eto, mae'r rhain yn rolau sy'n hanfodol i redeg ysgol.[780]

**472.** Mae'r ffaith bod ysgolion yn gorfod gwneud mwy y tu hwnt i addysg draddodiadol yn cael effaith ar lwyth gwaith arweinwyr ysgolion. Gwnaeth Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig dynnu sylw at hyn[781]. Disgrifiodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon y newid mewn amcanion sy'n wynebu arweinwyr ysgolion, a galwodd ar i arweinwyr ysgolion allu canolbwyntio ar addysgu a dysgu, a chefnogi athrawon.[782]

**473.** Dywedodd Education Support:

> *"Leaders tell us that they experience a 'burden of failure' from the emotional toll of leading an organisation where they know that children cannot thrive, but feel that there is nothing they can do about it due to systemic factors. This is exacerbated by a sense that there is positive, well-intentioned ambition and*

[774] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[775] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[776] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[777] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[778] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[779] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[780] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 45
[781] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[782] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 45

> *vision for education in Wales, but that this cannot always be delivered on the ground."*[783]

**474.** Gall yr holl ffactorau hyn gael effaith sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant arweinwyr ysgolion. Dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru fod y pwysau hyn yn peri i rai adael y proffesiwn yn gyfan gwbl.[784]

**475.** Dywedodd Education Support fod llesiant arweinwyr ysgolion yn achos pryder gwirioneddol.

> *"Our Teacher Wellbeing Index 2024 finds that rates of anxiety, depression, burnout and acute stress among leaders remain at high levels across the UK, including Wales. This has a meaningful impact on the health of individual leaders, their teams; as well as staff retention and the quality of education that can be delivered for our children and young people."*[785]

**476.** Dywedodd Education Support fod natur alwedigaethol gweithio ym myd addysg yn gallu arwain weithiau at aneglurder rhwng hunaniaeth bersonol a phroffesiynol. Roeddent o'r farn y gallai hyn esbonio pam mae lefelau uwch o straen mewn addysg o gymharu â phroffesiynau eraill. Gwnaethant alw am fwy o ymchwil i ddeall y cysylltiad rhwng galwedigaeth, hunaniaeth broffesiynol a straen yn well. Gwnaethant ddweud bod goruchwyliaeth broffesiynol, sy'n ymyrraeth â chost gymharol isel, yn gallu cael effaith fawr ar lesiant personol. Gwnaethant ddweud bod gostyngiad o 24 y cant wedi bod yn nifer yr arweinwyr ysgolion oedd eisiau gadael eu swydd ar ôl ymgymryd â hi. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod wedi gweld cynnydd mewn sgoriau llesiant.[786]

**477.** Tynnodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru sylw at yr ymdeimlad o ynysu mewn rolau arweinyddiaeth.[787] Siaradodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd am natur ynysig y rôl[788] a thynnodd Cyngor y Gweithlu Addysg sylw at y ffaith nad oes digon o amser i fyfyrio a hunanwerthuso am fod arweinwyr ysgolion yn mynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi, gan

[783] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[784] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[785] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[786] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 10 Education Support
[778] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[788] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 329

ei gwneud hi'n anoddach iddynt achub y blaen a sicrhau eu bod yn gyrru'r ysgol ymlaen.[789]

**478.** O ganlyniad i'r pwysau gwahanol hyn, clywsom fod llawer o athrawon yn dewis peidio ag ymgymryd â swyddi arweinyddiaeth.[790] Roedd ehangder y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd yn golygu bod arweinwyr canol yn dod yn fwyfwy amharod i gamu ymlaen i uwch rolau arwain. Cafodd hyn ei godi gan y canlynol:

- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[791];
- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig[792];
- Cyngor y Gweithlu Addysg[793];
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru[794];
- Athrawon ac arweinwyr ysgolion[795].

**479.** Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod dymunoldeb rolau arweinyddiaeth yn cael ei effeithio gan y ffordd y mae athrawon yn gweld arweinwyr ysgolion yn eu lleoliadau eu hunain.[796] Gwnaethant ddweud bod llawer o bobl yn penderfynu peidio â symud ymlaen heibio i swydd Dirprwy Bennaeth oherwydd eu bod yn gweld yr heriau y mae eu penaethiaid eu hunain yn eu hwynebu.[797]

**480.** Galwodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe am adolygiad o gyfleoedd datblygu gyrfa, yn enwedig sut y gall arweinwyr canol gael eu cynorthwyo'n well i'w hannog i symud ymlaen i uwch rolau arwain.[798] Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod angen "llwybr clir ac uchelgeisiol ar gyfer datblygu gyrfa" yn enwedig i benaethiaid

[789] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 100
[790] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[791] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[792] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[793] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[794] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 26 Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru
[795] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraffau 54-55, Medi 2025
[796] Tystiolaeth ysgrifenedig TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[797] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 72
[798] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe

symud ymlaen i wahanol rolau fel arweinwyr gwella ysgolion ac arweinwyr systemau.[799]

**481.** Soniodd yr arweinwyr ysgolion y gwnaethom siarad â nhw am y gwahaniaeth rhwng rolau arweinyddiaeth fugeiliol a rolau arweinyddiaeth academaidd. Roeddent yn cytuno ei bod hi'n anoddach recriwtio i'r rolau bugeiliol na'r rolau academaidd. Priodolwyd hyn i lefel y craffu y mae arweinwyr bugeiliol yn ei hwynebu gan deuluoedd, uwch arweinwyr a gwasanaethau cymorth eraill.[800]

**482.** Tynnodd arweinwyr ysgolion sylw hefyd at y ffaith y gall fod heriau wrth gael pobl i symud o rolau Pennaeth Cynorthwyol i rolau Dirprwy Bennaeth a rolau uwch. Priodolwyd hyn i'r cyfrifoldebau cynyddol, y straen a'r wobr ariannol gyfyngedig.[801]

> *"Mae'r staff hynny sy'n barod i symud ymlaen i arweinyddiaeth ganol ac uwch, maen nhw'n gweld y straen, maen nhw'n gweld y straen sydd ar yr uwch dîm arwain, ac mae llawer ohonyn nhw'n gwneud dewis ffordd o fyw… maen nhw'n dewis aros ar Uwch Raddfa Gyflog 3. Y tro nesaf y bydda' i'n colli uwch arweinydd, rydw i wir yn mynd i'w chael hi'n anodd iawn." – Pennaeth uwchradd.*[802]

**483.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gwella hyblygrwydd yn bwysig:

> *"One of the things that we've done recently is emphasise to local authorities ahead of us changing the teachers' terms and conditions that headteachers cannot be on call 24/7. They have to have downtime on weekends, they have to have downtime in school holidays, and things like that I think make a big difference to women who might have caring responsibilities as well. So, I think it's about that whole package, really, of how we're supporting the workforce."*[803]

[799] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[800] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 55, Medi 2025
[801] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 54, Medi 2025
[802] Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Recriwtio a chadw athrawon, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, paragraff 52, Medi 2025
[803] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 103

**484.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at Raglen Goruchwylio Broffesiynol Education Support sydd, yn eu barn nhw, yn cael effeithiau cadarnhaol ar lesiant. Gwnaethant ddweud y byddai hyn yn "rhan allweddol o'r rhaglen waith ar gyfer eleni"[804].

## Amrywiaeth mewn rolau arweinyddiaeth

**485.** Rhannodd Cyngor y Gweithlu Addysg y data a oedd yn dangos bwlch rhwng y rhywiau mewn rolau arweinwyr ysgolion.

> *"In 2025, 61.4% of registered Heads were female and 38.6% were male. This contrasts significantly with the gender split across the teaching workforce as a whole, which was 75.8% female and 24.2% male."*[805]

Gwnaethant ddweud bod angen cynyddu'r amrywiaeth mewn rolau arweinyddiaeth, o ran rhywedd ac ethnigrwydd.[806] Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod y diffyg amrywiaeth yn amlwg iawn mewn rolau arweinyddiaeth.[807]

**486.** Dywedodd Estyn, er bod nifer y penaethiaid benywaidd wedi cynyddu, fod cyfran fwy o ddynion yn ymgymryd â rolau penaethiaid o hyd.[808] Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod hyn yn fwy cyffredin, yn ôl pob golwg, wrth gamu o rôl dirprwy bennaeth i rôl pennaeth. Gwnaethant ddweud nad oedd yn glir a yw hynny oherwydd nad yw menywod yn gwneud cais neu am nad ydynt yn cael eu penodi. Byddai'r ateb yn dibynnu ar ddeall ble roedd y rhwystr.[809] Galwodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru am waith pellach i nodi'r rhwystrau a'r atebion i ddelio â nhw.[810] Yn fwy cyffredinol, galwodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe am ymarfer cwmpasu i edrych ar agweddau a rhwystrau i addysgu, a allai nodi llwybrau i addysgu a fyddai'n agor y proffesiwn.[811]

**487.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai un o'r ffactorau sy'n effeithio ar fenywod yn symud ymlaen oedd effaith gofal plant, sy'n dal i ddisgyn

---

[804] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[805] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[806] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[807] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[808] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[809] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 62
[810] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 63
[811] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe

ar fenywod yn draddodiadol. Gwnaethant ddweud bod menywod yn gallu dechrau eu gyrfaoedd yn uchelgeisiol, ond mae absenoldeb mamolaeth yn creu bwlch sy'n ei gwneud hi'n anoddach iddynt ddatblygu eu gyrfaoedd. Gwnaethant ddweud bod hyn yn broblem yn arbennig yn y sector cynradd, lle mae'n ymddangos bod menywod yn setlo yn yr haen ganol honno.[812]

**488.** Mae cyfran yr arweinwyr ysgolion o gefndiroedd ethnig amrywiol yn isel iawn.[813] Rhannodd Cyngor y Gweithlu Addysg ystadegau sy'n dangos mai dim ond 0.6 y cant o benaethiaid, 0.6 y cant o ddirprwy benaethiaid a 0.5 y cant o benaethiaid cynorthwyol sydd o gefndiroedd ethnig amrywiol. Gwnaethant ddweud bod hyn yn broblem o ran llif (lle nad oes digon o newydd-ddyfodiaid yn ymuno) ac oherwydd rhwystrau dyfnach, strwythurol i gynnydd. Gwnaethant alw am fynd i'r afael â'r ddau fater er mwyn sicrhau bod arweinyddiaeth ysgolion yn fwy amrywiol.[814]

**489.** Tynnodd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol sylw at y ffaith bod athrawon o leiafrifoedd ethnig yn aml yn ymgymryd â rolau arweinyddiaeth di-dâl sy'n gysylltiedig ag ymdrechion amrywiaeth a chynhwysiant. Nodwyd bod angen llwybrau gwell ar gyfer cynnydd a mentrau recriwtio wedi'u targedu i gynyddu cynrychiolaeth er mwyn mynd i'r afael â'r materion strwythurol hyn.[815]

**490.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet nad yw cyfran y menywod mewn swyddi arwain yn adlewyrchu'r gynrychiolaeth ehangach o ran rhywedd yn y gweithlu. Ond nododd fod cynnydd wedi bod. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gydag arweinwyr ac awdurdodau lleol i ddeall pam mae bwlch rhwng y rhywiau mewn rolau arweinyddiaeth. Dywedodd fod gan Dysgu rôl i'w chwarae hefyd wrth gefnogi menywod yn y gweithlu.[816]

## Ein barn ni

**491.** Mae angen i benaethiaid ac uwch-arweinwyr eraill gael amser a lle i ysbrydoli athrawon a'u cynorthwyo i ymgymryd â'r rolau hyn. Ac yn yr un modd, mae angen i athrawon gael amser i allu archwilio'n fanylach pam eu bod eisiau bod yn arweinydd ysgol. Mae angen sicrhau bod mwy o gyfleoedd i athrawon gysgodi neu fentora arweinwyr ysgolion presennol er mwyn deall y rôl yn well. Ni ddylai'r cyfleoedd hyn fod yn gyfyngedig i gysgodi neu fentora o fewn eu hysgol eu

812 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 337
813 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
814 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
815 Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
816 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 102

hunain. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd efallai y bydd angen i athrawon symud ysgolion i ymgymryd â swyddi arwain.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cynnig digon o gyfleoedd cysgodi a mentora i athrawon dosbarth er mwyn iddynt ddeall yn well a ydynt am gamu i rolau arweinyddiaeth ysgolion.

**492.** Mae'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar. Felly, mae'n rhy gynnar i nodi a fydd y newidiadau hyn yn mynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid. Rydym eisiau deall yn well sut y bydd Llywodraeth Cymru yn asesu effeithiolrwydd y newidiadau i'r cymhwyster. Yn benodol, y niferoedd sy'n ymgymryd â'r cymhwyster, p'un a yw'r cwrs yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i'r rhai sy'n ei astudio i fod yn arweinwyr ysgol effeithiol; a gwerth cyffredinol y cymhwyster.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn gwerthuso newidiadau i'r CPCP. Dylai unrhyw werthusiad o'r fath sicrhau ei fod yn ystyried a yw'r cwrs yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i fod yn bennaeth effeithiol; ac a yw'r cwrs yn darparu gwerth da.

**493.** Mae arweinwyr ysgolion yn wynebu pwysau a heriau aruthrol. Mae'n swydd bwysig iawn, ond nid yw bob amser yn un hawdd. Mae arweinwyr ysgolion wedi gorfod helpu i lywio eu hysgolion drwy lawer iawn o weithgarwch diwygio, a rheoli effaith y pandemig a heriau ehangach mewn cymdeithas ar yr un pryd. Dylai'r sylwadau a nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad hwn ynghylch yr angen i ysgolion wneud llai mewn perthynas â heriau ehangach mewn cymdeithas gael eu hystyried fel rhan o'r cyd-destun ar gyfer llwyth gwaith arweinwyr ysgolion.

**494.** Yn benodol, rydym yn ymwybodol iawn o'r lefel uchel o ddiwygio yn y system addysg. Er bod hyn yn effeithio ar yr holl staff ysgolion, mae'n gosod beichiau ychwanegol sylweddol ar arweinwyr ysgolion. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Lwyth Gwaith ar gyfer unrhyw bolisi newydd a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw bolisi a gaiff ei ddiwygio sy'n effeithio ar staff addysg (gweler paragraff 352). Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru, nawr ac yn y dyfodol, yn ystyried o ddifrif faint o weithgarwch diwygio y gellir ei gyflawni mewn system sydd hefyd yn wynebu heriau eraill, gan gynnwys pwysau ariannol sylweddol. Mae angen i ni fod yn realistig ynghylch pa ddiwygiadau y gellir eu cyflawni'n llwyddiannus tra'n sicrhau bod ysgolion yn amgylchedd cadarnhaol i ddysgwyr a phob aelod o staff. Mae terfyn ar yr hyn y

gall y system ymdopi ag ef, ac mae angen rhoi amser i'r sector atgyfnerthu diwygiadau presennol a'u hymwreiddio'n llawn.

**495.** Mae rôl Estyn yn allweddol yn hyn i gyd. Er ein bod yn cydnabod bod newid clir wedi bod yn y ffordd y mae Estyn wedi mynd ati i fod yn gyfranogwr mwy cefnogol wrth wella ysgolion yn hytrach na bod yn feirniad allanol yn unig, mae angen iddynt sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni ar draws pob arolygiad ac i bob ysgol.

**496.** Mae blwch amlwg rhwng y rhywiau o ran arweinwyr ysgolion. Mae mwyafrif yr athrawon dosbarth yn fenywod, ond mae'r darlun yn newid ar lefel arweinyddiaeth. Mae cyfran lawer uwch o ddynion sy'n benaethiaid o gymharu â menywod. Er i ni glywed rhai syniadau ynghylch pam mae hyn yn digwydd, ni chawsom ddarlun diffiniol. Fel yr amlinellir gennym ym mharagraff 486, roedd nifer o randdeiliaid yn awyddus i weld ymchwil bellach i'r mater hwn.

**497.** Rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid hynny ac yn credu bod angen ymchwilio ymhellach. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o Gynllun y Gweithlu, ymrwymo i edrych ar y mater hwn yn fanylach. Dylai'r gwaith hwn wedyn lywio camau gweithredu clir a phendant i wella amrywiaeth o ran rhywedd ymhlith arweinwyr ysgolion.

**Argymhelliad 14.** Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i nodi'r ffactorau sy'n achos anghyfartaledd rhwng y rhywiau mewn rolau arweinyddiaeth ysgolion ac yna'n llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ffactorau sydd o fewn cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru.

# 5. Amrywiaeth y gweithlu

## Nid yw'r gweithlu addysgu yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru ar hyn o bryd. Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud i fynd i'r afael â hyn, ond mae bwlch o ran amrywiaeth yn bodoli o hyd. Mae hyn yn wir ar bob lefel o'r proffesiwn.

**498.** Roedd rhanddeiliaid yn myfyrio'n gyson ynghylch y ffaith nad yw'r gweithlu addysg yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru.[817] Clywsom yn fanwl am rai grwpiau penodol sy'n cael eu tangynrychioli'n fwy nag eraill.

**499.** Mae addysgu yn broffesiwn lle mae mwyafrif llethol y gweithwyr yn fenywod, gyda thua 75 y cant o athrawon yn fenywod, a llai na 25 y cant yn ddynion.[818] Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod y cydbwysedd hwn wedi bod yr un fath ers 2015.[819] Dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru nad oedd hyn yn "adlewyrchiad teg o gymdeithas". Gwnaethant ddweud y byddai cydbwysedd gwell rhwng y rhywiau yn fuddiol i bob dysgwr.[820] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod angen gwaith i ddeall sut y gellir gwneud y proffesiwn yn fwy deniadol i ddynion.[821] Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod yna broblem benodol gyda modelau rôl gwrywaidd mewn ysgolion cynradd. Roeddent eisiau mwy o ffocws ar wella hyn.[822]

**500.** Tynnodd y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd sylw at y ffaith bod ieithoedd yn cael eu haddysgu'n bennaf gan fenywod, sy'n effeithio ar y cyflenwad o athrawon ieithoedd gwrywaidd. Gwnaethant ddweud bod stereoteipiau lle mae ieithoedd yn cael eu gweld fel pwnc benywaidd.[823]

**501.** Tynnodd y Sefydliad Ffiseg sylw at y ffaith mai dynion yw athrawon ffiseg yn bennaf, gyda dim ond 41 y cant yn fenywod. Gwnaethant gyferbynnu hyn â'r

[817] Er enghraifft, Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[818] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[819] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[820] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[821] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 213
[822] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 338
[823] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 313

gyfran llawer uwch o fenywod sy'n addysgu yn y proffesiwn ehangach. Gwnaethant ddweud bod angen chwalu stereoteipiau a rhwystrau eraill i sicrhau bod merched yn parhau i astudio ffiseg ar ôl ysgol orfodol.[824] Gwnaethant dynnu sylw at dudalen we Gyrfa Cymru ar gyfleoedd ffiseg:

> *"... a lovely picture of an elderly white dude in front of a blackboard full of equations as the example of what a physicist looks like, not to mention that the number of jobs—job openings for physicists—next year is 65, it says. Well, your target for teacher training recruitment is 74. So, there are things like that that are fundamental that need to change."*[825]

**502.** Galwodd y Sefydliad Ffiseg hefyd am fwy o amrywiaeth o ran dosbarth ym maes addysgu. Gwnaethant ddweud bod tlodi ac anhygyrchedd addysgu i bobl sydd wedi dod o gefndiroedd llai cefnog yn cael eu hanghofio'n aml. Gwnaethant ddweud nad yw'n ddefnyddiol os yw'r proffesiwn yn tueddu tuag at bobl wyn dosbarth canol. Gwnaethant alw ar Gyngor y Gweithlu Addysg i gasglu mwy o ddata ar hyn i wella dealltwriaeth o gyfraddau cyfranogiad.[826]

**503.** Tynnodd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol sylw at y diffyg amrywiaeth ethnig yn y gweithlu addysg a all wedyn effeithio ar y llif o newydd-ddyfodiaid amrywiol i'r proffesiwn.[827] Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yn cytuno bod yna nifer o grwpiau gwahanol sy'n cael eu tangynrychioli ym maes addysgu.[828] Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y gall hyn yrru "cylch dieflig" lle nad yw dysgwyr yn gweld modelau rôl yn yr ystafell ddosbarth ac felly nid ydynt yn ystyried addysgu wedyn.[829] Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg y byddai gweithlu mwy amrywiol yn fwy perthnasol i bob dysgwr.[830]

**504.** Adroddodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe fod eu myfyrwyr eisiau gweld modelau rôl mwy amrywiol a gweladwy ym maes addysgu. Gellid cysylltu hyn â rhaglenni mentora a fyddai'n helpu mwy o amrywiaeth o bobl i ymuno â'r

[824] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[825] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 216
[826] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 219
[827] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[828] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[829] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[830] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg

maes addysgu.[831] Mae diffyg modelau rôl o hyd pan fydd pobl wedi ymuno â'r proffesiwn, a gall hyn effeithio ar gynnydd i rolau arweinyddiaeth.[832]

**505.** Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, gallai hyrwyddo addysgu'n well ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gynnwys "allgymorth wedi'i dargedu, mentoriaeth, a chefnogaeth trwy gydol cyrsiau hyfforddiant athrawon a datblygiad i mewn i arweinyddiaeth yn helpu i gynyddu amrywiaeth y gweithlu hefyd"[833].

**506.** Mae'r diffyg amrywiaeth hwn er gwaethaf ymdrechion gan ddarparwyr AGA a gweithgarwch hyrwyddo wedi'i dargedu. Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe fod eu gwaith lleol eu hunain, a oedd yn cynnwys digwyddiadau recriwtio wedi'u targedu, wedi cael effaith fach iawn hyd yn hyn. Gwnaethant ddweud eu bod yn parhau i adolygu gweithgarwch recriwtio a'u cwricwlwm i sicrhau eu bod yn meithrin amgylchedd addysgol cynhwysol sy'n adlewyrchu cymdeithas amrywiol Cymru.[834] Soniodd y Brifysgol Agored yng Nghymru am y gwahanol ffyrdd y maent yn ceisio agor y proffesiwn hwn. Mae hyn yng nghyd-destun cynlluniau amrywiaeth a gwrth-hiliaeth ehangach y sector.[835]

**507.** Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod ymgyrchoedd i hyrwyddo addysgu yn aml yn digwydd ar wahân. Gwnaethant alw ar i addysgu cyfrwng Cymraeg gael ei gynllunio a'i hyrwyddo ar y cyd ag ymgyrchoedd sydd wedi'u hanelu at bobl o grwpiau ethnig leiafrifol.[836] Roedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cytuno a dywedodd ei bod yn bwysig bod y Gymraeg yn cael ei "gweld fel Cymraeg i bawb".[837]

**508.** Galwodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol am fwy o ddata i ddeall amrywiaeth y gweithlu yn well, yn enwedig o ran arbenigedd pwnc. Tynnodd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru sylw at argymhellion y maent wedi'u gwneud dros nifer o flynyddoedd i wella'r ffordd y caiff data ar amrywiaeth y gweithlu ei gasglu, ei fonitro a'i adrodd.[838]

---

[831] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[832] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[833] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[834] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[835] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 142-144
[836] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 229
[837] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 231
[838] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 20 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, paragraff 3.6

**509.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg eu bod yn gwneud rhywfaint o waith i geisio annog recriwtio pobl o gefndiroedd amrywiol. Er gwaethaf ymgysylltiad da, roedd llawer iawn o waith i'w wneud o hyd. Gwnaethant ddweud yr hoffent weld mwy o gyllid i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes addysg.[839] (Rydym yn edrych yn fanylach ar hyrwyddo addysgu fel gyrfa ym Mhennod 2.)

**510.** Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe fod cynyddu amrywiaeth y gweithlu:

> *"… is a multifaceted endeavour requiring sustained commitment and collaboration across educational institutions, government bodies, and communities."[840]*

**511.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at eu hymrwymiad i sicrhau amrywiaeth o fewn y proffesiwn addysgu. Roedden nhw eisiau gweld "dysgwyr [yn cael] eu haddysgu gan athrawon rhagorol o bob oedran, llwybr gyrfa, cefndir, ac ethnigrwydd". Gwnaethant dynnu sylw at y llwybrau AGA amgen a ddarperir gan y Brifysgol Agored, sydd, medden nhw, yn dod ag athrawon i'r proffesiwn na fyddent wedi gallu ymuno trwy ffyrdd eraill. "Maent yn garfan unigryw sy'n darparu athrawon ychwanegol i'r proffesiwn gyda chefndiroedd a phrofiadau bywyd amrywiol"[841].

## Amrywiaeth ethnig ym maes addysgu

**512.** Clywsom fod athrawon o leiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli yn y proffesiwn addysgu. Gwnaeth Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru gymharu'r data diweddar o'r cyfrifiad â data'r gweithlu cyfredol:

> *"According to the latest census data, 93.8% of the population were recorded as white, 1.6% were recorded as Mixed or multiple ethnic groups, 2.9% were recorded as Asian, Asian British or Asian Welsh, 0.9% were recorded as Black, Black British, Black Welsh, Caribbean or African, and 0.9% were recorded as Other ethnic group.*
>
> *This is not reflected in the current teacher workforce when 0.7% are Mixed or multiple ethnic groups, 0.8% are Asian, Asian British or Asian Welsh, 0.2% are Black, Black British,*

---

[839] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 74
[840] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[841] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru

*Black Welsh, Caribbean or African and 0.2% are other ethnic group.*[842]

**513.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod data Llywodraeth Cymru yn dangos bod dros 15% o ddisgyblion mewn ysgolion ledled Cymru yn dod o gefndiroedd Du, Asiaidd, neu ethnig lleiafrifol. Gwnaethant gymharu hyn â data 2025 sy'n dangos bod 2.1 y cant o athrawon cofrestredig yn nodi eu bod yn dod o'r cefndiroedd hynny.[843]

**514.** Dywedodd Estyn, er bod amrywiaeth ethnig athrawon wedi cynyddu ychydig yn ddiweddar, ei fod yn dal i fod yn isel iawn.[844] Tynnodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru sylw at y ffaith bod 5 y cant o fyfyrwyr AGA yn dod o grŵp ethnig lleiafrifol yn 2021/22.[845] Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod partneriaethau AGA yn ceisio cynyddu cyfraddau cyfranogiad, a gwnaethant nodi eu bod yn cyfarfod â thua'r 5 y cant hwnnw o fyfyrwyr ar hyn o bryd. Pump y cant yw'r targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.[846]

**515.** Dywedodd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol fod tangynrychiolaeth yn arbennig o gyffredin mewn pynciau STEM. Gwnaethant alw am fentrau recriwtio wedi'u targedu i wella amrywiaeth mewn STEM.[847]

**516.** Croesawodd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg y Cynllun Cymhelliant AGA ar gyfer Rhai o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, nad oedd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU, medden nhw. Serch hynny, gwnaethant nodi nad oeddent wedi gweld unrhyw ddata eto sy'n dangos effaith y cymhelliant hwn. Gwnaethant alw'r cynllun yn gam arloesol.[848]

**517.** Tynnodd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg sylw at eu hymchwil yn Lloegr:

> *"… and actually the number of applicants coming in has a good representation of ethnic diversity compared to the wider population. The issues are in terms of acceptance rates to ITT courses and support during ITT, on placements, and then retention in the profession and then progression. So, there's a*

[842] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[843] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[844] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[845] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[846] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 70
[847] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[848] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 211

> *whole host of issues that disproportionately affect teachers from ethnic minority backgrounds that need addressing all through the teacher pipeline, rather than just simply attraction into the profession."*[849]

**518.** Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod pethau i'w dysgu o rannau eraill o'r DU ar sut i wella amrywiaeth hiliol ym maes addysgu. Gwnaethant gyfeirio at enghreifftiau ym Mryste, Llundain a'r Alban.[850]

**519.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod angen mwy o waith i sicrhau bod y proffesiwn addysgu yn cynrychioli cymunedau'n well. Dywedodd:

> *"It is important that the workforce reflects the population that they are supporting. You can't be what you can't see. I think that's very, very important."*[851]

**520.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y Cynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon a gyhoeddwyd yn 2021. Nod y cynllun hwn yw "cynyddu nifer yr ymgeiswyr lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu recriwtio i raglenni AGA, gan fynd i'r afael â'r tan-gynrychiolaeth bresennol". Fel rhan o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gwnaethant gyflwyno'r Cynllun Cymhelliant AGA ar gyfer Rhai o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol. Yn ogystal, mae pob partneriaeth AGA wedi cyhoeddi strategaethau recriwtio i gynyddu amrywiaeth ethnig myfyrwyr sy'n dechrau AGA.[852]

**521.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod cynnydd wedi bod yn nifer y myfyrwyr sy'n dechrau AGA, o 3 y cant yn 2022/23 i 6 y cant yn 2023/24. Dywedodd, gan mai dim ond ers 2022/23 y mae'r cynllun cymhelliant wedi bod ar gael, ei bod hi'n rhy gynnar o hyd i wybod pa mor effeithiol y mae'r cynllun hwnnw wedi bod. Fodd bynnag, tynnodd sylw at y gwaith ehangach ar gymhellion.[853] (Gweler paragraffau 155).

**522.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad cymhellion yw'r unig gamau gweithredu. Cyfeiriodd at y TAR cyflogedig sy'n galluogi ysgolion i hyfforddi eu hathrawon eu hunain. Dywedodd hefyd fod cynlluniau i ddiweddaru'r Cynllun

[849] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 212
[850] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 214
[851] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 97
[852] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[853] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 98

Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon a fyddai'n cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach y tymor hwn.[854]

**523.** Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet bwysigrwydd y diwylliant mewn ysgolion. Dywedodd fod angen i ysgolion fod yn:

> *"… places where everybody feels they belong, and that's why that anti-racist practice in schools is vital. We've got our anti-racist curriculum. We've undertaken lots of PL on anti-racist issues, so I think it's also about those things that we're doing. But I'm not complacent at all about the challenges. I met with the BAMEed group of teachers a few months ago, and they were pushing me to go much further on professional learning, also making sure that we are really robust in tackling racist incidents and the trauma that that causes in schools, not just to kids but to the teachers who are supporting kids or who are even on the receiving end of that. So, I think it's about a package of measures—incentives, encouraging people into initial teacher education—but then supporting the workforce when they're in there, and I'm really committed to doing that work—we all are across Government."*[855]

## Anabledd

**524.** Clywsom, er bod nifer yr athrawon sy'n datgan anabledd wedi dyblu ers 2020, mai dim ond 1.2 y cant oedd y ffigur o hyd.[856] Cymharodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru hyn â data o'r cyfrifiad a oedd yn dangos mai ychydig dros 21 y cant o boblogaeth Cymru oedd wedi'u cofrestru fel pobl anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.[857]

**525.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg y gallai fod rhywfaint o danadrodd am anabledd, gan fod pobl yn gallu teimlo'n bryderus ynglŷn â datgan anabledd weithiau. Roeddent yn teimlo bod y ffigurau cofrestru yn dangynrychiolaeth, yn ôl pob tebyg.[858]

[854] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 99
[855] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 100
[856] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[857] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[858] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 71

**526.** Yn ôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, byddai sicrhau bod addysgu yn fwy hyblyg yn ei wneud yn fwy deniadol i bobl anabl.[859]

**527.** Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw at y ffaith bod cynrychiolaeth o ran anabledd wedi cynyddu mewn rhannau eraill o'r gweithlu addysg, fel cynorthwywyr addysgu. Gwnaethant ddweud bod angen mwy i gefnogi'r garfan hon i fynd i'r maes addysgu. Gall rhwystrau ddechrau pan mae pobl yn yr ysgol, pam nad ydynt yn meddwl bod addysgu yn opsiwn iddynt er gwaethaf y ffaith y byddai llawer ohonynt yn athrawon rhagorol ac eithriadol.[860] Rydym yn edrych ar fater llwybrau amgen i addysgu ym Mhennod 2.

**528.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gan bartneriaethau AGA gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i sicrhau bod eu polisi derbyn yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp o ddarpar fyfyrwyr. Maent hefyd yn cael eu hasesu a'u monitro gan Gyngor y Gweithlu Addysg ar sut maent yn defnyddio eu data i "wella ansawdd ac amrywiaeth" y myfyrwyr maent yn eu derbyn "a sicrhau bod eu prosesau'n deg"[861].

**529.** Rhannodd yr Ysgrifennydd Cabinet ddata sy'n dangos bod y data diweddaraf o 2021-22 yn dangos bod bron i 13 y cant wedi cofnodi anabledd hysbys. Rhannodd ddata hefyd o Gyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion a oedd yn dangos bod 0.8 y cant o athrawon yn 2023/24 wedi nodi bod ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol yr oedd disgwyl iddo bara'n hirach na 12 mis. Roedd hyn yn groes i Ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion 2021 a oedd yn dangos bod gan 8.2 y cant o blant rhwng 5 a 15 oed anabledd. Fodd bynnag, nododd y dylid bod yn ofalus gyda'r data ond derbyniodd ei bod yn edrych fel pe bai tangynrychiolaeth sylweddol o athrawon ag anableddau yn y gweithlu. Dywedodd y byddai hyn yn rhan o ddatblygiad Cynllun y Gweithlu.[862]

## Ein barn ni

**530.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cydnabod bod angen mwy o waith i sicrhau bod y gweithlu addysgu yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu yn well. Hoffem weld gwaith sydd eisoes ar y gweill, yn enwedig drwy'r Cynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg

[859] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 228
[860] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 340
[861] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025
[862] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025

Gychwynnol i Athrawon, yn parhau fel rhan o Gynllun y Gweithlu. Dylai Cynllun y Gweithlu sicrhau bod camau gweithredu clir i gynyddu amrywiaeth y gweithlu ar draws demograffeg wahanol y boblogaeth yng Nghymru.

**531.** Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, yn ogystal â denu amrywiaeth ehangach o bobl i'r maes addysgu, bod yna gamau gweithredu i sicrhau bod athrawon o bob cefndir yn gallu aros, ffynnu a chamu ymlaen yn y sector addysg. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gweld bod addysgu yn gallu bod yn broffesiwn i bawb, gan helpu gobeithio i sicrhau bod pobl yn ymuno â'r maes addysgu yn y dyfodol.

**Argymhelliad 15.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cynllun Strategol y Gweithlu Addysg yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn sicrhau bod y proffesiwn addysgu yn adlewyrchu poblogaeth Cymru a'r cymunedau y mae ysgolion yn eu gwasanaethu yn well.

# 6. Effaith ar ddysgwyr

## Mae prinder athrawon yn cael effaith glir ar ddysgwyr, a'u deilliannau. Mae yna amrywiaeth o ffactorau sy'n cyfrannu, gan gynnwys diffyg parhad neu arbenigwyr pwnc.

**532.** Mae addysgu o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr.[863] Ond mae problemau wrth recriwtio a chadw yn cael effaith negyddol ar ansawdd addysgu.[864] Datgelodd Arolwg Addysgu Gwyddoniaeth diweddar y Gymdeithas Gemeg Frenhinol fod 71 y cant o ymatebwyr o'r farn bod prinder athrawon bioleg, cemeg a ffiseg wedi cael effaith negyddol sylweddol ar ddysgu myfyrwyr.[865]

**533.** Tynnodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd sylw at y ffaith mai'r athrawon gorau "sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig". Ond gwnaethant awgrymu nad yw'r athrawon hyn yn cael eu defnyddio lle gallent gael yr effaith fwyaf yng Nghymru. Mae hyn wedyn yn "cyfrannu'n sylweddol at y bwlch cyrhaeddiad eang sy'n bodoli yng Nghymru". Gwnaethant awgrymu bod y meini prawf AGA presennol yn golygu bod ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig yn llai tebygol o gymryd rhan mewn AGA, gan gyfyngu felly ar yr athrawon newydd posibl y mae ganddynt fynediad iddynt. Gall hefyd effeithio ar ddatblygiad ehangach arferion addysgu cynhwysol.[866]

**534.** Clywsom nad oes unrhyw fesur clir o ran yr hyn sy'n gwneud addysgu da. Dywedodd y Sefydliad Polisi Addysg fod diffyg data yn ei gwneud hi'n anodd cael dealltwriaeth glir o'r ffordd y mae newidiadau polisi yn effeithio ar ansawdd addysgu. Gwnaethant gymharu hyn â gwledydd eraill, gan gynnwys America, lle y mae'n haws mesur yr effaith y mae newidiadau'n ei chael ar ansawdd addysgu.[867]

[863] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.6 a thystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[864] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[865] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 23
[866] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraffau 7.9, 7.11 a 7.19
[867] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 221

**535.** Gall prinder athrawon effeithio ar ddysgwyr a'u deilliannau addysgol ac ehangach mewn amrywiaeth o ffyrdd.

**536.** Gall diffyg cysondeb a pharhad o ran athrawon ac addysgu gael effaith sylweddol ar ddeilliannau dysgwyr.[868]

> *"Gyda llai o athrawon yn ein hysgolion, yr hyn sy'n digwydd yn fynych yw bod athrawon yn gorfod dysgu pynciau nad ydynt yn arbenigwyr ynddynt. Gall hyn arwain at addysg israddol mewn rhai pynciau, gan arwain mewn rhai achosion at lai yn astudio pynciau penodol gan nad yw eu hathrawon wedi dangos yr un arbenigedd a brwdfrydedd tuag at y pynciau hynny."*[869]

**537.** Yn aml, mae prinder athrawon yn arwain at ddosbarthiadau mwy, gan effeithio ar gyrhaeddiad dysgwyr. Tynnwyd sylw at hyn gan Gyngor y Gweithlu Addysg[870]; Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[871]; Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru[872]; a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[873]. Gall yr effeithiau hyn gael effaith benodol ar ddysgwyr sy'n cael trafferth gyda phwnc penodol neu'r rhai sydd ag ADY.[874]

**538.** Fel y nodwyd gennym ym mharagraffau 325-333, gall heriau wrth recriwtio a chadw arwain at sefyllfa lle mae athrawon yn addysgu y tu allan i'w harbenigedd. Cafodd hyn ei godi gan:

- Y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd[875];
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd[876];
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol[877];

[868] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) a thystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[869] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[870] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[871] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[872] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[873] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[874] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[875] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 323
[876] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.7
[877] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol

- Cyngor y Gweithlu Addysg[878];
- Estyn[879];
- Y Sefydliad Ffiseg[880];
- Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol[881];
- Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[882];
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru[883];
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[884].

**539.** Dywedodd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol fod tystiolaeth wedi dangos bod:

> *"…students make greater progress and achieve higher outcomes when taught by teachers with strong subject knowledge. Subject specialists — … — are more likely to use accurate terminology, provide deeper conceptual explanations, and respond confidently to student questions, all of which enhance learning."*

Gwnaethant ddweud bod yr effaith negyddol mae cael eich addysgu gan athro nad yw'n arbenigwr pwnc yn ei chael yn gwaethygu dros amser, yn enwedig mewn pynciau cronnus fel gwyddoniaeth a mathemateg, lle mae dealltwriaeth sylfaenol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yn ddiweddarach.[885]

**540.** Roedd pob un o'r cyrff sy'n cynrychioli gwyddoniaeth yn pryderu y gallai diffyg athrawon arbenigol effeithio ar ddewisiadau pwnc a gyrfa dysgwr yn y dyfodol.[886] Tynnodd y Sefydliad Ffiseg sylw at y ffaith, yn ogystal â cholli angerdd

[878] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[879] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[880] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 25 Y Sefydliad Ffiseg
[881] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 26
[882] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[883] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[884] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[885] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[886] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 18 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, paragraff 26 a thystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol

arbenigwr pwnc, y gellir colli agweddau eraill fel sesiynau ymarferol, sef y rhan y mae'r myfyrwyr yn ei charu.[887]

**541.** Dywedodd Estyn, fod athrawon sy'n addysgu y tu allan i'w harbenigedd, yn yr achosion gorau, yn cael eu cefnogi gyda dysgu proffesiynol helaeth, mentoriaid pwnc a chyfleoedd i arsylwi ar ymarferwyr profiadol yn addysgu, ac yn cael eu monitro a'u cefnogi gan arweinwyr adrannol. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae dysgwyr yn cael darpariaeth addas o leiaf. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt nad oedd cymorth yn cael ei ddarparu yn y lleiafrif o achosion ac, o ganlyniad, roedd gwersi yn ddiflas ac yn cael eu cyflwyno'n wael.[888]

**542.** Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau:

> *"... In my Welsh department, which gets good results, only one of the five members of staff is actually a trained Welsh teacher; the others are teachers who speak Welsh. There is a difference. But, over the years, they have retrained and delivered excellent results. So, quality is inevitably going to drop if you don't have specialists in."*[889]

**543.** Tynnodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd sylw at y ffaith bod arweinwyr ysgolion yn aml yn sicrhau bod athrawon arbenigol yn cael eu defnyddio ar gyfer TGAU a Safon Uwch, gan adael dysgwyr iau gydag athrawon llai profiadol, neu athrawon nad ydynt yn arbenigwyr yn y pwnc. Fodd bynnag, mae hyn yn groes i dystiolaeth "sy'n awgrymu mai dyma'r oedran pan mae disgyblion yn debygol o ymddieithrio o addysg os nad yw eu diddordeb yn cael ei ysgogi"[890].

**544.** Clywsom hefyd y gall peidio â chael arbenigwyr pwnc olygu y bydd llai o bynciau i ddewis ohonynt mewn ysgolion, ac y gall gyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr.[891] Gall hyn wedyn arwain at gylch dieflig i rai pynciau lle mae prinder.

**545.** Tynnodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sylw at rai o'r pynciau a gynigiwyd yn draddodiadol ar un adeg, ond na all rhai ysgolion eu cynnig bellach, gan gynnwys "Cerddoriaeth, Drama, Ieithoedd Tramor Modern, a phynciau

[887] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 238
[888] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[889] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 96
[890] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.6
[891] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Gwyddoniaeth unigol"[892]. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod risg y gallai lleihau dewisiadau ac ansawdd addysgu anghyson ehangu anghydraddoldebau a lleihau'r profiad addysgol cyffredinol.[893] Dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, er y dylai'r diwygiadau i gyrsiau 14-16 ddarparu ystod ehangach o opsiynau i ddysgwyr, fod diffyg athrawon yn golygu y bydd llai o ddewis ar gael.[894] Gall y prinderau hyn effeithio'n arbennig ar opsiynau cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr, gan gynnwys opsiynau ôl-16.[895]

**546.** Efallai y bydd effaith fwy sylweddol ar ddysgwyr mewn rhai ysgolion, er enghraifft ysgolion gwledig neu'r rhai mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn gymdeithasol.[896] Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod trosiant uwch o staff mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau incwm isel sydd yn ei dro yn ehangu'r bwlch cyrhaeddiad.[897]

**547.** Clywsom fod y prinder recriwtio wedi arwain at rai ymgeiswyr gwannach yn ymgymryd ag AGA.[898] Gall hyn wedyn effeithio ar ddeilliannau dysgwyr. Dywedodd Estyn fod arweinwyr ysgolion wedi adrodd nad yw'r ansawdd o'r safon ofynnol a bod yn rhaid i ysgolion ddarparu cymorth ychwanegol i sicrhau safon dderbyniol o addysgu.[899]

**548.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr yn "dibynnu ar weithlu o ansawdd uchel", a bod dysgwyr wrth "wraidd yr holl gamau yr ydym eisoes yn eu cymryd i gefnogi recriwtio a chadw". Gwnaethant nodi nifer o gamau gweithredu gwahanol, gan gynnwys £44 miliwn o gyllid ar gyfer Cymorth Cenedlaethol i ysgolion; £9.5 miliwn ar gyfer Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd; a'r Grant Datblygu Disgyblion. Mae gan y Grant Datblygu Disgyblion gyllideb o tua £128 miliwn i helpu i liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad dysgwyr. Gwnaethant hefyd gyfeirio at y canllawiau ymgysylltu amlasiantaethol a

[892] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[893] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[894] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 06 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[895] Tystiolaeth ysgrifenedig, SH37, Comisiynydd y Gymraeg
[896] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg; a thystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[897] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[898] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[899] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn

gyhoeddwyd yn ddiweddar i helpu ysgolion i weithio gyda gwasanaethau a sectorau eraill a datblygu “gweithio partneriaeth mwy effeithiol”.[900]

**549.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod meintiau dosbarthiadau wedi lleihau ar gyfer y dosbarth babanod cyffredin ac wedi cynyddu ychydig ar gyfer dosbarthiadau iau cyffredin. Fodd bynnag, mae'r ddau o dan 30.[901] O ran ysgolion uwchradd, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai'r gymhareb disgybl: athro oedd y mesur mwy priodol. Dywedodd mai'r gymhareb mewn ysgolion uwchradd ym mis Ionawr 2025 oedd 17.5.[902]

## Ein barn ni

**550.** Fel yr ydym wedi'i nodi eisoes yn yr adroddiad hwn, mae addysgu fel proffesiwn yn cynnig cyfle i gael effeithiau parhaol ar blant a phobl ifanc. Gall rhai o'r materion strwythurol yr ydym wedi tynnu sylw atynt drwy gydol yr adroddiad wanhau pŵer yr effaith honno, gan gynnwys peidio â bod ag arbenigwyr pwnc yn addysgu pynciau penodol, trosiant uchel o staff addysgu a dosbarthiadau mawr.

**551.** Mae pob ysgol yn wynebu lefelau a mathau gwahanol o heriau, a gall bod yn arweinydd ysgol fod yn swydd unig weithiau. Nid oes un ateb syml i'r anawsterau y mae ysgolion yn eu hwynebu. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd Cynllun y Gweithlu yn cynnig cyfle i ddwyn yr holl elfennau gwahanol o bolisi addysg ynghyd i nodi sut y gellir ateb yr heriau hyn. Dylai'r holl waith hwn gael ei weld drwy lygaid dysgwr, a dylai nodi sut y gellir gwneud gwelliannau a fydd yn sicrhau bod dysgwyr yn cael yr addysg orau bosibl.

[900] Tystiolaeth ysgrifenedig TRR 31 Llywodraeth Cymru
[901] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 106
[902] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025

# 7. Effaith ar gyflawni diwygiadau addysgol

Mae ysgolion yng nghanol llawer o ddiwygiadau sylweddol. Mae blinder diwygio yn ffactor o ran cadw athrawon, ond mae'r cwricwlwm newydd hefyd yn cynnig cyfle i wneud addysgu'n fwy deniadol.

**552.** Rydym eisoes wedi tynnu sylw at effaith y diwygiadau addysg ar recriwtio a chadw yn gynharach yn yr adroddiad. Yn benodol o ran llwyth gwaith a straen. Yn y bennod hon, rydym am ganolbwyntio ar effaith materion recriwtio a chadw ar gyflawni diwygiadau addysg.

**553.** Rydym wedi edrych ar weithredu'r cwricwlwm newydd a diwygiadau ADY yn fanwl yn ystod y Senedd hon fel rhan o'n hymchwiliad i Weithredu Diwygiadau Addysg. Gwnaethom hefyd graffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) fel yr oedd ar y pryd. Fodd bynnag, mae newidiadau eraill hefyd o fewn y system addysg gan gynnwys diwygio cymwysterau; a newidiadau i strwythurau gwella ysgolion. Mae ysgolion hefyd yn delio ag effeithiau sylweddol y pandemig.

**554.** Dywedodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe fod trosiant ymhlith y gweithlu yn golygu bod ysgolion yn cael eu hansefydlogi, gan olygu ei bod hi'n anoddach rhoi diwygiadau ar waith am fod sylw'n troi at fynd i'r afael â materion yn hytrach na myfyrio.[903] Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod problemau recriwtio a chadw yn rhoi straen ar allu ysgolion i weithredu diwygiadau yn effeithiol.[904] Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd y bydd uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yn cael eu tanseilio gan heriau recriwtio a chadw.[905]

**555.** Dywedodd Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd fod camgymhariad sefydledig a chynyddol rhwng rhethreg dyheadau polisi, y realiti mewn ysgolion a'r gallu sydd gan ysgolion a staff i gyflawni'r rhain. Maent o'r farn bod disgwyliadau afresymol yn cael eu gosod ar athrawon a bod diffyg sylw yn cael ei roi i'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â gweithredu'r diwygiadau.[906] Yn ôl

[903] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[904] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[905] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.17
[906] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 27, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, bydd y ffaith nad oes digon o staff yn golygu y bydd yr effaith negyddol ar ddeilliannau a chyfleoedd bywyd disgyblion yn parhau.[907]

**556.** Dywedodd Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd fod pryderon gwirioneddol bod gweithredu'r cwricwlwm newydd yn rhoi dysgwyr o dan anfantais. Gwnaethant ddweud bod anghysondeb ac amrywiad eang mewn ymarfer.[908] Codwyd gweithredu anghyson gan y Gymdeithas Fioleg Frenhinol hefyd[909].

**557.** Tynnodd Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe sylw at ganfyddiadau Estyn bod llawer o ysgolion yn ei chael hi'n anodd alinio datblygu'r cwricwlwm â strategaethau addysgu ac asesu effeithiol, yn rhannol oherwydd problemau staffio.[910] Serch hynny, nododd Estyn fod y rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud cynnydd addas wrth weithredu'r cwricwlwm.

**558.** Clywsom bryderon, gan gynnwys gan Gyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon[911], na fydd gan athrawon sydd wedi'u hyfforddi yn Lloegr arbenigedd o bosibl yn y cwricwlwm newydd. Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd y gallai rhai myfyrwyr AGA o Loegr deimlo na allant addysgu yng Nghymru oherwydd y cwricwlwm newydd. Gwnaethant ddweud mai ychydig iawn o ystyriaeth a roddwyd i effaith y cwricwlwm newydd ar AGA, er bod athrawon wedi tynnu sylw at rai materion yn ystod ei ddatblygiad.[912]

**559.** Cydnabu Llywodraeth Cymru effeithiau gweithredu'r diwygiadau addysg newydd ar lwyth gwaith, gan ddweud eu bod yn parhau i edrych ar sut y gellir cefnogi ymarferwyr yn well. Gwnaethant gyfeirio at y diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.[913]

**560.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y gefnogaeth genedlaethol sydd ar gael i ysgolion:

> *"... ar faterion allweddol dilyniant, asesu, a dylunio cwricwlwm, sy'n cynnwys cymorth cydweithredol dwys, wedi'i dargedu ac sydd ar gael yn genedlaethol ynghyd â dulliau ymarferol a*

[907] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
[908] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 27, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
[909] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 19 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
[910] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[911] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 17 Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon
[912] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 04 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 7.18
[913] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru

*thempledi ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Mae adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol gyda 100% o'r cyfranogwyr yn gweld y rhaglen yn glir ac yn berthnasol yn ogystal ag elwa o weithio ar y cyd ag ysgolion eraill. Mae hyn yn rhoi mynediad i bob athro i'r offer i adeiladu cwricwlwm rhagorol gyda disgwyliadau uchel o'u dysgwyr."*[914]

**561.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod yna lawer o athrawon sy'n frwdfrydig iawn am y cwricwlwm newydd oherwydd ei fod yn rhoi llawer o ymreolaeth i athrawon. Ond cydnabu ei fod yn heriol, yn enwedig dylunio cwricwlwm newydd ochr yn ochr â newidiadau i asesu a chynnydd. Ond nododd mai dyna pam maent wedi buddsoddi miliynau o bunnoedd mewn rhaglen i gefnogi'r cwricwlwm cenedlaethol.[915]

**562.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn falch bod athrawon a gafodd ei hyfforddi yn Lloegr yn symud i Gymru. Dywedodd y gallai rhai fod yn dewis addysgu yng Nghymru oherwydd y diwygiadau addysg. Nododd fod yn rhaid i bob athro gwblhau cyfnod sefydlu statudol i addysgu yng Nghymru. Bydd yn rhaid iddynt hefyd ymgymryd â datblygiad proffesiynol ar nifer o faterion gan gynnwys y cwricwlwm newydd. Roedd hi'n gobeithio, pan fydd athrawon yn cael eu penodi o'r tu allan i Gymru, y byddai ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i'r dysgu proffesiynol hwn.[916]

**563.** Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet dderbyn yr heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni diwygiadau ADY, ond dywedodd fod arferion cynhwysol da iawn mewn llawer o ysgolion. Dywedodd ei bod hi'n gwybod pa mor heriol yw hi i'r proffesiwn ond mai ei rôl hi yw gwneud popeth o fewn ei gallu i'w cefnogi.[917]

**564.** Dywedodd fod cyllid yn hanfodol i gefnogi ysgolion:

*"… We've got a complex range of reforms that we're trying to deliver, probably more, actually, than any other part of Government, between the Curriculum for Wales, ALN and now the Welsh language and education Bill. That needs to be underpinned with resources. But it's also about the complexity*

[914] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[915] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 116
[916] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025
[917] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 117

*of what schools are dealing with. That's why prioritising funding for schools is really important."*[918]

## Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025

**565.** Y gwaith craffu a wnaethom ar y Bil fel yr oedd bryd hynny, y Ddeddf nawr, oedd un o'r pwyntiau cychwyn ar gyfer yr ymchwiliad hwn, fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad. Roedd yn amlwg bod cael digon o weithlu gyda'r sgiliau Cymraeg cywir yn y lleoedd cywir yn hanfodol i weithredu'n Ddeddf yn effeithiol. Gwnaethom hefyd gydnabod na ellid edrych ar gapasiti staff Cymraeg ar ei ben ei hun, gan ein harwain i wneud yr argymhelliad hwn:

> *"Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r dull deddfwriaethol mwyaf priodol i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cynllun gweithlu addysg statudol sy'n cynnwys targedau, ac amserlen, ar gyfer recriwtio a chadw. Dylai'r cynllun gweithlu hwn gwmpasu pob agwedd ar y gweithlu addysg, gan edrych yn benodol ar feysydd lle mae prinder, yn ogystal â'r angen tebygol yn y dyfodol, a'r ffyrdd yr eir i'r afael â'r angen hwn. Dylai ystyried yr amrywiadau ledled Cymru."*[919]

**566.** Gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Gwnaethant ddweud bod y gweithlu "mor bwysig" ac y byddai cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg yn cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, ni fyddai'n gynllun statudol oherwydd yr angen i fod yn hyblyg ac i fod yn addas ar gyfer y dyfodol.[920]

**567.** Ailadroddwyd y pryderon ynghylch peidio â chael gweithlu digonol i gyflawni amcanion y Ddeddf gan amrywiaeth o randdeiliaid yn ystod yr ymchwiliad hwn gan gynnwys:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[921];
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru[922];

[918] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 132
[919] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1, Pennod 3, Materion o ran y gweithlu a chapasiti, 13 Rhagfyr 2024
[920] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 13 Ionawr 2025
[921] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 323
[922] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 16 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

- Coleg Cymraeg Cenedlaethol[923];
- Estyn[924];
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol[925];
- Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru[926];
- Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe[927];
- Comisiynydd y Gymraeg[928].

**568.** Tynnodd Estyn sylw at y ffaith nad yw dros chwarter yr holl athrawon sy'n addysgu Cymraeg wedi cael eu hyfforddi i addysgu'r iaith. Gwnaethant ddweud bod ffigurau diweddar ynghylch y nifer sy'n cael eu recriwtio i wneud AGA yn eithriadol o isel. Er bod partneriaethau AGA yn cefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg, nid oes llawer o barhad i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg rhwng rhaglenni AGA ac ANG.[929]

**569.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod risg y bydd

> *"…cylch diddiwedd lle bydd prinder athrawon sydd â sgiliau Cymraeg yn rhwystr parhaus rhag sicrhau cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n gadael yr ysgol yn medru siarad y Gymraeg a'i defnyddio."*[930]

**570.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd y strategaeth bresennol ar gyfer y gweithlu Cymraeg yn adlewyrchu anghenion y Ddeddf. Gwnaethant alw am "strategaeth gweithlu addysg genedlaethol a chynhwysfawr sy'n adlewyrchu uchelgais y Bil"[931].

**571.** Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod angen amrywiaeth o gamau gweithredu, gan gynnwys "uwch-sgilio systematig ar gyfer aelodau presennol y gweithlu addysg o safbwynt y Gymraeg, a newid sylfaenol i'r disgwyliadau mewn perthynas â'r Gymraeg yng nghyd-destun AGA a datblygiad proffesiynol gyrfa-

[923] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[924] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[925] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 206
[926] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[927] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 21 Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
[928] Tystiolaeth ysgrifenedig, TR15 Comisiynydd y Gymraeg
[929] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[930] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 15 Comisiynydd y Gymraeg
[931] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 15 Comisiynydd y Gymraeg

gynnar"[932]. Pwysleisiwyd pwysigrwydd uwchsgilio'r gweithlu presennol hefyd gan Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru[933]; a Chomisiynydd y Gymraeg[934].

**572.** Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fod y cynllun sabothol yn "llwyddiannus tu hwnt" o ran uwchsgilio staff. Gwnaethant alw am strategaeth ar gyfer y gweithlu a fyddai'n sicrhau datblygiad y sgiliau iaith sydd eu hangen yn unol â'r Ddeddf.[935]

**573.** Gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn bod nodau Cymraeg 2050 "yn galw am newidiadau a chamau gweithredu pellgyrhaeddol" a bod "gweithlu cryf a medrus" yn hanfodol.[936] Cyfeiriwyd at y Fframwaith Cenedlaethol sy'n un o ofynnol statudol y Ddeddf:

> *"[R]haid [iddo] nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chymorth ar gael i ymarferwyr addysg yng Nghymru at ddibenion gwella gallu yn y Gymraeg. Rhaid iddo hefyd: a) cynnwys asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg sydd eu hangen ym mhob awdurdod lleol er mwyn cyrraedd unrhyw darged, a b) nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd, yn seiliedig ar yr asesiad hwnnw, at ddibenion sicrhau bod nifer yr ymarferwyr addysg sy'n gweithio yng Nghymru yn diwallu'r angen."*[937]

**574.** Gwnaethant hefyd gyfeirio at Gynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022. Nod y Cynllun yw:

- Cynyddu nifer yr athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg;
- Cynyddu nifer y cynorthwywyr addysgu cyfrwng Cymraeg;
- Meithrin sgiliau Cymraeg pob ymarferydd;
- Cynyddu'r gallu i arwain yn y sector cyfrwng Cymraeg a datblygu arweinwyr y Gymraeg ym mhob ysgol.[938]

---

[932] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 12 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[933] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[934] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 15 Comisiynydd y Gymraeg
[935] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 207
[936] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[937] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[938] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru

**575.** Ymhlith y camau gweithredu eraill y gwnaethant sôn wrthym amdanynt roedd rhai i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg staff; a chanllawiau i awdurdodau lleol i'w helpu i ddadansoddi data'r gweithlu ar allu iaith staff.[939]

**576.** Gwnaethant dynnu sylw at waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n cydlynu datblygiad proffesiynol y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu cynllun a fydd yn galluogi treialu "modelau cyflawni newydd" a fydd yn cynnwys amrywiaeth o wahanol opsiynau. Bydd y Ganolfan Genedlaethol hefyd yn rheoli'r "cyrsiau dwys sydd ar gael drwy'r Cynllun Sabothol", ac yn gweithio gyda darparwyr AGA i ddatblygu adnoddau sydd wedi'u cynnwys mewn cyrsiau AGA ers mis Medi 2024.[940]

**577.** Yng ngoleuni'r Ddeddf, a'r cynllun ehangach ar gyfer y gweithlu, bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar ba gamau pellach y gallai fod eu hangen. Gwnaethant dderbyn y bydd angen iddynt adolygu targedau presennol oherwydd "demograffeg sy'n newid ochr yn ochr â chynlluniau'r awdurdodau lleol ar gyfer cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd"[941].

## Ein barn ni

**578.** Rydym eisoes wedi nodi'r ffaith ein bod o'r farn bod y sector addysg yn agos iawn at yr uchafswm o ran lefel y diwygio y gellir ei gyflawni'n llwyddiannus (gweler paragraff 494). Ychydig iawn o le sydd yn y system gyfredol ar gyfer diwygio pellach, a bydden yn cynghori unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i feddwl am hyn cyn mynd ati i wneud rhagor o ddiwygiadau ym maes addysg.

**579.** Drwy gydol tymor y Senedd hon, rydym wedi edrych yn fanwl ar y ffordd y mae'r cwricwlwm newydd a'r system ADY yn cael eu gweithredu. Rydym yn hyderu bod y gwaith rydym wedi'i wneud ar hyn wedi helpu i lywio Cynllun newydd y Gweithlu, lle y bo'n berthnasol. Yn fuan ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, byddwn yn cyhoeddi ein barn derfynol ar weithredu diwygiadau addysg. Wrth gyrraedd y farn honno, rydym wedi ystyried y dystiolaeth berthnasol o'r ymchwiliad hwn.

**580.** O ran gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru), mae ein barn yr un fath â'r hyn a nodwyd yn Adroddiad Cyfnod 1 y Bil, fel yr oedd bryd hynny. Mae'r Ddeddf yn uchelgeisiol, ac fel y nodwyd gennym, bydd yn cymryd "[c]ryn ymdrech gan bawb yn y system addysg" i'w chyflawni. Er bod Llywodraeth Cymru yn

[939] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[940] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[941] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru

cydnabod bod gweithlu yn hollbwysig i gyflawni'r Ddeddf, gwnaethom alw arni i wneud mwy.[942] Bydd gennym ddiddordeb mewn gweld sut mae Cynllun y Gweithlu yn ystyried y galwadau y mae'r Ddeddf newydd yn eu gosod ar y system addysg, a'r gweithlu, yn enwedig y materion a godwyd gennym yn ein hadroddiad ar y Bil.

[942] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1, Rhagfyr 2024

# 8. Y gweithlu addysg ehangach

## Gall recriwtio a chadw athrawon gael effaith ar weddill y gweithlu addysg. Mae angen i gyflog ac amodau Cynorthwywyr Addysgu adlewyrchu'r rôl bwysig y maent yn ei chwarae.

**581.** Er mai ffocws ein hymchwiliad oedd recriwtio a chadw athrawon, roeddem hefyd eisiau deall yr effaith ar y gweithlu addysg ehangach. Rydym wedi trafod drwy gydol yr adroddiad yr effaith y mae prinder yn ei chael ar athrawon ac arweinwyr ysgolion eraill, yn enwedig o ran eu llwythi gwaith. Yn y bennod hon, rydym yn canolbwyntio ar staff eraill ym maes addysg.

**582.** Ffocws yr ymchwiliad a gynhaliwyd gennym oedd athrawon yn y sector ysgolion statudol. Rydym yn ymwybodol bod materion sy'n effeithio ar athrawon mewn rhannau eraill o'r sector addysg, ac ar weithwyr addysg proffesiynol eraill mewn ysgolion. Fodd bynnag, credwn fod y materion hyn yn haeddu cael eu hystyried ar wahân, ac roeddem am sicrhau bod cwmpas yr ymchwiliad hwn yn ddichonadwy.

**583.** Mae Cynorthwywyr Addysgu yn rhan amhrisiadwy o'r gweithlu addysg, ond bu pryderon ers tro ynghylch eu cyflog a'u hamodau. Mae hyn wedi cael ei amlygu ymhellach mewn ymchwil ddiweddar a gomisiynwyd gan UNSAIN. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr ymchwil honno ym mis Rhagfyr.[943] Mae llawer o'r materion, yn enwedig anghenion mwyfwy cymhleth dysgwyr, sy'n effeithio ar athrawon yn cael effaith sylweddol hefyd ar Gynorthwywyr Addysgu. Ond maent yn cael eu talu llawer llai, gan olygu bod y rôl yn llai deniadol. Cafodd hyn ei godi gan nifer o bobl gan gynnwys Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig[944]; Estyn[945]; a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru[946]. Tynnodd ACT sylw hefyd at effaith contractau tymor byr a diffyg diogelwch swyddi.[947]

[943] UNSAIN Cymru a'r Adran Ymchwil Llafur, Time to value School Support Staff: The case for a Wales Negotiating Body, Rhagfyr 2025
[944] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 09, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
[945] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[946] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[947] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 07 ACT Ltd

**584.** Nododd Cyngor y Gweithlu Addysg y lefel uchel o drosiant ymhlith staff cymorth. Mae hyn wedyn yn effeithio ar ysgolion, gan greu ansefydlogrwydd a phroblemau recriwtio parhaus.[948] Dywedodd Estyn hefyd fod hwn yn fater a oedd wedi codi yn ystod arolygiadau.[949]

**585.** Clywsom bryderon am Gynorthwywyr Addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Uwch yn cyflenwi ar ran athrawon. Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru fod yr arfer yn cael ei ddefnyddio'n eang ledled Cymru.[950] Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru hefyd fod "dibyniaeth gynyddol" ar Gynorthwywyr Addysgu i ymgymryd â "dyletswyddau sydd y tu hwnt i'w cylch gwaith, fel cyflenwi mewn rhai achosion".[951]

**586.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod Cynorthwywyr Addysgu yn "rhan hanfodol a gwerthfawr o'n gweithlu addysg, ac rydym am wneud yn siŵr bod ganddynt y gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth maen nhw'n ei haeddu". Gwnaethant ddweud bod gwaith yn mynd rhagddo gydag eraill i "[g]ytuno sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'm hymrwymiad i wella cyflog ac amodau ar gyfer ein staff cymorth"[952]. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn bryderus iawn am gyflog ac amodau Cynorthwywyr Addysgu, ac y byddai'n flaenoriaeth allweddol ar gyfer Cynllun y Gweithlu.[953]

**587.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd ei bod yn bwysig bod ysgolion yn cadw staff. Dywedodd fod cael gwared ar rolau fel cymorth bugeiliol yn creu ystod eang o broblemau y mae'n rhaid i athrawon dosbarth ddelio â nhw wedyn.[954]

**588.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet am Gynorthwywyr Addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Uwch yn cymryd gwersi. Dywedodd fod gwaith wedi'i wneud i lunio disgrifiadau swydd cyffredin ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Uwch, ond ei bod hi'n rhwystredig iawn nad yw'r dull hwn wedi'i weithredu ar lefel awdurdod lleol. Roedd y mater hwn yn cael ei ddatblygu ar frys. Dywedodd hefyd fod y fframwaith statudol yn glir iawn mai dim

[948] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 23 Cyngor y Gweithlu Addysg
[949] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 24 Estyn
[950] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 13, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[951] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 22 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
[952] Tystiolaeth ysgrifenedig, TRR 31 Llywodraeth Cymru
[953] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025
[954] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 133

ond y rhai â SAC y mae caniatâd iddynt gael eu cyflogi i addysgu, ond bod yna rai amgylchiadau lle y gall y rhai heb SAC wneud gwaith penodol.

> *"Caniateir iddynt addysgu naill ai fel 'athro anghymwysedig' (lle mae'r athro heb gymwysterau yn cael ei gyflogi am gyfnod cyfyngedig fel athro ysgol ac wedi'i gofrestru gyda CGA i ymgymryd â gwaith penodol) neu mewn amgylchiadau penodol am gyfnod cyfyngedig pan fyddant yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athrawon cymwysedig fel y'u diffinnir gan y ddeddfwriaeth. Ni all pobl sy'n cael eu cyflogi mewn ysgol fel CALU neu gynorthwywr addysgu fod yn athro ysgol at ddibenion y ddeddfwriaeth hyd yn oed os ydynt yn meddu ar SAC.*
>
> *Mae'r dystiolaeth sydd gennym am CALU a chynorthwywyr addysgu y gofynnir iddynt addysgu dosbarthiadau yn anecdotaidd ar hyn o bryd. Nid yw'n rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn casglu data arno. Fodd bynnag, mae angen i ni ddatblygu dealltwriaeth o'r mater hwn, a byddaf yn gofyn i awdurdodau lleol fwrw ymlaen â'r gwaith hwn fel rhan o'n cynigion yng Nghynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg.*
>
> *Rwy'n cytuno nad yw'n dderbyniol gofyn i aelodau o staff ymgymryd â dyletswyddau sydd y tu hwnt i'w cylch gorchwyl. Mae'n gywir y dylai athro cymwys fod ar gael ac mae'r gofynion statudol yma yng Nghymru yn glir, …"*[955]

## Ein barn ni

**589.** Er bod yr ymchwiliad hwn wedi canolbwyntio ar athrawon, rydym yn gwybod bod llwyddiant y system addysg yng Nghymru yn dibynnu'n fawr ar y gweithlu addysg ehangach. Mae plant ac ysgolion yn dibynnu ar nifer fawr o staff eraill sy'n aml yn darparu'r cymorth ehangach ar gyfer llesiant dysgwyr. Rydym yn cydnabod gwerth y staff hyn a'r ffaith nad yw llawer ohonynt yn cael budd o gyflog neu amodau sy'n cydnabod pwysigrwydd a gwerth gwirioneddol eu rolau.

**590.** Nodwn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Unsain Cymru ar staff cymorth mewn ysgolion (gweler paragraff 583). Rydym yn cytuno y dylai fod dull

[955] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025

cenedlaethol o ymdrin â chyflog, telerau ac amodau ar gyfer staff cymorth. Mae hyn yn unol â'r dull partneriaeth gymdeithasol a fabwysiedir yng Nghymru. Byddai hefyd, gobeithio, yn arwain at welliant mewn cyflog ac amodau ar gyfer grŵp mor bwysig o weithwyr addysg proffesiynol, a fyddai'n gweithio'n swyddogol ar radd sy'n adlewyrchu'r hyn y maent yn ei wneud.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff cenedlaethol i bennu cyflog, telerau ac amodau ar gyfer staff cymorth.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **5 Mehefin 2025** | **Hayden Llewellyn, Prif Weithredwr,**<br>Cyngor y Gweithlu Addysg<br>**Eithne Hughes, Cadeirydd y Cyngor,**<br>Cyngor y Gweithlu Addysg<br>**Yr Athro David Egan, Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd,**<br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd<br>**Jack Worth, Arweinydd Ymchwil i'r Gweithlu,**<br>Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Addysg ac Ymchwil<br>**James Zuccollo, Cyfarwyddwr Gweithlu Ysgolion,**<br>Sefydliad Polisi Addysg<br>**Neil Butler, Swyddog Cenedlaethol Cymru,**<br>Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau<br>**Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol,**<br>Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru<br>**Claire Rickard, Aelod Gweithredol Cymru,**<br>Yr Undeb Addysg Cenedlaethol<br>**Stuart Williams, Swyddog Polisi,**<br>Yr Undeb Addysg Cenedlaethol |
| **18 Mehefin 2025** | **Claire Armitstead, Cyfarwyddwr,**<br>Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru<br>**Neil Foley, Is-lywydd,**<br>Y Gymdeithas Arweinwyr Ysgol a Cholegau a Phennaeth Ysgol Uwchradd Prestatyn<br>**Laura Doel, Ysgrifennydd Cenedlaethol,**<br>Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru<br>**Annette Farrell, Rheolwr Rhaglen, Polisi Addysg,**<br>Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Shabana Brightley, Uwch Swyddog Polisi Addysg,**<br>Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol<br>**Eluned Parrott, Pennaeth,**<br>Sefydliad Ffiseg Cymru<br>**Kerry Bevan,**<br>Y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd |
| **16 Gorffennaf 2025** | **Christopher Williams, Arweinydd Cwrs, Addysg Gychwynnol Athrawon Gynradd,**<br>Prifysgol De Cymru<br>**Dave Stacey, Cyfarwyddwr Addysg Gychwynnol Athrawon,**<br>Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac yn cynrychioli partneriaeth AGA yr Athrofa<br>**Dr Sarah Stewart, Cyfarwyddwr y rhaglen TAR yng Nghymru**,<br>Y Brifysgol Agored yng Nghymru<br>**Dr Angella Cooze, Uwch Ddarlithydd TAR Saesneg a Chyfarwyddwyr Rhaglen TAR Uwchradd, Partneriaeth Ysgolion,**<br>Prifysgol Abertawe<br>**Rebecca Williams, Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio'r Gweithlu,**<br>Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>**Dona Lewis, Prif Weithredwr,**<br>Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br>**Y Cynghorydd Deborah Davies, Dirprwy Lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Dirprwy Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd ac Aelod o'r Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar,**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Dr Lowri Brown, Is-gadeirydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Phrif Swyddog Addysg, Cyngor Conwy,**<br>Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| **17 Medi 2025** | **Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Christopher Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Ymarferwyr Ysgolion,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Awen Penri, Arweinydd Cynllun Strategol y Gweithlu Addysg,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **TRR 01** | Dr Emily Marchant, Adran Addysg ac Astudiaethau Plentyndod, Prifysgol Abertawe |
| **TRR 02** | Unigolyn |
| **TRR 03** | Unigolyn |
| **TRR 04** | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **TRR 05** | Sefydliad Polisi Addysg |
| **TRR 06** | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru |
| **TRR 07** | ACT Ltd |
| **TRR 08** | Y Brifysgol Agored yng Nghymru |
| **TRR 09** | Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig |
| **TRR 10** | Education Support |
| **TRR 11** | Canolfan Ymchwil Addysg Ysgolion yr Alban |
| **TRR 12** | Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| **TRR 13** | Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru |
| **TRR 14** | Prifysgol Southampton |
| **TRR 15** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **TRR 16** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru |
| **TRR 17** | Cyngor y Prifysgolion a'r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon |
| **TRR 18** | Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol |
| **TRR 19** | Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol |
| **TRR 20** | Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru |
| **TRR 21** | Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **TRR 22** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| **TRR 22** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| **TRR 23** | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| **TRR 24** | Estyn |
| **TRR 25** | Y Sefydliad Ffiseg |
| **TRR 26** | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru |
| **TRR 27** | Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd |
| **TRR 28** | Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| **TRR 29** | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol |
| **TRR 30** | Prifysgol Wrecsam |
| **TRR 31** | Llywodraeth Cymru |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau | Mehefin 2025 |
| Yr Undeb Addysg Cenedlaethol | Mehefin 2025 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 16 Gorffennaf 2025 |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | Mehefin 2025 |
| Llywodraeth Cymru | 19 Tachwedd 2025 |